# Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD LLUN, 28 CHWEFROR 2022 am 9:30 y. b. | | MONDAY, 28 FEBRUARY, 2022 at 9:30 a.m. |
| CYFARFOD RHITHIOL WEDI'I FFRYDIO'N FYW | | VIRTUAL LIVE STREAMED MEETING |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes<br>01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

John Griffith, Gary Pritchard, Dylan Rees *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair),* Alun Roberts, Nicola Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Richard Griffiths, Richard O. Jones

**PLAID LAFUR CYMRU/ WALES LABOUR PARTY**

J. Arwel Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats)*(Cadeirydd/Chair)*
Bryan Owen

**AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) /**
**CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church)
*Gwag/Vacant* (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)
Mr Dyfed Wyn Jones (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector)
Llio Johnson (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor- Secondary Schools Sector and ALN)

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.*

## R H A G L E N

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddoreb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 24 Ionawr, 2022.

**3 SEFYDLU CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - CYNIGION DRAFFT TERFYNOL** (Tudalennau 11 - 30)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**4 SEFYDLU CYLLIDEB GYFALAF 2022/23 - CYNIGION DRAFFT TERFYNOL** (Tudalennau 31 - 48)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**5 PANEL SGRIWTINI CYLLID - DIWEDDARIAD AR GYNNYDD**

Derbyn adroddiad ar lafar gan Gadeirydd y Panel.

**6 DATBLYGIAD GOFAL YCHWANEGOL - TYDDYN MOSTYN, PORTHAETHWY**

Cyflwyno adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai.

**7 CYNLLUN TUAG AT SERO NET** (Tudalennau 49 - 76)

Cyflwyno adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr.

**8 CYNLLUN GWEFRU CERBYDAU TRYDAN YNYS MÔN** (Tudalennau 77 - 90)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.

**9 BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 91 - 98)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 24 Ionawr, 2022

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr John Griffith, Richard Griffiths, Bryan Owen, Gary Pritchard, Alun Roberts

Aelod Cyfetholedig: Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig)

**Aelodau Portffolio**

Y Cynghorwyr Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol), Richard Dew (Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd), Carwyn Jones (Aelod Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd), R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid), Alun Mummery (Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau), R.G. Parry, OBE, FRAgS (Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol), Ieuan Williams (Aelod Portffolio Trawsnewid a'r Gymraeg), Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid)

**WRTH LAW**:

Prif Weithredwr
Dirprwy Brif Weithredwr
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
Cyfarwyddwr Swyddogaeth Dros Dro (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Tai)
Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)
Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio ac Economaidd)
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid a Phennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd
Rheolwr Gwasanaeth (Strategaeth Dai, Comisiynu a Pholisi)
Rheolwr Rhaglenni, Cynllunio Busnes a Pherfformiad
Rheolwr Sgriwtini (AGD)
Swyddog Pwyllgor (ATH)

**YMDDIHEURIADAU**: Y Cynghorwyr Richard Owain Jones a Nicola Roberts

**HEFYD YN BRESENNOL:** Trwy wahoddiad ar gyfer eitemau'r Gyllideb: Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Trefor Ll. Hughes, MBE, Eric Jones, Robert Ll. Jones, Dafydd Roberts (Cadeirydd Panel Sgriwtini Cyllid)

---

DRAFT

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd y rhai a oedd yn bresennol eu hunain.

## 1 DATGAN DIDDORDEB

Bu i'r Cynghorydd Dylan Rees ddatgan diddordeb personol ond nad oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 6 ar yr agenda gan ei fod yn gwirfoddoli gyda'r cynllun Bwyd Da Môn y cyfeirir ato yn yr adroddiad o dan eitem 6.

## 2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd, 2021 a chadarnhawyd eu bod yn gywir yn amodol ar y canlynol –

**Yn codi – Cynllun Trosiannol Eitem 5**

Cynigiodd y Cynghorydd Gary Pritchard y dylid diwygio'r cofnodion i gynnwys cofnod o'r sylwadau a wnaed ar ddiwedd y drafodaeth ar yr eitem uchod ar bwnc Cartrefi Grŵp Bach y Cyngor (Cartrefi Clyd) a'u hailgyflwyno i'r cyfarfod nesaf.

Ar gais y Cadeirydd a ddywedodd ei fod yn credu bod yr holl faterion o bwys wedi'u cynnwys yn y cofnodion a'u bod yn unol â'r confensiwn o ran cofnodion eraill y Cyngor, dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth Dros Dro (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro y dylid ymdrin â'r mater mewn dwy ran sef cymeradwyo gweddill y cofnodion (ac eithrio'r gwelliant arfaethedig), ac ymdrin â'r mater o gywirdeb o ran diwygio'r cofnod ar gyfer y cyfarfod nesaf ar wahân; byddai hyn yn caniatáu i'r cyfarfod hwn symud ymlaen i'r busnes nesaf gyda'r cafeat hwnnw.

**Ar sail yr uchod, penderfynwyd cymeradwyo gweddill cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd, 2021.**

## 3 GOSOD CYLLIDEB REFENIW 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini i'r Pwyllgor ei ystyried. Roedd yr adroddiad yn amlinellu cyd-destun y broses o osod Cyllideb 2022/23 ynghyd â'r prif faterion a'r cwestiynau ar gyfer y Pwyllgor Sgriwtini wrth werthuso cynigion cyllideb refeniw gychwynnol y Pwyllgor Gwaith. Roedd y dogfennau canlynol wedi'u hatodi i'r adroddiad -

**3.1 Adroddiad manwl y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 24 Ionawr, 2022 ar baratoi cyllideb ddigyfnewid 2022/23, y setliad dros dro ac ariannu'r bwlch yn y gyllideb.**

Wrth gyflwyno'r adroddiad cyfeiriodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid at yr amserlen dynn ar gyfer datblygu'r gyllideb gychwynnol ers cyhoeddi setliad dros dro Llywodraeth Cymru ar 23 Rhagfyr, 2021 ac at y gwaith sylweddol yr oedd hyn wedi'i olygu yn y cefndir. Mae'r setliad dros dro ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru yn dangos cynnydd o £456m yn lefel gyffredinol y cyllid ar gyfer Cymru sy'n cyfateb i gynnydd o 9.8% mewn termau arian parod sydd, o'i addasu ar gyfer grantiau a drosglwyddwyd, yn cyfateb i £437.4m sy'n gynnydd o 9.4%. Y cynnydd ar gyfer Ynys Môn o'i gymharu ag AEF 2021/22 wedi'i addasu yw £9.677m neu 9.23% ac fe'i croesewir yn fawr ar ôl blynyddoedd lawer o ostyngiad gwirioneddol mewn cyllid. Mae'n rhoi cyfle i'r Cyngor fynd i'r afael â rhai o'r risgiau a'r materion gwasanaeth sydd wedi codi yn ystod y cyfnod hwnnw ac i ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau rheng flaen hanfodol ar ôl cyfnod hir o lymder a thoriadau gorfodol. Er gwaetha'r ffaith bod hwn yn setliad mwy hael, mae nifer o risgiau cyllidebol o hyd y mae angen eu cadw mewn cof wrth symud i flwyddyn ariannol 2022/23 ac mae'r rhain wedi'u cofnodi yn yr adroddiad. Fodd bynnag, efallai mai'r cynnydd arfaethedig o 2% yn y Dreth

Gyngor yw'r cynnydd isaf yng Ngogledd Cymru ac mae'n debygol ei fod ymhlith y cynnydd isaf ledled Cymru.

Aeth Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ati i arwain y Pwyllgor drwy'r cynigion yn fanylach ac i dynnu sylw at y materion canlynol a'u goblygiadau ar gyfer cyllideb 2022/23 -

- Y newidiadau mawr rhwng cyllideb derfynol 2021/22 a chyllideb gychwynnol 2022/23 y gwnaed darpariaeth ar eu cyfer yng nghyllideb refeniw ddrafft 2022/23. Mae'r rhain yn cynnwys chwyddiant cyflogau (staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu) a phwysau staffio eraill a chwyddiant heblaw am gyflogau. Ar hyn o bryd, nid yw'r dyfarniad cyflog staff nad yw'n addysgu sy'n weithredol o fis Ebrill, 2021 wedi'i gytuno eto gan greu ansicrwydd ychwanegol ynghylch cywirdeb y gyllideb gyflogau ac er bod y gyllideb cyflogau athrawon sy'n cael ei phennu ym mis Medi bob blwyddyn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd am ran o 2022/23, mae ansicrwydd sylweddol ynghylch y dyfarniad cyflog o fis Medi ymlaen, 2022 ymlaen. Mae cynnydd o 1.25% yng nghyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr yn cynyddu costau'r Cyngor tua £500k. Gan ystyried yr holl agweddau hyn, amcangyfrifir y bydd y gyllideb cyflogau gyffredinol yn cynyddu £4.053m yn 2022/23.
- Mae costau nad ydynt yn ymwneud â thâl y Cyngor yn cynnwys nifer o wahanol gontractau a dulliau caffael y mae chwyddiant yn effeithio ar bob un ohonynt mewn gwahanol ffyrdd fel y nodir yn adran 4.3 o'r adroddiad. Wrth lunio'r gyllideb ddigyfnewid, mae lefel y chwyddiant fel y'i pennwyd gan gontract penodol wedi'i chynnwys. Lle nad oes cytundeb ffurfiol yn bodoli sy'n manylu ar sut y penderfynir ar chwyddiant, mae lefel gyffredinol o 2% wedi'i chaniatáu gyda chynnydd o 3% yn y cyllidebau ynni ac ar gyfer contractau'r Gwasanaeth Cymdeithasol, lle mae costau'n cael eu gyrru gan gynnydd mewn costau staffio, neilltuwyd 5% er y dylid nodi bod trafodaethau ynghylch ffioedd cartrefi gofal preswyl a nyrsio yn parhau. Mae cynnydd cyffredinol o 3% wedi'i gymhwyso unwaith eto i ffioedd a thaliadau anstatudol ar gyfer 2022/23. Y cynnydd net yn yr addasiadau ar gyfer chwyddiant heblaw am gyflogau ac incwm anstatudol yw £2.479m.
- Nifer y disgyblion – ar gyfer 2022/23 mae nifer y disgyblion cynradd wedi parhau i ostwng gyda gostyngiad pellach o 126 o ddisgyblion tra bod nifer y disgyblion uwchradd wedi cynyddu 89 yn ogystal â nifer y disgyblion yng Nghanolfan Addysg y Bont lle mae cynnydd o 12 disgybl. Effaith net y newidiadau hyn yw cynnydd cyffredinol o £295,000 yng nghyllideb ddatganoledig ysgolion.
- Ardollau a godir ar y Cyngor gan gyrff eraill. Y brif ardoll a godir yw ardoll Awdurdod Tân Gogledd Cymru sydd wedi penderfynu ar gynnydd o 6.3% yn yr ardoll ar gyfer y 6 awdurdod yng Ngogledd Cymru yn 2022/23 sy'n golygu cynnydd o £225,000 yn yr ardoll ar gyfer y Cyngor. Mae hyn yn golygu bod yr ardoll a ariennir gan y Cyngor yn £3.915m.
- Costau Cyllido Cyfalaf lle mai effaith net y tri newid a nodir ym mharagraff 4.6 o'r adroddiad yw lleihau'r gyllideb cyllido cyfalaf o £183k a lle mae'r adolygiad blynyddol o'r cyllidebau wrth gefn wedi dod i'r casgliad y gellir tynnu £122k o'r gyllideb o ganlyniad i'r addasiadau hyn i'r cyllidebau wrth gefn.
- Disgwyliadau Cyllido gan Lywodraeth Cymru – wrth benderfynu ar lefel y Cyllid Allanol Cyfun (AEF) i bob Cyngor, mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn glir bod yr AEF wedi darparu cyllid ar gyfer nifer o gostau y bydd y Cyngor yn eu hwynebu yn 2022/23 na ddarperir unrhyw arian ychwanegol ar eu cyfer. Bydd disgwyl i bob Cyngor ddarparu digon o arian yn y gyllideb flynyddol i dalu am y costau hyn. Dyma'r prif feysydd y mae angen darparu ar eu cyfer - talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i staff gofal (£200k yn ychwanegol at y cynnydd o 5% ar gyfer chwyddiant ar ffioedd gofal darparwyr allanol i dalu'r gost o dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i staff gofal); Atal Digartrefedd (darpariaeth o £350,000 gan dybio y bydd Ynys Môn yn derbyn cyfran o £180,000 o arian grant ychwanegol i gynnal lefel y gwasanaeth a ddarparwyd yn ystod y pandemig); Cronfa Caledi Covid (swm wrth gefn o £300k i dalu am gostau y

DRAFT

darparwyd ar eu cyfer yn flaenorol gan y Gronfa yn seiliedig ar y dybiaeth nad oes dirywiad sylweddol yn sefyllfa Covid); dyletswyddau newydd sy'n deillio o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 3021 (£78k)

- Mae'r setliad yn galluogi'r Cyngor i ddechrau mynd i'r afael â'r risgiau a'r materion gwasanaeth sydd wedi codi o ganlyniad i nifer o flynyddoedd o lymder sydd wedi lleihau capasiti a darpariaeth. Fel rhan o'r broses o osod y gyllideb gofynnwyd i Benaethiaid Gwasanaeth a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau benderfynu pa lefel o gyllid fyddai ei hangen i'w helpu i fynd i'r afael â materion a risgiau gwasanaeth. Yn seiliedig ar y ceisiadau cychwynnol, mae'r dyraniadau a nodir yn Nhabl 2 yr adroddiad, sef cyfanswm o £2.864m, wedi'u cynnwys yng nghynigion cychwynnol y gyllideb er y dylid nodi nad yw’r amser byr rhwng cyhoeddi setliad dros dro Llywodraeth Cymru a’r angen i gyhoeddi’r cynnig cychwynnol ar gyfer y gyllideb wedi caniatáu i’r Aelodau archwilio’r holl fuddsoddiadau arfaethedig yn llawn, a’u herio. Cyn mabwysiadu’r gyllideb derfynol ym mis Mawrth, bydd rhagor o waith yn cael ei wneud i archwilio’r cynigion manwl a gyflwynir gan Benaethiaid Gwasanaeth a Chyfarwyddwyr Gwasanaeth.
- Ar ôl ystyried setliad dros dro Llywodraeth Cymru a'r prif newidiadau i'r gyllideb, nodir y sefyllfa gyllido cyn unrhyw gynnydd yn y Dreth Gyngor yn Nhabl 3 yr adroddiad ac mae'n dangos cyllideb refeniw net arfaethedig gychwynnol o £158.365m ar gyfer 2022/23 yn erbyn cyfanswm y cyllid sydd ar gael o £157.506m. Er mwyn ariannu'r diffyg o £0.858m byddai angen cynnydd o 2% yn y Dreth Gyngor a fyddai'n codi tâl Band D i £1,367.46 sy'n gynnydd blynyddol o £26.82 a chynnydd wythnosol o £0.52.
- Risgiau'r Gyllideb – wrth osod y gyllideb mae nifer o risgiau ariannol y mae angen eu hasesu a allai arwain at gost ariannol i'r Cyngor. Mae’r cynnig ar gyfer y gyllideb yn caniatáu ar gyfer rhai o’r risgiau hyn, ond nid yw eraill wedi eu cynnwys yn y gyllideb a byddai balansau a chronfeydd wrth gefn y Cyngor yn cwrdd â nhw pe byddai’r risg yn cael ei gwireddu fel cost ariannol. Ar hyn o bryd, lefel balansau cyffredinol heb eu clustnodi y Cyngor yw £9.3m. Mae’r gyllideb gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2022/23 yn dyrannu £1.68m o’r balansau hyn fel cyllid cyfalaf, sydd yn gostwng y balans heb ei glustnodi i £7.6m. Rhagwelir tanwariant o tua £1m ar gyllideb refeniw 2021/22 a fyddai, pe bai'n cael ei wireddu, yn cael ei ychwanegu'n ôl at falans cyffredinol y Cyngor gan gynyddu'r cyfanswm i £8.6m. Fel rheol gyffredinol, mae’r Pwyllgor Gwaith wedi gosod ffigwr o 5% o’r gyllideb refeniw net fel isafswm ar gyfer y balans cyffredinol. Ar sail y risgiau ym mharagraff 6.5 o’r adroddiad nad ydynt wedi'u cynnwys neu sy’n cael sylw rhannol yn y gyllideb yn unig ac sy'n uwch nag mewn unrhyw flwyddyn arferol, credir ei bod yn ddoeth i'r Cyngor sicrhau balans cyffredinol sy'n uwch na 5% o'r gyllideb refeniw net.

Diolchodd y Pwyllgor i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 am yr adroddiad a'r cyflwyniad manwl ac am esbonio'r broses o ddatblygu'r gyllideb mewn ffordd glir a dealladwy. Wrth ystyried cynigion y gyllideb cododd y Pwyllgor y materion canlynol -

- O ran cytundebau fframwaith hirdymor lle mae pris blynyddol nwyddau/darpariaeth yn cael ei bennu gan y fframwaith ac sy'n berthnasol i brif gontractau ynni'r Cyngor gan roi rhywfaint o amddiffyniad i'r Cyngor rhag cynnydd mewn prisiau yn y tymor byr, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch hyd y cytundebau fframwaith hyn ac a fydd effaith sylweddol ar gostau ynni y Cyngor pan fydd y cytundebau’n dod i ben. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 fod y cyfan yn dibynnu ar ba mor hir y mae'n ei gymryd i'r cynnydd mewn prisiau ynni ostwng. Wrth bennu ei gost ynni ym mis Hydref, bydd y Cyngor wedi osgoi llawer o effaith y cynnydd ym mhris ynni pe bai'r pris wedi gostwng erbyn y mis Hydref canlynol; fodd bynnag, os yw'n parhau'n uchel ar y dyddiad adnewyddu bydd yn rhaid i'r Cyngor dalu'r gost bryd hynny ac

DRAFT

yn sgil ei bennu ar lefel uchel bydd mewn sefyllfa waeth os daw'r pris i lawr wedyn.

- O ran y rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â gorfod sefydlu Awdurdod iechyd Porthladd o'r dechrau, sy'n cael ei chydnabod yn risg sylweddol, roedd y Pwyllgor am wybod a oes unrhyw beth yn y setliad dros dro sy'n cydnabod bod Ynys Môn yn un o ddim ond dau awdurdod yng Nghymru sy'n ysgwyddo'r dyletswyddau hyn neu a oes disgwyl i'r Awdurdod ysgwyddo'r baich yn llawn o gofio'r gostyngiad a gofnodwyd mewn traffig drwy Gaergybi Porthladd a'r ansicrwydd o ganlyniad ynghylch lefel yr incwm y gellir ei disgwyl. Gofynnodd y Pwyllgor ymhellach am eglurder ynghylch y costau a amcangyfrifir sy'n gysylltiedig â sefydlu a rhedeg Awdurdod Iechyd Porthladd. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr nad oes unrhyw arian ychwanegol wedi'i ddyrannu at y diben hwn ar gyfer 2022/23 na thu hwnt. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y model codi tâl lle mae'r incwm a gynhyrchir yn talu am yr holl gostau yn gynaliadwy yn y tymor hir. Mae'r Awdurdod o'r farn nad yw hynny'n debygol o fod yn wir yn y tymor byr ac felly mae'n gofyn am gronfa ariannol y gall yr Awdurdod ei defnyddio i dalu unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â hyn a'i helpu i falansio'r llyfrau. Mae trafodaethau gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau a byddant yn cael eu huwchgyfeirio i lefel Arweinydd a Gweinidogion gan arwain gobeithio at gytundeb a fydd yn diogelu'r Awdurdod yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach. Mae'r Awdurdod hefyd yn cysylltu'n agos â Chyngor Sir Penfro sydd mewn sefyllfa debyg er bod ei weithrediadau porthladd o ran natur a maint ei draffig ar raddfa lai na rhai Caergybi sy'n golygu bod y risg ariannol i'r Cyngor yn llai o'i gymharu ag ynys Môn. Nid oes gwybodaeth am gostau ar gael ar hyn o bryd gan fod angen cadarnhau nifer a natur yr archwiliadau sydd i'w cynnal sy'n ffactorau a fydd yn dylanwadu ar gostau. Ers amser maith, mae'r Awdurdod wedi datgan ei safbwynt yn glir ei bod yn annheg disgwyl iddo dalu cost yr hyn sydd yn y pen draw yn rhan o seilwaith a chyfrifoldeb cenedlaethol. Ar nodyn mwy cadarnhaol, mae Llywodraeth San Steffan wedi cytuno i ddarparu cyllid ychwanegol i Lywodraeth Cymru ar gyfer seilwaith ar ffurf cyfleusterau a'r gobaith yw y bydd Llywodraeth San Steffan hefyd yn darparu cymorth refeniw ychwanegol i dalu costau gweithredol; os na cheir cymorth ariannol, mae'r Awdurdod o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru greu llinell gymorth ychwanegol i dalu am unrhyw gostau na ellir eu talu o'r incwm a gynhyrchir.

  Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams wrth y Pwyllgor ei fod ef a'r Cynghorydd Llinos Medi yn rhinwedd eu swydd fel Aelod Portffolio Cyllid ac Arweinydd wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i bwysleisio'r risg i'r Awdurdod mewn perthynas â'i gyfrifoldebau newydd am awdurdod iechyd porthladd ond bod yr ymateb wedi bod yn siomedig ac yn cadarnhau meddylfryd Llywodraeth Cymru bod y model codi tâl am wasanaethau yn ddigonol i dalu'r costau.

- O ran y Premiwm ar Ail Gartrefi, a yw'n debygol y bydd yr amcangyfrif o gyllid ychwanegol - £451k - y disgwylir y bydd y cynnydd yn y premiwm ei gynhyrchu, yn cael ei effeithio gan nifer y cartrefi sy'n trosglwyddo i ardrethi busnes na fydd yn gorfod talu'r premiwm hwnnw. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod 100 eiddo wedi trosglwyddo o dalu Treth y Cyngor a'r premiwm yn sgil bod ar y gofrestr ardrethi annomestig yn ystod y flwyddyn ond nad yw nifer gyffredinol yr eiddo sy'n talu'r premiwm wedi gostwng ar sail nifer cyfatebol wrth i eiddo a brynwyd ac a ddefnyddiwyd o'r newydd fel ail gartrefi ddod yn rhan o'r system a dod yn atebol i dalu'r premiwm.
- O ran buddsoddi mewn TG a ellir cyfiawnhau'r buddsoddiad o ystyried oed systemau'r Cyngor ac a oes angen felly adolygu addasrwydd y seilwaith TG sy'n cefnogi gwasanaethau TG y Cyngor yn gyffredinol cyn buddsoddi ymhellach.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod gofynion TG yn datblygu'n gyson a bod angen buddsoddi er mwyn dal i fyny â datblygiadau i sicrhau bod systemau'n parhau'n effeithiol. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn system ddemocrataidd newydd i hwyluso cyfarfodydd hybrid a bydd yn adolygu systemau eraill i sicrhau eu bod yn addas i'r pwrpas fel y bo'n briodol.

**Ar ôl ystyried yr wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig ac ar lafar yn ystod y cyfarfod, roedd y Pwyllgor yn croesawu'r cyfle i fuddsoddi mewn gwasanaethau yn sgil y setliad ariannol ond yn cydnabod ar yr un pryd bod risgiau ac ansicrwydd o hyd wrth symud ymlaen ac felly bod angen sicrhau lefel ddarbodus o adnoddau wrth gefn. Penderfynwyd cefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad fel ymateb ffurfiol gan y Pwyllgor Sgriwtini i'r gyllideb refeniw ddrafft arfaethedig ar gyfer 2022/23 ac argymell y canlynol i'r Pwyllgor Gwaith–**

- **Cyllideb arfaethedig gychwynnol ar gyfer 2022/23 of £158.365m**
- **Cynnydd arfaethedig o 2% yn Nhreth y Cyngor a fydd yn golygu bod y gost i eiddo Band D yn £1,367.46**
- **Y dylai'r Pwyllgor Gwaith ofyn am farn y cyhoedd ar y gyllideb arfaethedig gychwynnol a'r cynnydd yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2022/23**

*(Bu i'r Cynghorwyr Aled M. Jones a Bryan Owen ymatal rhag pleidleisio)*

**4 GOSOD CYLLIDEB GYFALAF 2022/23**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini i'r Pwyllgor ei ystyried. Roedd yr adroddiad yn amlinellu cyd-destun y broses o osod Cyllideb Gyfalaf 2022/23 ynghyd â'r prif faterion a'r cwestiynau ar gyfer y Pwyllgor Sgriwtini wrth werthuso cynigion cychwynnol cyllideb gyfalaf y Pwyllgor Gwaith. Roedd y dogfennau canlynol wedi'u hatodi i'r adroddiad –

**4.1 Adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 24 Ionawr, 2022 ar y cynigion cychwynnol ar gyfer cyllideb gyfalaf 2022/23 yn seiliedig ar egwyddorion y strategaeth gyfalaf, gan gynnwys sut y bydd y rhaglen gyfalaf yn cael ei chyllido ac unrhyw effaith ddilynol ar y balans cyffredinol a'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.**

Wrth gyflwyno'r adroddiad a'r rhaglen gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2022/23 o £35.961m dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, y cynigir defnyddio swm o £1.681m o Falansau Cyffredinol i wneud iawn am ddiffyg mewn cyllid cyfalaf yn 2022/23 gan fod y Grant Cyfalaf Cyffredinol gan Lywodraeth Cymru wedi gostwng £677k ar gyfer y flwyddyn nesaf o'i gymharu â'r cyllid a gafwyd yn 2021/22.

Aeth Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ati i arwain y Pwyllgor yn fanylach drwy wahanol elfennau'r Rhaglen Gyfalaf gan gyfeirio at y canlynol –

- Egwyddorion y strategaeth gyfalaf sy'n helpu i bennu rhaglen gyfalaf y Cyngor ac a ddefnyddir yn sail i asesu ceisiadau newydd.
- Yr arian a ragwelir sydd ar gael i ariannu'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2022/23 yn unol â Thabl 1 yr adroddiad (£35.961m i gynnwys £1.681m o Falansau Cyffredinol) sy'n tynnu sylw at y ffaith na fu fawr o gynnydd yn y dyraniad cyfalaf cyffredinol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ers nifer o flynyddoedd a fydd, os bydd yn parhau ar ei lefel bresennol, yn cyfyngu ar yr hyn y gellir ei wneud i adnewyddu ac amnewid asedau presennol. Cynigir y dylid dyrannu'r symiau a nodir yn adran 4.2 o'r adroddiad ar gyfer y gwaith hwn yn 2022/23.
- Bydd cynlluniau gwerth £1.322m na chânt eu cwblhau yn 2021/22 oherwydd nifer o resymau yn cael eu cario drosodd i 2022/23.

    - Prosiectau cyfalaf untro a argymhellwyd i’w hariannu yn 2022/23 yn unol â Thabl 3 yr adroddiad (£1.432m)
    - Prosiectau i'w hariannu o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, arian wrth gefn gan wasanaethau a benthyca heb gymorth yn unol â Thabl 4 yr adroddiad (£783k)
- Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y mae'r Cyngor wedi ymrwymo iddi oherwydd y swm sylweddol o gyllid gan Lywodraeth Cymru y bydd y cynlluniau'n ei ddenu a'r angen i foderneiddio'r ystâd ysgolion bresennol. Mae Rhaglen Gyfalaf 2022/23 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cwblhau'r prosiect Band A terfynol (Ysgol Corn Hir newydd) a chychwyn prosiectau Band B (estyniad i Ysgol Y Graig) am gost o £8.598m (net o unrhyw dderbyniadau cyfalaf) yn 2022/23, y bydd £2.169m ohono yn cynnwys grant Llywodraeth Cymru, £1.168m o fenthyca â chymorth a £5.61m o fenthyca heb gymorth.
- Y Cyfrif Refeniw Tai sydd wedi'i neilltuo i ariannu costau sy'n gysylltiedig â stoc tai'r Cyngor. Yn y rhaglen arfaethedig ar gyfer 2022/23 bydd £9.55m yn cael ei fuddsoddi mewn stoc sy'n bodoli eisoes a bydd £9.229m arall yn cael ei wario ar ddatblygu eiddo newydd ac i brynu hen eiddo hawl i brynu. Bydd y rhaglen yn cael ei hariannu o Gronfa'r CRT (£3.080m); y gwarged refeniw a gynhyrchwyd yn 2022/23 (£7.019m); Grantiau Llywodraeth Cymru (£2.685m) a benthyca newydd heb gymorth (£6m)

Diolchodd y Pwyllgor i'r Aelod Portffolio Cyllid a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) /Swyddog Adran 151 am yr adroddiad a'r cyflwyniad; ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y Pwyllgor ar y rhaglen gyfalaf arfaethedig.

**Ar ôl ystyried yr wybodaeth a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ac ar lafar yn ystod y cyfarfod penderfynwyd argymell y Gyllideb Gyfalaf ddrafft arfaethedig ar gyfer 2022/23 i'r Pwyllgor Gwaith fel y'i cyflwynwyd.**

**5 PANEL SGRIWTINI CYLLID – ADRODDIAD CYNNYDD**

Rhoddodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd Panel Sgriwtini Cyllid, ddiweddariad i’r Pwyllgor yn dilyn trafodaethau’r Panel yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr, 2022 a thynnodd sylw at y pwyntiau canlynol –

- Derbyniodd y Panel gyflwyniad llafar manwl yn crynhoi'r gyllideb refeniw arfaethedig ddrafft ar gyfer 2022/23 yn seiliedig ar yr adroddiad i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 24 Ionawr, 2022 (fel o dan eitem 3 uchod). Nododd y Panel y sefyllfa ariannu o ran y setliad a dderbyniwyd, prif newidiadau ac addasiadau'r gyllideb o 2021/22, pwysau cyllidebol gwasanaethau, a'r risgiau a'r heriau ariannol allweddol a allai effeithio ar gynlluniau ariannol y Cyngor ar gyfer 2022/23. Nododd y Panel hefyd y bwlch cyllido y cynigiwyd iddo gael ei bontio gan gynnydd o 2% yn y Dreth Gyngor. Ar ôl ystyried y rhain i gyd a'r ymatebion i faterion a godwyd yn y cyfarfod, penderfynodd y Panel gyflwyno'r gyllideb refeniw ddrafft gychwynnol o £158.365m ar gyfer 2022/23 i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol; y cynnydd arfaethedig o 2% yn y Dreth Gyngor ac y dylai'r Pwyllgor Gwaith geisio barn y cyhoedd ar gynnig cychwynnol y gyllideb a'r cynnydd yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2022/23.
- Derbyniodd y Panel hefyd gyflwyniad llafar manwl yn crynhoi'r gyllideb gyfalaf arfaethedig ddrafft ar gyfer 2022/23 yn seiliedig ar yr adroddiad sydd i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 24 Ionawr, 2022 (fel o dan eitem 4 uchod). Nododd y Panel y cynlluniau sy'n ffurfio'r rhaglen gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2022/23 gan gynnwys adnewyddu a/neu amnewid asedau presennol yn barhaus yn unol ag egwyddorion y Strategaeth Gyfalaf a phrosiectau untro ychwanegol yn ogystal â'r adnoddau sydd ar gael i ariannu'r rhaglen gyfalaf gan nodi. Nodwyd, oherwydd gostyngiad o £677,000 yn y Grant Cyfalaf Cyffredinol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2022/33 cynigiwyd y dylid defnyddio £1.681m o'r Gronfa Gyffredinol i ariannu diffyg yn y gyllideb gyfalaf. Nodwyd ymhellach y bydd Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn parhau yn 2022/23 ac yn cael ei chefnogi'n rhannol gan gyllid Grant Llywodraeth Cymru a bod rhaglen

DRAFT

gyfalaf CRT yn cynnwys gwaith sy'n dod i gyfanswm o £18.74m. Ar ôl ystyried y rhain i gyd a'r eglurhad pellach a roddwyd ar faterion a godwyd yn y cyfarfod, penderfynodd y Panel gyflwyno'r Gyllideb Gyfalaf arfaethedig ddrafft ar gyfer 2022/23 i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ei hystyried fel y'i cyflwynwyd.

**Nododd y Pwyllgor argymhellion y Panel a diolch i'r Cynghorydd Dafydd Roberts am yr adborth.**

**6 STRATEGAETH DAI 2022-27**

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Tai a oedd yn cynnwys y Strategaeth Dai ar gyfer 2022 i 2027 i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Cyflwynodd y Cynghorydd Alun Mummery, Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau yr adroddiad a'r Strategaeth a thynnodd sylw at ei nod strategol cyffredinol, i sicrhau bod gan bobl Ynys Môn le y gallent ei alw'n gartref, wedi eu grymuso a'u cefnogi i gyfrannu tuag at eu cymuned leol. Diolchodd i staff y Gwasanaeth Tai am y gwaith a oedd wedi'i wneud i ddrafftio'r strategaeth ac wrth ei chanmol dywedodd wrth y Pwyllgor ei bod yn ddogfen gadarnhaol.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth (Strategaeth Dai, Comisiynu a Pholisi) fod y Strategaeth yn berthnasol i lawer o bobl ar Ynys Môn gan y bydd yn darparu tai fforddiadwy a fydd yn cynnwys llawer o wahanol ddeiliadaethau, llety a chymorth i grwpiau cleientiaid bregus a phenodol, pobl ifanc sy'n dymuno prynu eu cartref eu hunain, pobl y mae angen addasiadau arnynt oherwydd salwch a phobl mewn argyfwng sydd angen tai ar unwaith. Cyflawnir hyn drwy ganolbwyntio ar chwe thema allweddol a fydd yn darparu sail ar gyfer nodi beth yw'r problemau a sut y mae'r Strategaeth yn bwriadu mynd i'r afael â'r rhain yn y tymor byr, mewn un i ddwy flynedd a thymor canolig i hir yn ystod y Strategaeth. Mae'r Strategaeth wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r canlyniadau wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 ac fe'i haddaswyd yn unol â hynny.

Ymatebodd y Swyddog i bwyntiau a chwestiynau a godwyd gan y Pwyllgor fel a ganlyn –

- O ran unrhyw faterion newydd a ddaeth i'r amlwg o'r ymgynghoriad, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y Gwasanaeth wedi ceisio ymgynghori mor eang â phosibl ar y strategaeth a bod hyn wedi golygu gwneud nifer o gyflwyniadau. Yn ystod y flwyddyn ers i'r gwaith ddechrau ar y strategaeth ddrafft, mae pwysau ail gartrefi a'r farchnad eiddo wedi dod i'r amlwg ac adlewyrchir y pryderon hyn yn yr ymatebion i'r strategaeth gan aelodau'r cyhoedd. Efallai na fyddai wedi bod mor amlwg pe bai'r ymgynghoriad wedi'i gynnal ddwy flynedd yn ôl yn y cyfnod cyn Covid.
- A oedd y Gwasanaeth yn siomedig â'r ffaith mai dim ond 25 o ymatebion a ddenodd yr holiadur ar-lein sydd wedyn yn tueddu i ystumio'r canrannau, er ei fod wedi cael ei hyrwyddo'n rheolaidd drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor drwy gydol y cyfnod ymgynghori chwe wythnos. Roedd y Pwyllgor am wybod beth y gellid ei wneud i wella'r ymateb i'r ymgynghoriad i'w wneud yn fwy ystyrlon. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y gwnaed ymdrechion i gyrraedd cynifer o bobl â phosibl drwy gyfarfodydd Zoom ac roedd y cwestiynau ar yr holiadur yn glir, yn fyr ac yn hawdd eu deall. Er bod yr ymateb yn gyfyngedig yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cynnwys trawstoriad o bobl/grwpiau ac roedd yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd.
- O ran sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ail Gartrefi i geisio atebion a fydd yn lliniaru'r effaith y mae ail gartrefi'n ei chael ar gymunedau a thrigolion, mae gallu'r grŵp i gyflawni unrhyw beth yn ymarferol yn dibynnu ar Lywodraeth Cymru o gofio mai LlC sy'n bennaf gyfrifol am y pŵer i fynd i'r afael â mater ail gartrefi. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu'n fewnol ar gais y Pwyllgor Gwaith a'i fod wedi bod yn ymateb i nifer o ymgynghoriadau gan Lywodraeth Cymru ar y mater. Er y rhoddir sylw i rai o'r materion sy'n gysylltiedig ag ail gartrefi drwy bolisïau cenedlaethol, mae lle i ddylanwadu ar y polisïau hynny yn

ogystal â datblygu polisïau lleol i ymateb i rai o'r heriau a wynebir ym maes tai e.e. y Polisi Rhannu Ecwiti sy'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ei gymeradwyo yn y cyfarfod y prynhawn yma. Cadarnhawyd bod y Grŵp wedi ethol cynrychiolwyr o blith aelodau sy'n cynnwys Aelodau Portffolio Tai, Cyllid a Chynllunio a gan ei fod wedi cael ei sefydlu i lunio ymateb i ymgynghoriad sy'n dod i ben ar 24 Ionawr, 2022 (gydag ymgynghoriadau pellach yn cau ym mis Chwefror), ni ragwelwyd y byddai'n adrodd yn ehangach.

- P’un ai a oes gan y Gwasanaeth fesurau yn eu lle i gynorthwyo tenantiaid mewn tlodi tanwydd o ystyried bod cost gynyddol ynni yn debygol o olygu y bydd nifer cynyddol o bobl yn y categori hwnnw. Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod cyngor, arweiniad a chymorth yn cael ei ddarparu gan Swyddogion Cynhwysiant Ariannol y Gwasanaeth ac mae hefyd ar gael drwy'r Ganolfan O'Toole yng Nghaergybi; mae'r adnoddau hyn yn ceisio helpu tenantiaid i reoli eu cyllid fel eu bod yn gallu lleihau eu costau ynni a/neu gynyddu eu hincwm er mwyn cwrdd â’u cosau ynni. Mae elfen o'r gwasanaeth hwn hefyd ar gael i bobl nad ydynt yn denantiaid a thrigolion Ynys Môn yn gyffredinol.

**Ar ôl ystyried y dogfennau a gyflwynwyd a’r ymateb i’r cwestiynau a ofynnwyd, penderfynwyd argymell cymeradwyo Strategaeth Dai 2022-27 i’r Pwyllgor Gwaith.**

## 7 BLAEN RAGLEN WAITH 2021/22

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini oedd yn cynnwys diweddariad o Flaen Raglen Waith gan y Pwyllgor hyd at fis Mawrth, 2022 i’w hystyried.

**Penderfynwyd –**

- **Cytuno ar y fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2021/22**
- **Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.**

**Y Cynghorydd A. M. Jones**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **28 Chwefror, 2022** |
| **Pwnc:** | **Gosod Cyllideb 2022/23 (Refeniw)** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Ystyried y cynigion cyllidebol drafft terfynol ar gyfer 2022/23** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Aled Morris Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cyng Robin Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adain 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Perthnasol i'r Holl Aelodau Etholedig** |

| 1 – Argymhelliad/Argymhellion |
|---|
| Cytuno ar ymateb ffurfiol i'r Pwyllgor Gwaith ar gyllideb refeniw ddrafft y Cyngor ar gyfer 2022/23 (gan ddefnyddio'r cwestiynau sgriwtini allweddol yn adran 4 yr adroddiad). |

| 2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill |
|---|
| Cyswllt uniongyrchol â Chynllun y Cyngor a blaenoriaethau trawsnewid. Bydd ystyriaeth y Pwyllgor o'r cynigion cyllidebol cychwynnol ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys sut mae'r cynigion yn galluogi'r Cyngor newydd i gyflawni ar Gynllun Trosiannol y Cyngor yn ogystal ag unrhyw risgiau penodol. |

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:
- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)

| |
|---|
| • y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg<br>**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]** |
| **4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |
| Cynigir y cwestiynau allweddol canlynol fel sail ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor o gynigion cyllidebol 2022/23:<br><br>i. Gan ddefnyddio'r wybodaeth ar gael i'r Pwyllgor ynghylch gwasanaethau'r Cyngor a'r setliad cyllidol drafft ar gyfer 2022/23, ydy'r cynigion yn ymateb yn ddigonol i'r pwysau a'r heriau yn wynebu Gwasanaethau?<br>ii. A yw'r Pwyllgor yn ystyried y bydd unrhyw gynigion arbedion yn cael effaith andwyol ar ddinasyddion Ynys Môn neu unrhyw grwpiau sydd wedi'u gwarchod? A yw'r Pwyllgor yn ystyried y dylid cymryd unrhyw gamau pellach er mwyn lliniaru effaith y cynigion ar ddinasyddion Ynys Môn neu grwpiau sydd wedi'u diogelu?<br>iii. Ydy'r Pwyllgor yn cefnogi codiad o 2% yn y Dreth Gyngor er mwyn gwireddu cynigion y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2022/23? Os ddim, a ddylai'r cynnydd fod yn uwch neu'n îs na'r hyn a argymhellir gan y Pwyllgor Gwaith? |

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

## 1. CYD-DESTUN

1.1 Mae'r gwaith o graffu ar y broses gosod cyllideb wedi datblygu ac aeddfedu dros y blynyddoedd diwethaf, gan osod y seiliau ar gyfer proses well a mwy systematig sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac arfer dda. Mewn gwirionedd, mae'r broses yn caniatáu ar gyfer dull mwy systematig o graffu ariannol, fel bloc adeiladu hanfodol ar gyfer rheolaeth a llywodraethiant ariannol cadarn.

1.2 Bydd Aelodau'n ymwybodol bod cyllid yn hanfodol i'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu a bod goblygiadau pellgyrhaeddol i'r materion ariannol sy'n ein hwynebu fel awdurdod lleol – o ran y gwasanaethau sy'n cael eu derbyn gan ein dinasyddion a hefyd lefel y Dreth Gyngor neu'r ffioedd a'r taliadau a godir[1]. Yn anochel, bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni ofyn cwestiynau heriol ynghylch pa wasanaethau i'w cynnig i'r dyfodol a pha wasanaethau i fuddsoddi ynghyd a hefyd i ba raddau y mae'r dulliau cyfredol o ddarparu gwasanaethau yn parhau i fod yn briodol. Ystyriaeth arall hefyd yw'r ffordd orau o reoli disgwyliadau pobl leol wrth wneud y newidiadau angenrheidiol. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae angen rhoi sicrwydd i'r Aelodau felly bod y Cyngor yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau, yn enwedig adnoddau cyllidol.

1.3 Wrth ystyried eu hymateb i'r cynigion cyllidebol drafft terfynol, bydd angen i aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyried y cynigion o ran sefyllfa ariannol tymor hwy y Cyngor (ein Cynllun Ariannol Tymor Canol) ac amcanion a blaenoriaethau'r Cyngor fel y nodir nhw yng Nghynllun Trosiannol y Cyngor.

### 2. GOSOD CYLLIDEB Y CYNGOR AR GYFER 2022/23

2.1 Ynghlwm mae copi o adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adain 151 ar y cynigion drafft terfynol ar gyfer cyllideb 2022/23 **(ATODIAD 1)** a fydd gerbron cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 3 Mawrth, 2022.

[1] Disgwyliadau Uwch – Craffu ariannol mewn cyfnod heriol. Canllaw i awdurdodau lleol Cymru (Canolfan Craffu Cyhoeddus, Mehefin 2014)

Mae'r papur yn cyflwyno datganiad ar y sefyllfa mewn perthynas â'r materion a ganlyn:

- Cynigion cyllidebol cychwynnol y Pwyllgor Gwaith
- Y setliad cychwynnol ar gyfer Llywodraeth Leol (Llywodraeth Cymru)
- Y sefyllfa gychwynnol ar gyfer cyllideb 2022/23
- Y pwysau cyllidebol y mae'n rhaid caniatau ar eu cyfer yng nghyllideb 2022/23
- Cynigion ar gyfer buddsoddi i fynd i'r afael â materion a risgiau gwasanaeth
- Y risgiau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn ystod 2022/23
- Lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor sydd ei angen i osod cyllideb gytbwys
- Effaith ar y Cynllun Ariannol Tymor Canol.

Disgwylir manylion y Setliad Terfynol ar gyfer cyllideb 2022/23 gan Lywodraeth Cymru ar 2 Mawrth, 2022.

**3. SGRIWTINI ARIANNOL – GOSOD CYLLIDEB 2022/23**

3.1 Mae craffu ariannol yn llawer mwy nag ychwanegu gwerth at benderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor Gwaith. Mae'n ymwneud â sicrhau craffu effeithiol o ran cynllunio, cyflawni a dilyn i fyny'r penderfyniadau allweddol hynny sy'n cael effaith ar drethdalwyr a chymunedau lleol. Dylai sgriwtini felly:

- Ddarparu her effeithiol
- Dal y rheini sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif; a
- Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i ddatblygu cyllideb gadarn ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**4. PANEL SGRIWTINI CYLLID**

4.1 Mae Panel Sgriwtini Cyllid wedi'i sefydlu i sicrhau'r canlyniadau allweddol canlynol:

- Datblygu model o weithio ar faterion cyllid sy'n canolbwyntio ar ffurfio grwpiau llai fel y gall Aelodau chwarae mwy o ran, datblygu lefel o arbenigedd yn y pwnc ac er mwyn annog presenoldeb da a gwaith tîm.
- Fforwm i ddatblygu grŵp o aelodau sydd â'r arbenigedd a'r berchnogaeth i arwain trafodaethau ariannol yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

4.2 Rhoddodd y Panel ystyriaeth i fanylion diweddaraf y cynigion cyllidebol yn ei gyfarfod diwethaf (14 Chwefror, 2022). Bydd crynodeb o drafodaethau'r Panel yn cael ei gyflwyno ar lafar yn y cyfarfod gan y Cyng Dafydd Roberts, Cadeirydd y Panel.

**5. Y BROSES AR GYFER YMGYNGHORI Â'R CYHOEDD**

5.1 Am y tro cyntaf ers sawl blwyddyn, mae'n bosibl i'r Cyngor ystyried buddsoddi i fynd i'r afael â materion a risgiau gwasanaeth. Mae lefel y buddsoddiad yn ddibynnol ar lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor.

5.2 Bu i'r ymgynghoriad nodi sefyllfa ariannol y Cyngor, y risgiau ariannol a'r materion y mae'r Cyngor yn eu hwynebu. Roedd hefyd yn ceisio barn trethdalwyr Ynys Môn ar gynnig y Pwyllgor Gwaith i fynd i'r afael â'r risgiau hynny drwy ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau a ariennir yn rhannol gan gynnydd o 2% yn y Dreth Gyngor.

5.3 Bu i'r cyfnod ymgynghori barhau am gyfnod o bythefnos rhwng 26 Ionawr a 9 Chwefror, 2022.

5.4 **CRYNODEB O'R YMGYNGHORIAD**

Derbyniwyd 115 o ymatebion gyda bron i 30% o ymatebwyr yn y grŵp oedran 55-64. Atebodd ymatebwyr o wahanol leoliadau ar draws Ynys Môn, o Gaergybi i Benllech, Cemaes i Borthaethwy, Amlwch i Falltraeth, Rhosneigr, Llanfechell i enwi dim ond rhai.

Roedd 95% o'r ymatebion a dderbyniwyd naill ai gan unigolion yn gweithredu ar eu rhan eu hunain neu unigolion yn gweithredu ar ran eu teuluoedd.

O'r ymatebion hynny roedd 31% yn cytuno y dylid cael cynnydd o 2% yn y Dreth Gyngor i ariannu gweithgareddau sy'n mynd i'r afael â'r pwysau a nodwyd fel rhan o'r ymgynghoriad. Nid oedd 69% o'r ymatebion a dderbyniwyd yn cytuno â chynnydd o'r fath.

O'r rhai nad oedd yn cytuno â chynnydd o'r fath pan ofynnwyd iddynt beth ddylai'r Cyngor flaenoriaethu –
• Cynigiodd 34% y dylai'r Cyngor Sir flaenoriaethu buddsoddiad mewn gwasanaethau Plant, ac yna
• Roedd 32% yn credu y dylai'r Cyngor flaenoriaethu buddsoddiad yn ein gwasanaeth priffyrdd, gwastraff ac eiddo i fynd i'r afael â heriau yn ymwneud â datgarboneiddio a gwywo'r lludw a'r galw am lanweithdra ychwanegol yn asedau'r Cyngor o ganlyniad i'r pandemig.

Credai 21 ymatebydd pellach na ddylid gwireddu buddsoddiad o'r fath ac y dylai'r Cyngor Sir barhau fel y mae heb fod angen buddsoddiad pellach.

**6. MATERION SGRIWTINI ALLWEDDOL**

6.1 Mae proses gosod cyllideb 2022/23 yn rhoi cyfle i Aelodau Etholedig ystyried a herio goblygiadau'r gyllideb ddrafft ac unrhyw gynigion buddsoddi. Derbyniwyd mewnbwn hefyd trwy'r Panel Sgriwtini Cyllid sydd wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'r cynigion cyllidebol drafft. Yn y rhan hon o'r broses, gofynnir yn awr i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gytuno ar ymateb ffurfiol i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith[2] ar gynigion drafft y Cyngor ar gyfer cyllideb refeniw 2022/23 (gan ddefnyddio'r cwestiynau sgriwtini allweddol ym mharagraff 4 uchod).

6.2 Yng ngoleuni'r broses gosod cyllideb ar gyfer 2022/23 hyd yma, cynigir y dylai'r Pwyllgor:

i. Ystyried y cynigion cyllidebol drafft terfynol a chynnig sylwadau gall y Pwyllgor Gwaith eu hystyried cyn cytuno ar ei gynigion cyllideb arfaethedig ar 3 Mawrth, 2022
ii. Archwilio effeithiau tebygol y cynigion cychwynnol ar ddinasyddion
iii. Dod i farn am lefel y Dreth Gyngor ar gyfer 2022/23.

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |

[2] Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 3 Mawrth, 2022

| |
|---|
| Adnabod yr angen am unrhyw asesiadau effaith nes ymlaen yn y broses o sefydlu'r gyllideb ar gyfer 2022/23. |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Adnabod yr angen am unrhyw asesiadau effaith nes ymlaen yn y broses o sefydlu'r gyllideb ar gyfer 2022/23 |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Adnabod yr angen am unrhyw asesiadau effaith nes ymlaen yn y broses o sefydlu'r gyllideb ar gyfer 2022/23. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Mae'r adroddiad hwn yn trafod y broses ar gyfer gosod cyllideb y Cyngor ar gyfer 2022/22, sy'n cynnwys ystyriaeth o'r cynigion drafft terfynol ar gyfer y cyllidebau refeniw. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| **ATODIAD 1** Adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) ar y cyllidebau refeniw arfaethedig ar gyfer 2022/23 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **3 MAWRTH 2022** |
| **PWNC:** | **Y STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOL A CHYLLIDEB 2022/23** |
| **AELOD (AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH / CYFARWYDDWR:** | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN:<br>E-BOST: | **MARC JONES**<br>01248 752601<br>rmjfi@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a'r Rheswm/Rhesymau**

**1. Y STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOL A CHYLLIDEB REFENIW 2022/23**

**1.1 Pwrpas**

Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith gytuno nifer o faterion allweddol mewn perthynas â chyllideb 2022/23. Bydd hynny wedyn yn golygu y gellir cyflwyno'r argymhellion terfynol i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2022. Y materion y mae gofyn eu cytuno yw:-

- Cyllideb Refeniw'r Cyngor a'r Dreth Gyngor sy'n deillio ohoni ar gyfer 2022/23;
- Strategaeth Ariannol Tymor Canol y Cyngor wedi iddi gael ei diweddaru;
- Y defnydd a wneir o unrhyw gyllid unwaith ac am byth i gefnogi'r gyllideb.

**1.2 Crynodeb**

Mae'r papur hwn yn dangos y cynigion manwl ar gyfer cyllideb refeniw 2022/23 i'w hadolygu a'u cytuno'n derfynol, ynghyd â'u heffaith ar gyllideb refeniw Cyngor Sir Ynys Môn. Mae'r rhain yn faterion i'r Cyngor gytuno arnynt, a gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith wneud argymhellion terfynol i'r Cyngor.

Mae'r papur hefyd yn diweddaru'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol, sy'n darparu cyd-destun ar gyfer gwaith ar gyllidebau'r Cyngor yn y dyfodol. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd adroddiad pellach ar Strategaeth Ariannol Tymor Canol y Cyngor yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn ddiweddarach yn y flwyddyn, pan fydd mwy o wybodaeth ar gael am gyflwr yr economi a phan fydd mwy o eglurder efallai ynghylch y setliadau ariannol a gynigir ar gyfer llywodraeth leol i'r dyfodol.

**2. CYLLIDEB REFENIW 2022/23 AC ARGYMHELLION AR GYFER Y DRETH GYNGOR**

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith :-

- Nodi'r cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol ar y gyllideb ac ystyried yr adborth a gafwyd, fel yr amlinellir yn Adran 3 o Atodiad 1;
- Cytuno ar fanylion terfynol cyllideb arfaethedig y Cyngor, fel y dangosir yn Adran 7 o Atodiad 1 ac Atodiad 2;
- Nodi argymhelliad y Swyddog Adran 151 y dylai'r Cyngor fod yn gweithio tuag at sicrhau balansau cyffredinol o £7.9m ar y lleiaf;
- Nodi'r sylwadau a wnaed gan y Swyddog Adran 151 ar gadernid yr amcangyfrifon, fel y nodir hwy yn Adran 5 o Atodiad 1;

- Argymell cyllideb net o £158.365m ar gyfer y Cyngor Sir a chynnydd o 2.00% yn lefel y Dreth Gyngor yn sgil hynny (£26.82 – Band D) i'r Cyngor llawn, gan nodi y bydd penderfyniad ffurfiol, gan gynnwys praeseptau a godir gan Heddlu Gogledd Cymru a Chynghorau Cymuned, yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 10 Mawrth 2022;
- Gwneud addasiadau ar gyfer unrhyw wahaniaethau rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol trwy ddefnyddio'r gronfa hapddigwyddiadau gyffredinol sydd wedi'i chynnwys yng nghyllideb 2022/23, neu drwy wneud cyfraniad i / o arian wrth gefn cyffredinol y Cyngor er mwyn gosod cyllideb gytbwys;
- Awdurdodi'r Swyddog Adran 151 i wneud unrhyw newidiadau a all fod yn angenrheidiol cyn cyflwyno'r cynigion terfynol i'r Cyngor;
- Cytuno y gellir defnyddio'r gyllideb hapddigwyddiadau gyffredinol i gwrdd ag unrhyw bwysau annisgwyl ar gyllidebau a arweinir gan y galw yn ystod y flwyddyn ariannol ;
- Gofyn i'r Cyngor awdurdodi'r Pwyllgor Gwaith i ryddhau hyd at £250k o'r balansau cyffredinol os yw'r gyllideb hapddigwyddiadau gyffredinol wedi'i hymrwymo'n llawn yn ystod y flwyddyn;
- Dirprwyo grym i'r Swyddog Adran 151 ryddhau cyllid o'r gronfa hapddigwyddiadau gyffredinol, sef hyd at £50k ar gyfer unrhyw eitem unigol. Ni cheir cymeradwyo unrhyw eitem sy'n fwy na £50k heb gytundeb y Pwyllgor Gwaith ymlaen llaw;
- Cadarnhau bod lefel Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer ail gartrefi yn cynyddu i 50% ac yn parhau i fod yn 100% ar gyfer cartrefi gwag.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Ystyriwyd nifer o opsiynau yn dilyn cyhoeddi'r cynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb. Mae'r cynigion terfynol yn cymryd i ystyriaeth y setliad terfynol ar gyfer llywodraeth leol, y safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y broses ymgynghori a sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Sgriwtini.

**C - Pam mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith?**

Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gyhoeddi ei gynnig terfynol ar gyfer y gyllideb cyn i'r Cyngor ei ystyried.

**CH - A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi. Bydd y penderfyniad terfynol ynglŷn â chyllideb refeniw 2022/23 yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2022.

**D - A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Amherthnasol

**Dd – Asesu’r effaith bosib (os yw’n berthnasol):**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae’r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Wrth lunio’r cynigion ar gyfer y gyllideb, mae’r Pwyllgor Gwaith wedi ystyried ei ddyletswyddau statudol a’r amcanion a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Mae manylion unrhyw gynigion arbedion wedi’u nodi yn yr adroddiad. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i’r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Bu’r Cyngor yn gweithio gyda chynghorau eraill a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i bwyso ar Lywodraeth Cymru am y setliad ariannol gorau posibl. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio’r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut. | Mae’r cynigion ar gyfer y gyllideb wedi bod yn destun proses ymgynghori, ac mae’r manylion wedi’u cynnwys yn yr adroddiad. Mae’r Pwyllgor Gwaith wedi rhoi ystyriaeth i ganlyniad yr ymgynghoriad hwnnw cyn cytuno ar y cynnig terfynol ar gyfer y gyllideb. |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | Nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Bydd unrhyw gynigion a gynhwysir yn y gyllideb derfynol ar gyfer 2022/23 yn rhoi ystyriaeth i'r effaith ar unrhyw grwpiau a warchodir. |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai hynny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. | Bydd y gyllideb yn arwain at gynnydd yn y Dreth Gyngor y bydd trethdalwyr Ynys Môn yn ei thalu. Mae'r rheiny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol yn fwy tebygol o fod yn gymwys i dderbyn cymorth trwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a dylai hynny olygu na fydd effaith ariannol ar y rheiny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol, neu bydd yr effaith ariannol yn gyfyngedig. |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg ddim llai ffafriol na'r Saesneg. | Ni nodwyd unrhyw effaith. |

| **E -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi bod yn rhan o'r broses gosod cyllideb o'r cychwyn ac yn cytuno â'r adroddiad ac yn cefnogi'r cynnig terfynol. |
| **2** | **Swyddog Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Mae'r Swyddog Monitro yn rhan o'r UDA, ac mae'r UDA wedi ystyried ei sylwadau. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | - |
| **5** | **Eiddo** | - |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | - |
| **7** | **Sgriwtini** | Ystyriwyd y cynigion terfynol gan y Pwyllgor Sgrwitini yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2022. Rhoddir diweddariad ar ganlyniad y cyfarfod i'r Pwyllgor Gwaith ar lafar. |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Mae cyllideb y Cyngor yn berthnasol i'r holl Aelodau ac ymgynghorwyd â'r Aelodau trwy gydol y broses gosod cyllideb. |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Gweler Adran 2 o'r adroddiad. |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad 1 – Adroddiad manwl ar y Cynigion ar gyfer y Gyllideb
- Atodiad 2 – Crynodeb o Ganlyniadau'r Broses Ymgynghori
- Atodiad 3 – Crynodeb o'r Gyllideb Refeniw Arfaethedig ar gyfer 2022/23 fesul Gwasanaeth

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

- Cynigion Cychwynnol ar gyfer Cyllideb 2022/23 – Pwyllgor Gwaith – 24 Ionawr 2022
- Cynigion Cychwynnol ar gyfer Cyllideb 2022/23 – Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – 24 Ionawr 2022
- Cynllun Ariannol Tymor Canol ar gyfer 2022/23 i 2024/25 – Pwyllgor Gwaith – 27 Medi 2021
- Adroddiad llawn ar yr Ymgynghoriad ar y Gyllideb

## 1. RHAGARWEINIAD A CHEFNDIR

**1.1.** Mae’r adroddiad canlynol yn nodi cynigion ar gyfer cyllideb refeniw 2022/23 ac mae'n un o gyfres o adroddiadau sy'n rhoi darlun cyffredinol o sefyllfa ariannol y Cyngor ac sy'n sicrhau bod cyllid y Cyngor yn cael ei neilltuo i gwrdd â’i flaenoriaethau. Mae'r adroddiadau eraill yn y gyfres yn ymwneud â Rhaglen Gyfalaf a Strategaeth Gyfalaf y Cyngor, Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor a Ffioedd a Thaliadau.

**1.2.** Gyrrir y gyllideb refeniw a'r angen parhaus i nodi arbedion refeniw gan y Cynllun Ariannol Tymor Canol, fel y cymeradwywyd hi gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2021, a gellir ei chrynhoi fel a ganlyn:-

**Tabl 1**
**Cynllun Ariannol Tymor Canol 2022/23 i 2024/25**

| | 2022/23 £’m | 2023/24 £’m | 2024/25 £’m |
|---|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net a ddygwyd ymlaen | 147.420 | 153.987 | 157.178 |
| Pwysau ar y Gyllideb a Chwyddiant | 6.567 | 3.191 | 3.439 |
| **Cyllideb Ddisymud Ddiwygiedig** | **153.987** | **157.178** | **160.617** |
| Cyllid Allanol Cyfun (AEF) ar gyfer 2021/22 | 104.825 | 104.825 | 104.825 |
| Y Dreth Gyngor | 42.295 | 42.295 | 42.295 |
| **Cyfanswm Cyllido** | **147.120** | **147.120** | **147.120** |
| | | | |
| **Y Gofynion Cyllido Ychwanegol / Arbedion y mae’n rhaid eu gwneud** | **6.867** | **10.058** | **13.497** |
| | | | |
| **Prif Ragdybiaethau** | | | |
| Dyfarniadau Tâl – ac eithrio athrawon | 2.81% | 2.00% | 2.00% |
| Dyfarniadau Tâl – Athrawon | 1.60% | 2.00% | 2.00% |
| Chwyddiant Cyffredinol | 2.00% | 2.00% | 2.00% |

**1.3.** O ystyried y diffyg gwybodaeth, roedd yn anodd amcangyfrif y newid yn lefel y Cyllid Allanol Cyfun (AEF) a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2022/23, a hyd yn oed yn anos amcangyfrif y newidiadau yn 2023/24 a 2023/25. Mae'r AEF yn swm sylweddol y mae'r Cyngor wedyn yn ei ddefnyddio fel sail ar gyfer penderfynu ar y cynnydd yn y Dreth Gyngor ac unrhyw arbedion y mae'n rhaid iddo eu gwneud bob blwyddyn.

**1.4.** Yn amlwg mae’r sefyllfa economaidd wedi newid ers mis Medi 2021, gyda chwyddiant yn cynyddu’n gyflyn i lefel na welwyd ers nifer o flynyddoedd. Mae hyn wedi cael cryn effaith ar ffactorau chwyddiant cyflogau a phrisiau ac wedi cynyddu’r gofynion cyllido amcangyfrifiedig a nodwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol ym mis Medi 2021.

## 2. Y CYNNIG CYCHWYNNOL AR GYFER Y GYLLIDEB

**2.1.** Yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr 2022, trafododd y Pwyllgor Gwaith ei gynnig gwreiddiol ar gyfer y gyllideb a'r setliad dros dro yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i gyhoeddi ar 21 Rhagfyr 2021.

**2.2.** Roedd y setliad dros dro yn well o lawer na'r disgwyl, a byddai'n rhoi £114.549m i’r Cyngor, sy’n gynnydd o £9.724m (9.27%) o ran arian parod ond, ar ôl caniatáu ar gyfer grantiau sy'n trosglwyddo i'r setliad ac effaith y newid yn sylfaen dreth y Cyngor, y cynnydd wedi'i addasu oedd £9.677m (3.23%).

**2.3.** Cynigodd y Pwyllgor Gwaith gyllideb o £158.365m ar gyfer 2022/23, ac, o ystyried yr AEF amodol o £114.549m, byddai hyn yn golygu y byddai angen cynnydd o 2.00% yn y Dreth Gyngor i gydbwyso'r gyllideb.

**2.4.** Wrth osod y gyllideb arfaethedig, roedd y Pwyllgor Gwaith yn cydnabod yr angen i ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau sydd wedi wynebu toriadau cyllidebol sylweddol yn ystod y cyfnod o gyni ariannol. Mae £2.86m wedi cael ei glustnodi yn y cynnig cyllideb terfynol er mwyn galluogi i wasanaethau:-

- Ddelio gyda'r cynnydd yn y galw am wasanaethau;
- Lliniaru'r risgiau yn ymwneud â diogelwch y cyhoedd;
- Cynyddu'r adnoddau sydd ar gael i fynd i'r afael â heriau economaidd-gymdeithasol yr Ynys;
- Parhau i weithio tuag at ddod yn sefydliad carbon sero erbyn 2030;
- Parhau i wella a moderneiddio systemau TG a phrosesau busnes y Cyngor;
- Parhau i wella gwasanaethau cwsmer.

**2.5.** Nid yw'r cynnig ar gyfer y gyllideb yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw wasanaethau wneud arbedion ar gyfer 2022/23.

**2.6.** Er na chafodd ei fwriadu fel mesur o'r hyn y dylai cyllideb refeniw net y Cyngor fod, mae'r Asesiad Gwario Safonol (AGS) yn rhoi rhyw syniad a yw cyllideb y Cyngor ar lefel resymol i'r Cyngor. Yr AGS ar gyfer 2022/23 yw £159.692m ac, felly, mae'r gyllideb arfaethedig yn 99.2% o'r AGS.

## 3. CYFANSODDIAD Y CYNGOR

**3.1.** Cyhoeddodd y Cyngor ei gynigion ar gyfer y gyllideb ar 26 Ionawr 2022 a daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 9 Chwefror 2022. Gofynnwyd i ddinasyddion, partneriaid, cydranddeiliaid a staff ymateb i'r ymgynghoriad trwy holiadur ar wefan y Cyngor. Hysbysebwyd y broses ymgynghori yn eang ar gyfryngau cymdeithasol y Cyngor.

**3.2.** O ystyried y cyfnod byr a oedd ar gael i ymgynghori, a hynny oherwydd y cyhoeddiad hwyr am y setliad dros dro a'r ffaith bod y pandemig a'r cyfnod clo cysylltiedig, wedi cyfyngu ar allu'r Cyngor i gynnal cyfarfodydd gyda'i bartneriaid a'i gydranddeiliaid. Fodd bynnag, trafodwyd y cynigion ar gyfer y gyllideb yn ystod y Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned ar 7 Chwefror 2022, ac yn ystod y Fforwm Cyllid Ysgolion, a gyfarfu ar 16 Chwefror 2022. Cefnogwyd y cynigion yn ystod y ddau gyfarfod ac ni chodwyd unrhyw bryderon sylweddol neu wrthwynebiadau yn ystod y cyfarfodydd hyn.

**3.3.** Mae crynodeb o ganlyniadau'r broses ymgynghori ar gael isod:-

- Derbyniwyd 115 o ymatebion ac roedd bron i 30% o'r ymatebwyr yn perthyn i'r grŵp oedran 55-64. Derbyniwyd ymatebion o bob cwr o Ynys Môn, o Gaergybi i Fenllech, Cemaes i Borthaethwy, Amlwch i Falltraeth, Rhosneigr, Llanfellech a Choedana, i enwi dim ond ychydig.
- Daeth 95% o'r ymatebion gan unigolion a oedd yn ymateb fel unigolion neu ar ran y teulu.
- O'r ymatebion hynny roedd 31% yn cytuno y dylid cynyddu Treth Gyngor yr ynys 2% i gyllido gweithgareddau i fynd i'r afael â'r pwysau a nodwyd fel rhan o'r ymgynghoriad. Roedd 69% o'r ymatebwyr yn anghytuno â chynnydd o'r fath.
- O'r rhai a oedd yn anghytuno â chynnydd o'r fath, pan ofynnwyd iddynt beth y dylai'r Cyngor ei flaenoriaethu roedd-
    - 34% yn cynnig y dylai'r Cyngor Sir flaenoriaethu buddsoddi mewn Gwasanaethau Plant, ac roedd
    - 32% yn credu y dylai'r Cyngor flaenoriaethu buddsoddi yn ein gwasanaeth priffyrdd, gwastraff ac eiddo, i fynd i'r afael â heriau yn ymwneud â datgarboneiddio a chlefyd coed Onnen a'r galw am fesurau glanweithdra ychwanegol yn asedau'r Cyngor o ganlyniad i'r pandemig.
- Roedd 21 o'r ymatebwyr yn credu nad oedd angen buddsoddi o gwbl ac y dylai'r Cyngor Sir barhau fel ac y mae heb unrhyw fuddsoddi pellach.

## 4. PWYLLGOR SGRIWTINI

**4.1.** Oherwydd yr oedi cyn derbyn y setliadau dros dro a therfynol, bu'n rhaid cywasgu amserlen y gyllideb ar gyfer 2022/23 er mwyn sicrhau bod y Cyngor mewn sefyllfa i osod y Dreth Gyngor o fewn yr amserlen a nodir yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (Adran 30 (6)). Cafodd y cynnig cychwynnol ar gyfer cyllideb 2022/23 ei ystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini Cyllid yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr 2022, a chafodd ei ystyried ymhellach ganddo yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2022 a bydd adroddiad llafar ar drafodaethau'r Pwyllgor yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod. Yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2022, edrychodd y Panel Sgriwtini Cyllid yn fanwl ar y cynigion buddsoddi ar gyfer y gwasanaethau, a chyflwynwyd sylwadau'r Panel i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2022.

## 5. CADERNID YR AMCANGYFRIFON

**5.1** Yn unol ag Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid gyflwyno adroddiad ar gadernid yr amcangyfrifon cyllidebol a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn arfaethedig.

**5.2** Mae amcangyfrifon y gyllideb yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch gwariant ac incwm yn y dyfodol ac maent yn cynnwys elfen o risg oherwydd rhagdybio. Gellir lliniaru effaith y risg hon drwy gynlluniau wrth gefn, cyllidebau wrth gefn ar gyfer digwyddiadau annisgwyl a chronfeydd ariannol wrth gefn.

**5.3** Nid yw cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol yn gwestiwn syml o p'un a ydynt wedi eu cyfrifo'n gywir ai peidio. Yn ymarferol, mae llawer o gyllidebau wedi'u seilio ar amcangyfrifon neu ragolygon, ac efallai y bydd elfen o risg ynghylch a fydd y cynlluniau'n cael eu gweithredu neu a fydd modd cyflawni'r targedau. Caiff amrywiol risgiau i'r gyllideb eu hystyried yn eu tro isod:-

- **Risg Chwyddiant** – Pan fo lefelau chwyddiant yn isel a phan fo newidiadau yn y gyfradd chwyddiant yn fach yn gyffredinol, mae'r risg chwyddiant yn isel, ac felly y bu ers nifer o fynyddoedd. Fodd bynnag mae mwy o ansicrwydd ynghylch chwyddiant cyflogau a phrisiau yn 2022/23, ac mae hyn yn cynyddu'r risg yn sylweddol. Yn hwyr yn 2021, dechreuodd chwyddiant godi'n gyflym, a rhagwelir y bydd y cynnydd hwn yn parhau yn gynnar yn 2022. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth barn ynghylch pa un ai a yw hwn yn gynnydd dros dro ai peidio, ac a fydd pethau'n dechrau sefydlogi yn ystod ail hanner 2022 neu a fydd chwyddiant yn parhau i gynyddu drwy gydol 2022. I ryw raddau, mae'r Cyngor wedi'i amddiffyn rhag y risg hwn oherwydd mae mwyafrif o'n contractau mawr (prydau ysgol, cynnal a chadw priffyrdd, casglu gwastraff ac ati) yn defnyddio mynegion chwyddiant o fis Medi, Hydref neu Tachwedd 2021 i bennu lefel y chwyddiant ar gyfer 2022/23. Gan fod y ffigurau hyn yn hysbys maent wedi'u cynnwys yn y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2022/23. Y gost fwyaf i'r Cyngor yw ei gostau tâl. Nid yw'r dyfarniad cyflog ar gyfer staff nad ydynt yn athrawon wedi'i gytuno ar gyfer 2021/22 ac nid oes cynnig wedi'i wneud ar gyfer 2022/23. Mae'r cynnig ar gyfer y gyllideb yn caniatáu ar gyfer cynnydd o 1.75% ar gyfer 2021/22 a 3.5% ar gyfer 2022/23. Byddai'n rhaid i'r Cyngor ddefnyddio ei gronfeydd wrth gefn i gyllido unrhyw ddyfarniad cyflog sy'n uwch na'r ffigwr hwn. Mae'r dyfarniad cyflog i athrawon wedi'i gytuno hyd at fis Medi 2022 ac, unwaith eto, mae 3.5% wedi'i gynnwys i gwrdd â'r dyfarniad cyflog a fydd yn dod i rym ym mis Medi 2022. Rhagwelir ffactor chwyddiant o 2% ar gyfer gweddill gwariant y Cyngor ond, gan fod y rhan fwyaf o wariant y Cyngor yn gysylltiedig â thâl neu'n dod o dan gontract, mae'r risg ariannol o danbrisio'r ffigwr hwn yn isel ac mae modd ei liniaru drwy sicrhau bod gan y Cyngor falansau cyffredinol digonol.
- **Risg Cyfraddau Llog** – Mae cyfraddau llog yn effeithio ar gyllideb refeniw un flwyddyn drwy'r llog a enillir – h.y. mae cynnydd yn y gyfradd llog yn beth da. Yn unol â Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod, yr ystyriaethau cyntaf wrth fuddsoddi fydd diogelwch a hylifedd y buddsoddiad – bydd yr elw ar y buddsoddiad yn llai o flaenoriaeth. Nid yw'r gyllideb, felly'n dibynnu ar gael elw mawr o'r buddsoddiadau a wneir. Mae cyfraddau llog yn parhau i fod yn isel iawn, ond maent yn dechrau codi ac efallai y bydd yn rhaid eu cynyddu'n fwy sydyn na'r disgwyl os ydi chwyddiant yn parhau i fod yn uchel. Mae'r rhan fwyaf o'r llog a delir gan y Cyngor yn gysylltiedig â benthyciadau cyfraddau sefydlog na fyddant yn newid pe bai'r gyfradd llog yn codi. Felly, ystyrir bod y risg o ran cyfraddau llog yn isel ac, fel yn y blynyddoedd diwethaf, mae hon yn risg y mae'r risg chwyddiant yn ei lliniaru, oherwydd os yw un yn cynyddu, yna mae'r llall yn debygol o gynyddu hefyd.

- **Risg Grantiau -** Mae'r rhain yn risgiau gyda nifer fawr o grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru, gan Ewrop neu gan gyrff eraill sy'n cefnogi cyfran dda o wariant y Cyngor. Efallai y bydd rhai o'r rhain yn gostwng yn sylweddol neu'n cael eu dileu yn gyfan gwbl; nid oes gennym ddarlun cyflawn o'r rhain i gyd ac ni fydd y sefyllfa'n eglurach hyd yn oed wrth i'r flwyddyn ariannol gychwyn. Er mai'r ymateb naturiol yw dweud y bydd rhaid i'r gwariant sy'n gysylltiedig â'r grant ddod i ben pan ddaw'r grant i ben, mae perygl na fydd hyn bob amser yn bosib. Efallai na fydd yn bosib pan fydd telerau'r contract yn golygu na all y gwariant gael ei dorri mor gyflym â'r incwm, neu os oes costau diswyddo sydd heb eu cyllido. Efallai na fydd yn bosib os yw'r gweithgaredd a gyllidir mor bwysig ar gyfer cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor ei hun fel bod y Cyngor yn penderfynu bod rhaid iddo barhau â'r gwariant. Wrth ymdrechu i liniaru'r risg hon, rhaid sicrhau bod gennym y wybodaeth orau sydd ar gael am bob un o'r grantiau, ond ni fedrir diystyru'n gyfan gwbl y posibilrwydd y bydd newidiadau sylweddol yn digwydd yn ystod y flwyddyn.
- **Risgiau Incwm –** Mae'r gyllideb yn seiliedig ar sicrhau cynnydd cyffredinol o 3% mewn ffioedd, ac mae nifer o wasanaethau wedi rhagdybio codiadau a fydd hyd at 3%. Os bydd newid yn y galw am Wasanaethau'r Cyngor yn golygu bod lefel y galw'n disgyn, ac os na lwyddir i gyrraedd targedau incwm, gall hynny arwain at orwario ar gyllidebau net. Bydd angen monitro sefyllfa'r gyllideb net yn ofalus ac, os oes angen, bydd rhaid torri yn ôl ar wariant i gyfateb i'r gostyngiad mewn incwm.
- **Risg o fod yn rhy Optimistaidd –** Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'n debyg mai'r risg fwyaf oedd bod yr Awdurdod, Aelodau a Swyddogion wedi bod yn or-optimistaidd yn yr arbedion a gyflawnir neu na fyddai'r galw am wasanaethau, yn enwedig gofal cymdeithasol, yn cynyddu'n sylweddol. Ar gyfer 2022/23, nid oes unrhyw arbedion yn cael eu cynnig ac, o'r herwydd, nid yw'r risg hon yn berthnasol i gyllideb 2022/23.
- **Risg o fod yn rhy Ofalus** – Dyma'r gwrthwyneb i'r risg uchod: y perygl bod ein cyllidebau wedi cael eu llunio'n rhy wyliadwrus ac, o'r herwydd, eu bod yn fwy nag sydd ei angen, gan arwain at osod y Dreth Gyngor ar lefel uwch nag sydd raid - rhywbeth y mae Aelodau yn awyddus i'w osgoi. Mae'r Swyddog Adran 151 yn fodlon â'r broses ar gyfer gosod y gyllideb a bod y gyllideb a osodwyd yn asesiad teg o'r adnoddau sydd eu hangen ar bob gwasanaeth, yn seiliedig ar y ffactorau perthnasol fel y maent ar hyn o bryd.
- **Premiwm y Dreth Gyngor –** Wrth gyfrifo sylfaen y dreth gyngor, derbynnir y gall nifer yr eiddo gwag ac ail gartrefi newid yn ystod y flwyddyn ac, o'r herwydd, dim ond 80% o'r eiddo cymwys sydd wedi'u cynnwys yn sylfaen y dreth. Mae hyn yn gwarchod cyllideb y Cyngor pe bai gostyngiad sylweddol yn y niferoedd. Fodd bynnag, dylid nodi bod nifer yr eiddo gwag a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo sylfaen y dreth wedi gostwng o 394 eiddo ym mis Hydref 2020 i 324 eiddo ym mis Hydref 2021, a chynyddodd nifer yr ail gartrefi o 2,067 i 2,149 dros yr un cyfnod. Mae cynyddu lefel y premiwm ar ail gartrefi o 35% i 50% yn peri risg sylweddol yn 2022/23. Gall y cynnydd annog perchnogion ail gartrefi i werthu neu osod eu heiddo h.y. un o'r rhesymau dros gynyddu'r premiwm yn y lle cyntaf, fodd bynnag, fe all annog mwy o berchnogion i beidio â thalu neu osgoi talu'r premiwm drwy drosglwyddo i drethi busnes neu ddulliau osgoi eraill. I liniaru'r risg bydd staff ychwanegol yn cael eu cyflogi i ganfod achosion o osgoi'r dreth a lleihau'r colledion premiwm o ganlyniad. Gan fod y Pwyllgor Gwaith wedi ymrwymo i ddefnyddio'r premiwm ychwanegol i fynd i'r afael â'r problemau a achosir gan y nifer uchel o ail gartrefi ar Ynys Môn, byddai unrhyw ostyngiad incwm sylweddol yn golygu bod llai o gyllid ar gael ar gyfer y mentrau hyn yn y blynyddoedd sydd i ddod.

- **Incwm o'r Dreth Gyngor –** Mae'r gyllideb ar gyfer incwm o'r Dreth Gyngor yn seiliedig ar gyfrifiad sylfaen y dreth ym mis Tachwedd y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae sylfaen y dreth yn newid yn gyson yn ystod y flwyddyn, wrth i eiddo newydd gael eu hychwanegu ac wrth ganiatáu eithriadau a disgowntiau pobl sengl. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn ac, yn ddieithriad, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng y debyd gwirioneddol a godir a'r gyllideb. Dylid nodi bod nifer yr eiddo sy'n cael eu nodi fel llety hunanarlwyo a'u trosglwyddo i'r gofrestr trethi busnes wedi cynyddu o 927 eiddo ym mis Chwefror 2021 i 1,000 eiddo ym mis Chwefror 2022, sef cynnydd o 83 eiddo. Pan fydd eiddo'n symud ar draws, bydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn pennu dyddiad y daw'r eiddo yn atebol am drethi busnes, a gall y dyddiad hwnnw gael ei ôl-ddyddio nifer o flynyddoedd. Nid yn unig y mae'r Cyngor yn colli'r Dreth Gyngor ar yr eiddo, ond rhaid iddo hefyd ad-dalu unrhyw Dreth Gyngor a phremiwm a dalwyd o'r dyddiad pan roddir yr eiddo ar y gofrestr Trethi Busnes. Gall y symudiadau hyn gael effaith sylweddol ar incwm o'r Dreth Gyngor mewn unrhyw flwyddyn.

  Mae'r pandemig Covid hefyd wedi arwain at gyfraddau casglu is nag mewn blynyddoedd a fu ac fe all hyn arwain at golled ariannol yn 2022/23 neu yn y blynyddoedd i ddod, pan fydd dyledion nad oes modd eu casglu yn cael eu dileu. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid grant i helpu i gwrdd â chostau yn ymwneud â dyledion nad oes modd eu casglu, a defnyddir y cyllid hwn, os oes angen, i liniaru effaith dileu mwy o ddyledion nag sy'n arferol.

- **Risgiau sy'n gysylltiedig â galw –** Fe all nifer o wasanaethau weld newid yn y galw am wasanaeth. Gellir rhagweld rhai a'u cymryd i ystyriaeth wrth osod y gyllideb e.e. newid mewn niferoedd disgyblion. Mae eraill yn fwy anos i'w darogan ac fe all newid bach mewn niferoedd gael effaith sylweddol ar gostau. Mae'r gyllideb yn caniatáu darparu gwasanaethau ar y lefel bresennol, a bydd rhaid defnyddio balansau cyffredinol y Cyngor neu, mewn rhai achosion, cronfeydd wrth gefn clustnodedig sydd wedi'u clustnodi i gwrdd ag unrhyw gynnydd yn y galw am wasanaeth.

**5.4** Ar ôl ystyried yr holl risgiau a nodir uchod a'r camau lliniaru, mae'r Swyddog Adran 151 o'r farn bod y cyllidebau'n gadarn ac y gellir eu cyflawni.

## 6. CRONFEYDD WRTH GEFN CYFFREDINOL A PHENODOL

**6.1** Mae'r gyllideb arfaethedig yn cynnwys nifer o ragdybiaethau o ran lefelau incwm a gwariant tebygol yn y blynyddoedd i ddod. Felly, yn anochel mae nifer o risgiau ariannol cynhenid yn y gyllideb arfaethedig, fel y nodir ym mharagraff 5 uchod.

**6.2** O ran unrhyw arian wrth gefn a chronfeydd hapddigwyddiadau, mae angen i'r Swyddog Adran 151 adolygu'r rhain yn eu cyfanrwydd ar y cyd â'r gyllideb sylfaenol ei hun a'r risgiau ariannol y mae'r Awdurdod yn eu hwynebu. Yn ogystal, dylai'r adolygiad edrych i'r tymor canol lle bo angen a dylai gymryd i ystyriaeth ddatblygiadau allweddol a allai effeithio ar yr angen am a'r defnydd o adnoddau unwaith ac am byth.

**6.3** Mabwysiadwyd safbwynt cadarn o ran rheoli risgiau cyllidebol a gwarchod iechyd ariannol y Cyngor yn y cyfnod hwn. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd angen diogelu cronfeydd unwaith ac am byth yn ddigonol i fedru cyllido newidiadau strategol / trawsnewidiol yn y dyfodol, yn hytrach na chyllido gorwariant sylweddol ar y gyllideb sylfaenol ei hun.

**6.4** Ystyriwyd yr angen i gyfyngu i'r eithaf y gostyngiadau mewn gwariant sy'n digwydd ar hyn o bryd ac effaith hynny ar wasanaethau, ond rhaid cydbwyso hyn yn erbyn yr angen i sicrhau sefydlogrwydd ariannol y Cyngor yn y tymor canol a'r tymor hir, ac i wneud arbedion dros y blynyddoedd i ddod mewn ffordd raddol a strwythuredig. Yn ogystal, mae rhywfaint o risg bob amser o wariant annisgwyl neu orwariant oherwydd pwysau mwy cyffredinol ar gyllidebau gwasanaeth, a rhaid i gronfeydd wrth gefn hefyd fod yn ddigonol i ymdopi â'r fath bwysau.

**6.5** Ar 31 Mawrth 2021, roedd cronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor yn £11.437m, sy'n cyfateb i 7.77% o gyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2020/21, 10.94% os nad yw'r gyllideb ddatganoledig ysgolion yn cael ei chynnwys. Yn ystod y flwyddyn, clustnodwyd £3m i atgyweirio to CAYB, trosglwyddwyd £1.376m i gronfeydd wrth gefn penodol a defnyddiwyd £0.150m at ddibenion eraill gyda £0.643m o arian wrth gefn clustnodedig yn cael ei drosglwyddo'n ôl i falansau cyffredinol y Cyngor. Felly, ar hyn o bryd, £7.554m ydi'r lefel ddiwygiedig.

**6.6** Clustnodwyd £1.681m o falansau cyffredinol y Cyngor i gyllido'r rhaglen gyfalaf yn 2022/23. Fodd bynnag, rhagwelir tanwariant sylweddol yn 2021/22, a bydd hyn yn cynyddu'r balansau cyffredinol, oddeutu £2m o leiaf, ac felly ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bydd y balansau cyffredinol oddeutu £8m, sef tua 5% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer 2022/23.

**6.7** Mae'r Cyngor yn penderfynu ar lefel y balansau cyffredinol ar sail argymhelliad gan y Swyddog Adran 151 ond, fel rheol gyffredinol, ystyrir bod 5% o'r gyllideb refeniw net yn lefel dderbyniol. Mater i'w drafod yw p'un ai y dylid hepgor y gyllideb ddatganoledig ysgolion o'r gyllideb refeniw net, gan fod gan ysgolion eu cronfeydd wrth gefn eu hunain er mwyn cwrdd â chostau annisgwyl. Yn seiliedig ar y sefyllfa ariannol bresennol, gallwn ddweud â chryn sicrwydd y bydd lefel y balansau cyffredinol yn fwy na 5% o'r gyllideb refeniw net ar ddechrau blwyddyn ariannol 2022/23.

**6.8** Mae'r risgiau ariannol hefyd yn cael eu lliniaru drwy gadw cronfeydd wrth gefn clustnodedig, sydd yn cael eu cadw er mwyn lliniaru risgiau penodol neu i gyllido prosiectau penodol er budd y Cyngor. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol roedd gan y Cyngor £15.455m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig (yn cynnwys £1.376m o gronfeydd wrth gefn ar gyfer gwasanaethau penodol). Gellid dychwelyd cyfran sylweddol o'r cronfeydd wrth gefn yn ôl i'r balansau cyffredinol os bydd sefyllfa ariannol y Cyngor yn gwaethygu'n sylweddol yn ystod 2022/23. Mae'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig yma yn rhoi haen ychwanegol o ddiogelwch ariannol yn ychwanegol i falansau cyffredinol y Cyngor.

**6.9** Mae'r gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2022/23 yn cynnwys £0.405m o gronfa hapddigwyddiadau cyffredinol y gellid ei defnyddio i gwrdd â gwariant annisgwyl neu heb ei gyllidebu yn ystod y flwyddyn. Unwaith eto, pwrpas y cyllidebau hyn yw lliniaru'r risgiau ariannol cynhenid wrth osod y gyllideb refeniw.

**6.10** Ar ôl ystyried lefel balansau cyffredinol y Cyngor, balansau ysgolion, cronfeydd wrth gefn clustnodedig a'r cyllidebau hapddigwyddiadau, mae'r Swyddog Adran 151 yn fodlon bod sefyllfa ariannol y Cyngor yn ddigon cadarn i'w alluogi i wrthsefyll unrhyw anawsterau a all godi yn ystod 2022/23 os na fydd y gyllideb refeniw arfaethedig yn ddigonol i gwrdd â chostau gwirioneddol y Cyngor yn ystod 2022/23.

## 7. Y CYNNIG AR GYFER CYLLIDEB DERFYNOL 2022/23

**7.1** Ers cwblhau'r cynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb, gwnaed gwaith pellach i adolygu a diwygio'r gyllideb derfynol ar gyfer 2022/23, yn cynnwys adolygiad llawn o'r holl fuddsoddiadau mewn gwasanaethau gan y Pwyllgor Gwaith. O ganlyniad, newidiwyd y cynnig cychwynnol ar gyfer y gyllideb o ran penawdau cyllidebau unigol a'r dyraniadau cyllid rhwng gwasanaethau, ond ni wnaeth yr adolygiad effeithio ar y gofynion ar gyfer y gyllideb net derfynol, sydd dal yr un fath fel y nodir yn Nhabl 2 isod:-

**Tabl 2**
**Addasiadau i'r Cynnig Cychwynnol ar gyfer y Gyllideb**

| | £m | £m |
|---|---|---|
| **Cynnig Terfynol Cyllideb Gwariant Refeniw Net 2022/23** | | **158.365** |
| **Cyllidir gan:** | | |
| Grant Cymorth Refeniw | 89.056 | |
| Trethi Annomestig | 25.493 | |
| Cyfanswm Cyllid Allanol Cyfun (AEF) | | 114.549 |
| Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol y Cyngor | | 0.000 |
| Y Dreth Gyngor (yn cynnwys Premiwm y Dreth Gyngor) | | 43.816 |
| **Cyfanswm Cyllid** | | **158.365** |

**7.2** Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei setliad terfynol ar gyfer llywodraeth leol ar 2 Mawrth 2022, a fydd yn rhy hwyr i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried yn ei gynigion terfynol. Ni ragwelir y bydd unrhyw newid sylweddol rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol, ond gwneir cyfrif am unrhyw newid trwy addasu lefel y gronfa hapddigwyddiadau gyffredinol os yw'r gwahaniaeth yn fach, neu drwy gyllido o / cyfrannu at falansau cyffredinol y Cyngor pe bai'r gwahaniaeth yn fwy. O'r herwydd, ni fydd lefel arfaethedig y Dreth Gyngor yn newid hyd yn oed os yw'r AEF terfynol yn wahanol i'r ffigwr a ddangosir yn y setliad dros dro.

## 8. Y DRETH GYNGOR

**8.1** Y Dreth Cyngor ar gyfer Band D yn 2021/22 oedd £1,340.64, a oedd yn 17eg o'r 22 Awdurdod yng Nghymru ac yn is na'r cyfartaledd trwy Gymru, sef £1,430. Yn bwysicach fyth i Ynys Môn yw'r gymhariaeth â'r 5 awdurdod arall yng Ngogledd Cymru. Dangosir hyn yn Nhabl 3 isod:-

**Tabl 3**
**Cymharu'r Dreth Gyngor a godir gan Awdurdodau yng Ngogledd Cymru**

| Awdurdod | Tâl Band D 2020/21 £ | Swm yn uwch / is nag Ynys Môn £ | Canran yn uwch / is nag Ynys Môn % |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 1,341 | | |
| Gwynedd | 1,483 | + £142 | + 10.6% |
| Conwy | 1,383 | + £42 | + 3.1% |
| Sir Ddinbych | 1,437 | + £96 | + 7.2% |
| Sir y Fflint | 1,394 | + £53 | + 4.0% |
| Wrecsam | 1,319 | - £22 | - 1.6% |

**8.2** Y gyllideb ar gyfer y Dreth y Cyngor yn 2022/23 (cyn cynnydd yn y Dreth Gyngor ond ar ôl addasu ar gyfer y newid yn Sylfaen y Dreth Gyngor a'r premiwm) yw £41.14m. Felly, mae pob cynnydd o 1% yn cynhyrchu £411k ychwanegol

**8.3** Ar ôl cymryd i ystyriaeth y setliad dros dro o £114.549m, byddai'r gofyniad cyllideb diwygiedig o £158.365m (gweler Tabl 2) yn golygu y byddai angen £42.957m o gyllid o'r Dreth Gyngor. Er mwyn cyllido'r gofyniad cyllideb diwygiedig, y cynnydd yn lefel y Dreth Gyngor fyddai 2.00%, gan fynd â'r tâl Band D i £1,367.46, sef cynnydd o £26.82 neu £0.51 yr wythnos.

**8.4** Yn y setliad dros dro, gosodwyd yr elfen dreth safonol ar gyfer y Cyngor h.y. y ffigwr Dreth Gyngor safonol ledled Cymru, a ddefnyddir i bennu'r AEF ar gyfer pob Cyngor, ar £1,452.49, sydd 3.5% yn uwch na ffigwr yn 2021/22.

## 9. ASESU'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEBAU

**9.1** Wrth ddarparu ei wasanaethau, mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 i asesu effaith penderfyniadau ariannol allweddol ar grwpiau gwarchodedig a rhaid rhoi sylw dyledus i ganlyniad asesiad o'r fath

**9.2** Ni fydd y gyllideb cyllidebol arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig a nodir yn y Rheoliadau ac, o ganlyniad, nid ystyrir bod angen cynnal unrhyw Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

## 10 DIWEDDARU'R STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOL

**10.1** Fel y nodwyd ym mharagraff 1.4, mae'r sefyllfa economaidd wedi newid yn sylweddol ers i'r Cyngor gymeradwyo'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol (SATC) ym mis Medi 2021. Mae'r setliad llywodraeth leol dros dro ar gyfer 2022/23 hefyd yn newid y strategaeth yn sylweddol. Mae'r cynnydd a ragwelir yn yr AEF yn rhoi tipyn mwy o sicrwydd ynglŷn â chyllid y Cyngor dros y ddwy flynedd nesaf, sy'n caniatáu i ni ddiweddaru'r SATC.

**10.2** Y maes sy'n peri'r ansicrwydd mwyaf i'r SATC wrth symud ymlaen yw chwyddiant a'i effaith ar ddyfarniadau cyflog yn y dyfodol, ac fe all Covid a Brexit hefyd gael effaith sylweddol ar economi'r wlad ac, o ganlyniad, ar gyllid y Cyngor yn 2023/24 a thu hwnt a hefyd y galw am wasanaethau'r Cyngor.

**10.3** Fodd bynnag, yn seiliedig ar fwyafrif y rhagdybiaethau a oedd wedi'u cynnwys yn y SATC a gymeradwywyd ym mis Medi 2021 ond gan ddiweddaru'r rhagdybiaethau ar gyfer cyflogau, chwyddiant a'r AEF, amcangyfrif y bydd cyllideb y Cyngor yn cynyddu £3.3m yn 2023/24 a £3.6m yn 2024/25. Bydd yr AEF yn cynyddu £4m yn 2023/24 a £2.8m yn 2024/25.

**10.4** Mae'r ffigyrau sydd i'w gweld ym mharagraff 10.3 yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau a all newid dros y misoedd nesaf ac fe all hyn newid y sefyllfa ariannol yn sylweddol ond, yn seiliedig ar yr uchod efallai y bydd cyfle pellach i ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau yn 2023/24, ond mae'r sefyllfa ariannol yn gwaethygu yn 2023/25. Fodd bynnag, nid yw'r SATC diwygiedig yn awgrymu na fydd y gyllideb ar gyfer 2022/23 yn fforddiadwy yn y blynyddoedd i ddod.

**10.5** Cyflwynir y SATC wedi'i diweddaru i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2022.

## 11. CASGLIADAU

**11.1** Mae'n bwysig bod y gyllideb a osodir yn gyraeddadwy ac yn adlewyrchu'n gywir y gofynion sy'n wynebu gwasanaethau ar hyn o bryd, er nodir y bydd ail-gyflwyno cyfyngiadau Covid yn cael effaith sylweddol ar gyllideb y Cyngor. Fodd bynnag mae'r gyllideb yn rhagweld na fydd y sefyllfa ddim gwaeth nac y mae ar hyn o bryd ac y bydd y cyfyngiadau'n parhau i gael eu llacio dros y misoedd nesaf.

**11.2** Mae'r setliad llywodraeth leol yn well na'r disgwyl ac, er ei fod yn golygu bod rhaid i'r Cyngor neilltuo cyllid ar gyfer meysydd penodol, mae hefyd yn rhoi cyfle i'r Cyngor ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf gan y gostyngiadau yn y gyllideb dros y 10 mlynedd diwethaf.

**11.3** Mae'r cyllid grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru wedi galluogi'r Cyngor i gryfhau ei sefyllfa ariannol a'i roi mewn sefyllfa ariannol gadarnach wrth symud i 2022/23 a thu hwnt. Mae bod amser risg y gall y galw am wasanaethau'r Cyngor gynyddu ac nad ydym wedi darparu ar eu cyfer yn y gyllideb, ond mae'r cynnydd yn y balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn clustnodedig yn lliniaru'r risg yn sylweddol.

**11.4** Felly, ym marn broffesiynol y Swyddog Adran 151, mae'r gyllideb refeniw ar gyfer 2022/23 yn cyflawni'r amcanion canlynol:-

- Sicrhau bod yr adnoddau ariannol a neilltuir i bob gwasanaeth yn ddigon i gwrdd â'r pwysau sydd ar eu cyllidebau ar hyn o bryd ac i gwrdd â'r galw am y swyddogaethau statudol y mae'n rhaid i'r gwasanaethau eu cyflawni.
- Mynd i'r afael â'r pwysau ariannol sylfaenol yn y Gwasanaethau sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf gan gynnydd yn y galw am wasanaethau: Addysg, Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Oedolion, a'n caniatáu i ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf yn ystod y cyfnod o galedi ariannol.
- Gosod y Dreth Gyngor ar lefel sy'n debyg i asesiad Llywodraeth Cymru o faint y dylai Treth Gyngor Ynys Môn fod, ac ar lefel gyffelyb hefyd i'r Dreth Gyngor a godir gan awdurdodau eraill yng Nghymru sy'n debyg o ran eu maint a'u math.

## 12. ARGYMHELLIAD

**12.1** Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r cynnig ar gyfer y gyllideb derfynol, fel y nodir ym Mharagraff 7, i gyfarfod llawn y Cyngor ar 10 Mawrth 2022.

**ATODIAD 3**

## Y CYNNIG TERFYNOL AR GYFER CYLLIDEB 2022/23 FESUL GWASANAETH

| | **Cyllideb Arfaethedig Terfynol 2022/23 £** |
|---|---|
| Addysg a Diwylliant | 57,268,324 |
| Gwasanaethau Oedolion | 29,963,922 |
| Gwasanaethau Plant | 11,715,110 |
| Gwasanaethau Tai | 1,914,489 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 17,562,513 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 4,619,800 |
| Trawsnewid Corfforaethol | 6,308,016 |
| Adnoddau | 3,428,949 |
| Busnes y Cyngor | 1,857,068 |
| Rheoli Corfforaethol | 735,469 |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth** | **135,373,660** |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 3,029,952 |
| Ad-daliadau i CRT | (800,000) |
| Ardollau | 3,957,345 |
| Cyllido Cyfalaf | 7,208,908 |
| Budd-daliadau a Roddwyd | 109,239 |
| Rhyddhad Trethi Dewisol | 72,471 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 6,304,169 |
| **Cyfanswm y Cyllidebau a Ddyrannwyd** | **155,255,744** |
| Cronfa hapddigwyddiadau cyffredinol ac eraill | 2,492,347 |
| Pwysau Cyllideb (Cynhaliwyd i ddechrau fel Cyllideb Wrth Gefn) | 616,830 |
| **Cyfanswm Cyllideb 2022/23** | **158,364,921** |
| **Cyllidir gan** | |
| Grant Cymorth Refeniw | (89,056,039) |
| Trethi Annomestig | (25,492,959) |
| Y Dreth Gyngor (yn cynnwys Premiwm y Dreth Cyngor) | (43,815,923) |
| Arian wrth Gefn y Cyngor | 0 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **(158,364,921)** |
| **Gwahaniaeth Cyllideb i Gyllid** | **-** |

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **28 Chwefror, 2022** |
| **Pwnc:** | **Gosod Cyllideb 2022/23 (Cyfalaf)** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Ystyried y cynigion cyllidebol draft terfynol ar gyfer 2022/23** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Aled Morris Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cyng Robin Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gytuno ymateb ffurfiol i'r Pwyllgor Gwaith ar gynigion terfynol y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2022/23 (gan ddefnyddio'r cwestiynau sgriwtini allweddol ym mharagraff 4 isod) a chan gymryd i ystyriaeth y sylwadau a wnaed gan y Panel Sgriwtini Cyllid. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Cyswllt uniongyrchol â Chynllun y Cyngor a blaenoriaethau trawsnewid. Bydd ystyriaeth y Pwyllgor o'r cynigion cyllidebol cychwynnol ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys sut mae'r cynigion yn galluogi'r Cyngor i gyflawni Cynllun Trosiannol y Cyngor yn ogystal ag unrhyw risgiau penodol. |

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

3.1 Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

3.2 Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

3.3 Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

3.4 Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

3.5 Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

3.6 Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a’r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

Cynigir y cwestiynau allweddol canlynol fel sail ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor o gynigion cyllidebol cyfalaf 2022/23:

i. O ystyried yr adnoddau cyfalaf cyfyngedig sydd ar gael, a yw'r Pwyllgor yn cefnogi’r rhaglen gyfalaf arfaethedig?
ii. Sut mae cynigion cyfalaf 2022/23 yn galluogi cyflawni blaenoriaethau tymor canol y Cyngor yn ogystal â chydbwyso pwysau tymor byr?
iii. I ba raddau y mae’r Pwyllgor yn ystyried defnyddio £1.68m o’r balansau cyffredinol fel rhan o ariannu’r rhaglen gyfalaf yn ddefnydd dilys o gronfeydd wrth gefn?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

## 1. CYD-DESTUN

1.1 Mae’r gwaith o graffu ar y broses gosod cyllideb wedi datblygu ac aeddfedu dros y blynyddoedd diwethaf, gan osod y seiliau ar gyfer proses well a mwy systematig sy’n seiliedig ar ganlyniadau ac arfer dda. Mewn gwirionedd, mae'r broses yn caniatáu ar gyfer dull mwy systematig o graffu ariannol, fel bloc adeiladu hanfodol ar gyfer rheolaeth a llywodraethiant ariannol cadarn. Mae ein dull o graffu ariannol yn dod i'r amlwg fel model o arfer dda.

**1.2 Strategaeth Gyfalaf 2021/22 – 2023/24**

Mae Côd Darbodus diwygiedig CIPFA [1] yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynhyrchu strategaeth gyfalaf er mwyn:

- Nodi'r cyd-destun tymor hir y dylid gwneud penderfyniadau ynghylch gwariant cyfalaf a buddsoddi ynddo
- Fel ffordd o sicrhau bod Cynghorau'n gwneud penderfyniadau cyfalaf a buddsoddi yn unol ag amcanion a blaenoriaethau gwasanaeth
- Sicrhau bod awdurdodau lleol yn cymryd ystyriaeth briodol o stiwardiaeth, gwerth am arian, darbodusrwydd, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd wrth osod eu rhaglenni cyfalaf.

Mabwysiadwyd strategaeth gyfalaf a rhaglen gyfalaf yr Awdurdod am 2021/22 - 2023/24 gan y Cyngor Llawn ym mis Mawrth, 2021.[2] Mae'n nodi'r amcanion, yr egwyddorion a'r fframwaith llywodraethu i sicrhau bod yr Awdurdod yn cymryd penderfyniadau ar wariant cyfalaf a buddsoddi yn unol â Chynllun y Cyngor a blaenoriaethau trawsnewid lleol. Un o egwyddorion sylfaenol y Strategaeth yw canolbwyntio gwariant cyfalaf ar brosiectau sy'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni amcanion allweddol Cynllun y Cyngor ac sy’n helpu'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol:

i. Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir
ii. Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib

[1] Côd Darbodus Diwygiedig (CIPFA) dyddiedig Medi 2017
[2] Cyfarfod o’r Cyngor llawn ar 9 Mawrth, 2021.

iii. Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau, gan amddiffyn ein hamgylchedd naturiol

Mae'r Strategaeth hefyd yn nodi'r gwariant cyfalaf posib yn y dyfodol, yn asesu'r effaith ar elfen cyllido cyfalaf y cyfrif refeniw ac yn pennu'r cyllid sydd ar gael i ariannu cynlluniau cyfalaf newydd am y cyfnod 2021/22 - 2023/24. Hefyd, mae'r strategaeth yn nodi'r egwyddorion tymor hir sy'n sail i gynllunio cyfalaf i'r dyfodol.

**1.3 Egwyddorion y Strategaeth Gyfalaf**

Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn trafod nifer o egwyddorion tymor hir a ddylai fod yn sail i raglen gyfalaf y Cyngor:

- Dylai'r rhaglen gyfalaf flynyddol ganolbwyntio gwariant cyfalaf ar brosiectau sy'n gwneud y cyfraniad mwyaf at flaenoriaethau allweddol y Cyngor am y cyfnod hyd at 2023/24.
- Dylid dyrannu cyllid cyfalaf bob blwyddyn i sicrhau buddsoddiad ynn yr asedau cyfredol
- Bydd y Cyngor yn sicrhau'r cyllid cyfalaf allanol mwyaf posib os oes modd gwneud hynny ac os yw'n fforddiadwy
- Blaenoriaethir cyllid cyfalaf hefyd i'w wario ar asedau sydd raid wrthynt i helpu'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol
- Ymrwymiad parhaus i Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ac i ddefnyddio'r cyllid allanol sydd ar gael yn llawn

**1.4 Ffynonellau Cyllido'r Gyllideb Gyfalaf**
Ariennir rhaglen gyfalaf flynyddol y Cyngor trwy nifer o ffynonellau cyllid:
- Derbyniadau Cyfalaf
- Cyfraniad gan Refeniw / Arian wrth Gefn
- Benthyca â Chefnogaeth
- Benthyca Di-gefnogaeth
- Grant Cyfalaf Cyffredinol
- Grantiau Allanol
- Lwfans Atgyweirio Mawr

**1.5** Wrth ystyried eu hymateb i'r cynigion cyllidebol terfynol, bydd angen i aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyried y cynigion o ran sefyllfa ariannol tymor hirach y Cyngor (ein Cynllun Ariannol Tymor Canol a'r Strategaeth Gyfalaf a Rhaglen Gyfalaf 2021/2022 - 2022/23) ac amcanion a blaenoriaethau tymor hir y Cyngor.

**2 GOSOD CYLLIDEB Y CYNGOR AR GYFER 2022/23**

**2.1** Ynghlwm mae adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 ar y cynigion drafft terfynol ar gyfer cyllideb 2022/23 **(ATODIAD 1)** a gyflwynir i gyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 3 Mawrth, 2022. Mae'r papur yn cyflwyno datganiad ar y sefyllfa mewn perthynas â'r materion a ganlyn:

- Egwyddorion y strategaeth gyfalaf

- Y rhaglen gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2022/23 gan gynnwys y rhaglen gyfalaf gyffredinol, buddsoddiad yn Ysgolion yr 21ain Ganrif a rhaglen gyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai
- Sut y bydd y rhaglen gyfalaf yn cael ei hariannu yn 2022/23
- Effaith ar falansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

Disgwylir manylion y Setliad Terfynol ar gyfer cyllideb 2022/23 gan Lywodraeth Cymru ar 2 March, 2022.

**3. SGRIWTINI ARIANNOL – GOSOD CYLLIDEB 2022/23**

3.1 Mae sgriwtini ariannol yn llawer mwy nag ychwanegu gwerth at benderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor Gwaith. Mae'n ymwneud â sicrhau sgriwtini effeithiol o ran cynllunio, cyflawni a dilyn i fyny'r penderfyniadau allweddol hynny sy'n cael effaith ar drethdalwyr a chymunedau lleol. Dylai sgriwtini felly:

- Ddarparu her effeithiol
- Dal y rheini sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif; a
- Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i ddatblygu cyllideb gadarn ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**4 PANEL SGRIWTINI CYLLID**

4.1 Rhoddodd y Panel ystyriaeth i fanylion diweddaraf y cynigion cyllidebol yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr, 2022. Cyflwynwyd crynodeb o drafodaethau'r Panel yng nghyfarfod diwethaf y Pawyllgor Sgriwtini Corfforaethol[3].

**5 Y BROSES AR GYFER YMGYNGHORI Â'R CYHOEDD**

5.1 Bu i'r ymgynghoriad geisio barn trethdalwyr Ynys Môn ar y gyllideb gyfalaf arfaethedig. Gan fod y Setliad Cychwynnol wedi dod i law mor hwyr yn y flwyddyn, roedd yr amser ar gael i ymgynghori ar gynigion y Pwyllgor Gwaith yn fyr iawn.

5.2 Roedd y cyfnod ymgynghori ar gynigion cyllidebol cychwynnol y Pwyllgor Gwaith rhwng 26 Ionawr → 9 Chwefror, 2022 drwy wefan y Cyngor. Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad trwy gyfryngau cymdeithasol a datganiadau i'r wasg yn ystod y cyfnod hwn.

5.3 Derbyniwyd 115 o ymatebion gyda bron i 30% o ymatebwyr yn y grŵp oedran 55-64. Daeth ymatebion o bob rhan o Ynys Môn – Caergybi i Benllech, Cemaes i Borthaethwy, Amlwch i Falltraeth, Rhosneigr, Llanfechell a Choedana i enwi dim ond rhai.

5.4 Roedd 95% o'r ymatebion a dderbyniwyd naill ai gan unigolion yn gweithredu ar eu rhan eu hunain neu unigolion yn gweithredu ar ran eu teuluoedd.

5.5 O'r ymatebion hynny, roedd 45% yn cytuno â'r cynigion gwariant cyfalaf ar gyfer 2022/23, tra bod 55% yn anghytuno â'r gwariant cyfalaf arfaethedig ar gyfer y flwyddyn.

5.6 **CRYNODEB O'R CANLYNIAD**

Daeth 39 o sylwadau i law ynghylch anghytundeb pobl â'r gwariant cyfalaf arfaethedig. Roedd y rhain yn amrywiol a gellir nodi rhai ohonynt fel a ganlyn -

• Cytundeb y dylai rhai canolfannau ailgylchu / toiledau cyhoeddus gael eu huwchraddio gan rai, nododd eraill efallai mai'r peth gorau fyddai gwneud buddsoddiad o'r fath fesul cam neu allanoli toiledau cyhoeddus.

[3] Cyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 24 Ionawr, 2022

• Dylid gwario arian ar fentrau sy'n ymwneud â phriffyrdd, ffyrdd, mesurau tawelu traffig ac ati
• Buddsoddi mewn cyfleusterau ymwelwyr / gwasanaethau ychwanegol ar gyfer twristiaeth
• Anghytundeb gyda buddsoddiad Melin Llynnon
• Anghytundeb gyda chanopïau ysgol / addysgol

Mae trafodaeth bellach, manylach o'r sylwadau a dderbyniwyd yn **Atodiad 1**.

**6 MATERION SGRIWTINI ALLWEDDOL**

6.1 Mae proses gosod cyllideb 2022/23 yn rhoi cyfle i Aelodau Etholedig ystyried a herio goblygiadau'r gyllideb gyfalaf ddrafft ac unrhyw risgiau. Derbyniwyd mewnbwn hefyd trwy'r Panel Sgriwtini Cyllid sydd wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'r cynigion cyllidebol drafft. Yn y rhan hon o'r broses, gofynnir yn awr i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gytuno ar ymateb ffurfiol i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith[4] ar gynigion cyfalaf drafft terfynol y Cyngor ar gyfer cyllideb gyfalaf 2022/23 (gan ddefnyddio'r cwestiynau sgriwtini allweddol ym mharagraff 4 uchod).

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Adnabod yr angen am unrhyw asesiadau effaith nes ymlaen yn y broses o sefydlu'r gyllideb ar gyfer 2022/23. |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Adnabod yr angen am unrhyw asesiadau effaith nes ymlaen yn y broses o sefydlu'r gyllideb ar gyfer 2022/23. |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Adnabod yr angen am unrhyw asesiadau effaith nes ymlaen yn y broses o sefydlu'r gyllideb ar gyfer 2022/23. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Mae'r adroddiad hwn yn trafod y broses ar gyfer gosod cyllideb y Cyngor ar gyfer 2022/23, sy'n cynnwys ystyried y cynigion cyllideb cychwynnol ar gyfer y gyllideb gyfalaf. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| **ATODIAD 1:** adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) ar y cyllidebau cyfalaf arfaethedig ar gyfer 2022/23 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW. |

[4] Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 3 Mawrth, 2022

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **24 IONAWR 2022** |
| **Pwnc:** | **CYLLIDEB GYFALAF 2022/23 – CYNNIG CYCHWYNNOL** |
| **Deiliad(Deiliaid) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **R MARC JONES** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151**<br>**01248 752601**<br>**rmjfi@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amh** |

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

### 1. DIBEN YR ADRODDIAD

**1.1** Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith gynnig cyllideb gyfalaf ar gyfer 2022/23, a fydd yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor llawn i'w chymeradwyo yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2022.

### 2. ARGYMHELLION

**2.1** Argymell y rhaglen gyfalaf ganlynol ar gyfer 2022/23 i'r Cyngor llawn:-

| | Cyf | £'000 |
|---|---|---|
| Cynlluniau 2021/22 a Ddygwyd Ymlaen | Para 4.1 a Thabl 2 | 1,322 |
| Adnewyddu / Amnewid Asedau | Para 4.2. | 5,042 |
| Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd | Para 5.2 a Thabl 3 | 1,432 |
| Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (Wedi'u cyllido â chronfeydd wrth gefn a benthyca digefnogaeth) | Para 5.3 a Thabl 4 | 783 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif | Para 6 | 8,598 |
| Cyfrif Refeniw Tai | Para 7 | 18,784 |
| **Cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf a Argymhellir 2022/23** | | **35,961** |
| **Cyllidir gan:** | | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | | 1,486 |
| Benthyca â Chefnogaeth Cyffredinol | | 2,157 |
| Balansau Cyffredinol | | 1,681 |
| Benthyca â Chefnogaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif | | 1,168 |
| Benthyca Digefnogaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif | | 5,261 |
| Arian Wrth Gefn CRT a'r Gwarged yn ystod y Flwyddyn | | 10,099 |
| Benthyca Digefnogaeth CRT | | 6,000 |
| Derbyniadau Cyfalaf | | 600 |
| Grantiau Allanol | | 4,854 |
| Arian Wrth Gefn Glustnodedig | | 1,195 |
| Benthyca Digefnogaeth o'r Gronfa Gyffredinol | | 138 |
| Cyllid 2021/22 a Ddygwyd Ymlaen | | 1,322 |
| **2022/23 Cyfanswm Cyllid Cyfalaf** | | **35,961** |

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Mae nifer o gynlluniau ychwanegol i'w hystyried yn y rhaglen gyfalaf, a'r prif ffactor sy'n sbarduno'r cyllid yw fforddiadwyedd a manteisio i'r eithaf ar gyllid grant allanol. |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Dirprwyir y mater i'r Pwyllgor Gwaith i gynnig y gyllideb gyfalaf. |

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amh |

**DD– Asesu'r effaith bosibl (os yn berthnasol):**

| | | |
|---|---|---|
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys? | Mae'r gyllideb gyfalaf yn sicrhau cyllid i gynnal asedau'r Cyngor ac yn rhan o'r strategaeth i gyflawni'r amcanion a nodir yng nghynllun corfforaethol y Cyngor. |
| **2** | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut? | Bydd parhau i gynnal a chadw asedau'r Cyngor yn atal costau uwch yn y dyfodol. |
| **3** | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod â phwy. | Mae prosiectau cyfalaf mewn perthynas ag Ysgolion yr 21[ain] Ganrif a'r CRT yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru. |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan yn y gwaith o ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut. | Bydd y gyllideb gyfalaf yn destun ymgynghoriad ffurfiol ar y gyllideb cyn bod y Cyngor yn ei chymeradwyo'n derfynol ym Mawrth 2022. |
| **5** | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Mae'r gyllideb gyfalaf yn sicrhau cyllid i gynnal asedau'r Cyngor ac yn rhan o'r strategaeth i gyflawni'r amcanion A NODIR wedi'u nodi yng nghynllun corfforaethol y Cyngor. |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Heb ganfod dim. |
| **7** | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Heb ganfod dim. |

| E - | Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)**(gorfodol) | Sylwadau'r UDA wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151**(gorfodol) | Amh. – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r UDA ac mae unrhyw sylwadau wedi'u hystyried wrth drafod yr adroddiad hwn yn yr UDA. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Bydd unrhyw gynigion sy'n effeithio ar staff wedi cael eu nodi a'u trafod gyda'r Tîm AD. |
| 5 | **Eiddo** | Bydd unrhyw gynigion sy'n effeithio ar eiddo'r Cyngor a chyllidebau cysylltiedig wedi cael eu trafod gyda'r Tîm Eiddo. |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Bydd unrhyw gynigion sy'n effeithio ar systemau technoleg gwybodaeth y Cyngor a chyllidebau cysylltiedig wedi cael eu trafod gyda'r Tîm TGCh. |
| 7 | **Caffael** | I'w gadarnhau. |
| 8 | **Sgriwtini** | Mae'r cynigion yn berthnasol i'r holl Aelodau bob rheolwr. |
| 9 | **Cyrff allanol / eraill** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad 1 – Adroddiad ar Gyllideb Gyfalaf 2022/23
Atodiad 2 – Cyllideb Gyfalaf Arfaethedig 2022/23

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Adroddiad y Strategaeth Gyfalaf – Cyngor llawn 9 Mawrth 2021
Cyllideb Gyfalaf 2021/22 – Cyngor llawn 9 Mawrth 2021

**ATODIAD 1**

## CYLLIDEB GYFALAF DDRAFFT 2022/23

### 1. CYFLWYNIAD

**1.1.** Mae'r Gyllideb Gyfalaf ddrafft ar gyfer 2022/23, a nodir isod, yn ystyried yr egwyddorion a nodir yn y Strategaeth Gyfalaf a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Mawrth 2021 a'r Cyngor llawn ym mis Mawrth 2021.

### 2. EGWYDDORION Y STRATEGAETH GYFALAF

**2.1.** Cymeradwywyd y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2021/22 gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn a chaiff ei diweddaru ar gyfer 2022/23 i adlewyrchu'r lefelau cyllid newydd, unrhyw newidiadau ym mlaenoriaethau'r Cyngor ac unrhyw newidiadau a nodir yn Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2022/23, a gaiff eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn ym mis Mawrth 2022.

**2.2.** Mae'r Strategaeth Gyfalaf bresennol yn nodi'r egwyddorion canlynol ar gyfer y Cyngor wrth benderfynu ar ei raglen gyfalaf :-

- Bob blwyddyn bydd cyllid cyfalaf yn cael ei neilltuo i sicrhau y buddsoddir mewn asedau presennol i'w diogelu i'r dyfodol;
- Bydd y Cyngor yn gwneud y mwyaf o gyllid cyfalaf allanol lle bynnag y bo'n bosibl ac yn fforddiadwy;
- Bydd cyllid cyfalaf hefyd yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer asedau sydd eu hangen i helpu'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol;
- Mae'r Cyngor yn parhau i ymrwymo i'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif a bydd yn parhau i wneud defnydd llawn o'r cyllid allanol sydd ar gael trwy'r Rhaglen.

**2.3.** Aeth y strategaeth wedyn ymlaen i ddarparu ychydig mwy o wybodaeth ar sut y bydd yr egwyddorion hyn yn cael eu darparu a chafodd y pwyntiau allweddol canlynol eu cynnwys:-

- Bod rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif yn cael ei hystyried ar wahân i weddill y rhaglen gyfalaf gyffredinol;
- Bod amnewid asedau presennol neu asedau sydd wedi dod i ddiwedd eu hoes yn gostwng costau refeniw a bod swm yn cael ei neilltuo yn y rhaglen gyfalaf bob blwyddyn i wella, neu amnewid, offer TG presennol, cerbydau ac adeiladau'r Cyngor;
- Mae'n ofyniad statudol i gynnig grantiau cyfleusterau i'r anabl a bydd cyllid yn cael ei neilltuo bob blwyddyn yn y rhaglen gyfalaf i gydymffurfio â'r gofyniad hwn;
- Bydd swm yn cael ei neilltuo bob blwyddyn i gyllido gwelliannau ffyrdd. Bydd y swm yn dibynnu ar y cyllid sydd ei angen i sicrhau unrhyw werthoedd contract gofynnol, lefel y cyllid allanol a mewnol sydd ar gael ac asesiad o gyflwr ffyrdd yr Awdurdod;
- Bydd prosiectau sydd angen lefel o gyllid cyfatebol yn cael eu hasesu fesul achos, bydd y penderfyniad i ymrwymo cyllid ai peidio yn seiliedig ar sut mae'r prosiect yn cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, unrhyw oblygiadau refeniw parhaus a'r gymhareb o gyllid y Cyngor i'r cyllid allanol;
- Ni fydd prosiectau a gyllidir o fenthyca digefnogaeth ond yn cael eu cyflawni os yw'r gostyngiad mewn costau refeniw neu'r incwm uwch a gynhyrchir yn ddigon i dalu am y costau cyllido cyfalaf ychwanegol a grëir.

**2.4.** Mae'r Strategaeth Gyfalaf hefyd yn nodi sut y dylid sgorio unrhyw fid newydd, fel a ganlyn:-

- Pa mor agos y bydd y prosiect yn cyfrannu at flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol;
- A yw'r prosiect yn denu cyllid allanol sylweddol;
- A fydd y prosiect yn arwain at arbedion refeniw;
- A fydd y prosiect yn helpu i liniaru risg gorfforaethol.

## 3. CYLLIDO RHAGLEN GYFALAF 2022/23

**3.1.** Mae'r cyllid sydd ar gael i gyllido'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2022/23 i'w weld yn Nhabl 1 isod. Dylid nodi bod y ffigyrau ar gyfer y Grant Cyfalaf Cyffredinol a'r Benthyca Chefnogaeth yn seiliedig ar ffigyrau'r setliad Llywodraeth Leol dros dro. Ni fydd y ffigwr terfynol yn hysbys tan y cyhoeddir ffigyrau'r setliad terfynol ar 2 Mawrth 2022. Mae lefel y cyllid o dan y ddau bennawd wedi parhau yn gymharol gyson dros nifer o flynyddoedd a ni ragwelir y bydd newid sylweddol rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol.

**Tabl 1**
**Cyllid Cyfalaf a Ragwelir a fydd ar gael ar gyfer 2022/23**

| Ffynhonnell y Cyllid | £'000 | £'000 |
|---|---|---|
| **Rhaglen Gyfalaf y Gronfa Gyffredinol** | | |
| Cynlluniau/Cyllid a ddygwyd ymlaen o 2021/22 | 1,322 | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 1,486 | |
| Benthyca â Chefnogaeth | 2,157 | |
| Derbyniadau Cyfalaf | 600 | |
| Arian Cyfalaf Wrth Gefn | 250 | |
| Balansau Cyffredinol | 1,681 | |
| Arian Wrth Gefn Gwasanaethau | 110 | |
| Arian Wrth Gefn Clustnodedig | 835 | |
| Benthyca Digefnogaeth | 138 | |
| **Cyllid ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf Gyffredinol (Cronfa'r Cyngor)** | | **8,579** |
| **Ysgolion yr 21ain Ganrif** | | |
| Benthyca â Chefnogaeth | 1,168 | |
| Benthyca Digefnogaeth | 5,261 | |
| Grant Llywodraeth Cymru | 2,169 | |
| **Cyllid ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif** | | **8,598** |
| **Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** | | |
| Arian CRT wrth gefn | 3,080 | |
| CRT - Gwarged yn y flwyddyn | 7,019 | |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr Llywodraeth Cymru | 2,685 | |
| Benthyca Digefnogaeth | 6,000 | |
| **Cyllid ar gyfer CRT** | | **18,784** |
| | | |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2022/23** | | **35,961** |

**3.2.** £3.643m ydi'r Cyllid Cyfalaf Cyffredinol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2022/23. Nid oes llawer o gynnydd wedi bod yn y dyraniad cyfalaf cyffredinol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ers nifer o flynyddoedd gan fod cyllid cyfalaf ychwanegol wedi bod ar gael ar gyfer prosiectau penodol e.e. Ysgolion yr 21ain Ganrif. Os bydd y lefel yma o gyllid yn parhau yn 2023/24 a thu hwnt, bydd rhaglen gyfalaf y Cyngor wedi'i chyfyngu i adnewyddu ac amnewid asedau presennol neu bydd rhaid lleihau'r dyraniadau uchod er mwyn rhyddhau cyllid i gwrdd ag ymrwymiadau eraill. Fodd bynnag, ar gyfer 2022/23, mae'r grant cyfalaf cyffredinol wedi gostwng £677k o'i gymharu â'r cyllid a dderbyniwyd yn 2021/22.

**3.3.** Mae'r potensial ar gyfer unrhyw dderbyniadau cyfalaf sylweddol yn gyfyngedig gan fod y rhan fwyaf o unrhyw asedau sy'n weddill nad ydynt wedi'u gwerthu eisoes wedi'u clustnodi i gyllido prosiectau cyfalaf presennol neu brosiectau cyfalaf yn y dyfodol (Ysgolion yr 21ain Ganrif, gwelliannau hamdden a mân-ddaliadau).

**3.4.** Mewn blynyddoedd blaenorol, mae cyllid wedi bod ar gael o gronfa wrth gefn a glustnodwyd yn benodol i gyllido prosiectau cyfalaf. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, defnyddiwyd y gronfa hon fel ffynhonnell gyllido ond mae'r balans wedi gostwng yn sylweddol a bydd y balans sy'n weddill yn cael ei gadw i gyllido unrhyw waith cyfalaf brys a allai godi yn ystod y flwyddyn neu i ddarparu cyllid cyfatebol pe bai'r cynnig o gyllid grant sylweddol yn cael ei dderbyn yn ystod y flwyddyn a oedd yn gofyn am swm bach o gyllid cyfatebol.

**3.5.** Mae cyllid y CRT wedi'i glustnodi ar gyfer prosiectau CRT yn unig ac ni ellir ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw brosiectau eraill. Mae'r cynllun yn caniatáu defnyddio £3.080m yn 2022/23, gan adael £1.5m fel yr arian wrth gefn parhaus. Mae hyn yn unol â Chynllun Busnes y CRT sydd wedi'i gymeradwyo'n flaenorol gan y Cyngor.

## 4. RHAGLEN GYFALAF DDRAFFT (Cynlluniau a Ymrwymwyd)

### 4.1. Cynlluniau 2021/22 a Ddygwyd Ymlaen

Ni fydd y cynlluniau canlynol yn cael eu cwblhau yn 2021/22 a byddant yn cael eu dwyn ymlaen i 2022/23:-

**Tabl 2**
**Cynlluniau 2021/22 a Ddygwyd Ymlaen**

| Cynlluniau 2021/22 a Ddygwyd Ymlaen | 2022/23 £'000 |
|---|---|
| Penrhos - Cyfnod 2 | 493 |
| Porth Twristiaeth | 170 |
| Partneriaeth Tirwedd Caergybi | 190 |
| Adfywio Caergybi (Cyfnod II y Fenter Treflun Treftadaeth) | 350 |
| Porth Llangefni – Menter ar y Cyd | 119 |
| **Cyfanswm y Cynlluniau a Ddygwyd Ymlaen** | **1,322** |

### 4.2. Adnewyddu/Amnewid Asedau Presennol

**4.2.1** Bob blwyddyn, neilltuir symiau yn y rhaglen gyfalaf er mwyn cynnal, uwchraddio neu amnewid asedau presennol. Mae'r symiau a neilltuwyd wedi'u hadolygu gan y Tîm Cyllid mewn ymgynghoriad â'r gwasanaeth perthnasol ac argymhellir y symiau canlynol ar gyfer 2022/23:-

- **Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFGs) -** Mewn blynyddoedd blaenorol neilltuwyd £750k ac ategwyd hyn yn ystod y 3 blynedd diwethaf drwy ddefnyddio grantiau'r Gronfa Gofal Canolraddol. Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi nodi na fydd yn bosibl defnyddio grant y Gronfa Gofal Canolraddol i ychwanegu at y gyllideb graidd mwyach ac, o'r herwydd, bydd angen cyllideb graidd o £750k yn 2022/23 i gwrdd â'r galw am waith addasu.

- **Adnewyddu Ysgolion** – Mae'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw sydd angen ei wneud mewn ysgolion yn sylweddol ac ni ellir ei gyllido yn y tymor byr i'r tymor ganol. Er y gall rhywfaint o hyn gael ei liniaru gan raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, mae angen gwneud rhywfaint o waith brys ar adeiladau nad yw'r rhaglen hon yn effeithio arnynt o hyd. Mae'r Tîm Gwasanaethau Eiddo wedi nodi'r gwaith brys pennaf y dylid defnyddio'r dyraniad arferol o £1m arno. Fodd bynnag, yn ddelfrydol, mae angen i'r swm y gellir ei wario ar ysgolion gael ei wneud dros gyfnodau gwyliau er mwyn osgoi risgiau iechyd a diogelwch a tharfu ar ysgolion. Mae hyn yn golygu bod angen dechrau rhai prosiectau tymor hir nawr fel y gellir eu cwblhau cyn i risgiau difrifol godi. Mae ysgolion uwchradd yn arbennig mewn cyflwr gwael iawn ac mae angen buddsoddiad sylweddol arnynt. Fodd bynnag, mae rhai materion adeiladu yn hollbwysig ac ni allant aros am raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Yn ddelfrydol, dylai'r Awdurdod neilltuo tua £2.5m y flwyddyn.

- **Adnewyddu Adeiladau heblaw Ysgolion –** Unwaith eto, nodwyd ôl-groniad o waith y mae angen ei wneud yn swyddfeydd y Cyngor, cartrefi preswyl, cyfleusterau gofal dydd, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden ac nid oes digon o gyllid i wneud y gwaith hwn mewn un flwyddyn. Neilltuwyd £600k yn y flwyddyn flaenorol a bydd y lefel hon o gyllid yn ddigonol i dalu cost y rhan fwyaf o'r gwaith blaenoriaeth y mae angen ei wneud ond, yn 2022/23, mae £100k yn ychwanegol wedi'i neilltuo, gan ddod â chyfanswm y gyllideb i £700k.

  **Ail-wynebu Priffyrdd** - Mae'r Adroddiad Statws ac Opsiwn Blynyddol yn cadarnhau bod angen cyllideb flynyddol o £2m er mwyn cynnal cyflwr Cyflwr Sefydlog (Ataliol) ein ffyrdd. Byddai cyllideb sy'n is na'r swm gofynnol hwn yn anochel yn arwain at lai o effeithlonrwydd a gwerth gorau am arian a chostau ychwanegol i'r Awdurdod Priffyrdd gyda mwy o arian yn cael ei wario ar waith brys a hefyd y risg y bydd mwy o hawliadau trydydd parti yn cael eu gwneud yn erbyn yr Awdurdod. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn cydnabod pwysigrwydd parhau i fuddsoddi yn rhwydwaith ffyrdd y Cyngor, ond y mae hefyd yn cydnabod bod £2m yn gyfran sylweddol o gyllid cyfalaf craidd y Cyngor ac y bydd yn anodd dyrannu'r swm yma bob blwyddyn. Cynigir defnyddio £2m o gyllid cyfalaf craidd y Cyngor, yn cynnwys defnyddio £1.110m o Falansau Cyffredinol y Cyngor.

- **Cerbydau -** Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddod yn sefydliad carbon niwtral erbyn 2030 ac, er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw, mae'n rhaid i'r Cyngor leihau nifer y cerbydau petrol a disel sydd yn ei feddiant. Neilltuir £200k o gronfa wrth gefn clustnodedig i gyllido prosiectau sydd wedi'u dylunio i leihau ôl-troed carbon y Cyngor. Bydd hyn yn ein galluogi i brynu cerbydau trydan. Dyrennir £100k yn ychwanegol i barhau i amnewid cerbydau graenu'r Cyngor.

  **Asedau TG –** Mae angen buddsoddiad parhaus i gynnal isadeiledd craidd y Cyngor ac i amnewid dyfeisiau a ddefnyddir gan staff i gael mynediad at systemau. Nodwyd bod angen swm o £171k i gynnal yr isadeiledd craidd, a bod angen £121k ar gyfer dyfeisiau bwrdd gwaith.

## 5. BIDIAU ERAILL AM GYLLID YCHWANEGOL

**5.1.** Gofynnwyd i'r gwasanaethau gyflwyno bidiau am gyllid cyfalaf. Aseswyd y bidiau hyn gan y Tîm Cyllid, ac yna fe'u gosodwyd yn nhrefn blaenoriaeth gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Ac eithrio'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Cyfrif Refeniw Tai, cyfanswm y cyllid craidd cyffredinol a oedd ar gael, gan gynnwys arian wrth gefn clustnodedig a balansau cyffredinol, ar gyfer 2022/23 oedd £7.257m, ac mae angen £5.042m ar gyfer yr uchod, gan adael £2.215m i gyllido unrhyw brosiectau untro newydd.

**5.2.** Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi adolygu'r bidiau am gyllid ac argymhellir y dylid cynnwys y prosiectau canlynol yn rhaglen gyfalaf 2022/23 (gweler Tabl 3 isod):-

**Tabl 3**
**Prosiectau Cyfalaf Untro a Argymhellir eu Cyllido yn 2022/23**

| Teitl y Prosiect | Disgrifiad | Swm a Argymhellir £'000 |
|---|---|---|
| Prosiectau Llesiant Amgylcheddol a Datblygu Economaidd | Arian cyfatebol i'w ddefnyddio pan fydd cyllid grant ar gael. | 100 |
| Diweddaru Toiledau Cyhoeddus | Rhaglen waith i ddiweddaru nifer o doiledau cyhoeddus ar yr Ynys. Cyflwynir adroddiad ar y cynllun manwl i'r Pwyllgor Gwaith maes o law. £100k o'r gost i'w gyllido gydag arian wrth gefn o gronfeydd y gwasanaeth Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff. | 480 |
| Cynlluniau Atal Llifogydd | Darparu cyllid cyfatebol (15%) ar gyfer cynlluniau ar raddfa fach a hefyd darparu cyllid cyfatebol (15%) ar gyfer cynlluniau mawr wedi'u blaenoriaethu er mwyn denu cyllid grant Llywodraeth Cymru (LlC). Felly, byddai grant LlC yn dod i gyfanswm o £1.592m. | 281 |
| Canopïau allanol mewn 3 Ysgol Uwchradd | Bydd y canopïau'n darparu mwy o le i blant eistedd i fwyta eu cinio. Cyllidir y prosiect o falensau cyffredinol. | 371 |
| Seilwaith Morwrol | Byddai'r cyllid yn caniatáu i waith gael ei wneud ar y pontydd cychod yn harbwr Amlwch a Phier San Siôr ym Mhorthaethwy. Cyllidir y prosiect o falensau cyffredinol. | 200 |
| **CYFANSWM BIDIAU NEWYDD AM GYLLID CYFALAF YN 2022/23** | | **1,432** |

**5.3** Daw'r £0.783m sy'n weddill o gyllid o gronfeydd wrth gefn clustnodedig, cronfeydd wrth gefn gwasanaeth a benthyca digefnogaeth. Dangosir y prosiectau a argymhellir yn Nhabl 4 isod:-

**Tabl 4**

**Prosiectau i'w Cyllido o Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig, Cronfeydd Wrth Gefn Gwasanaethau a Benthyca Digefnogaeth**

| Teitl y Prosiect | Disgrifiad | Swm a Argymhellir £'000 |
|---|---|---|
| Seilwaith Arfordirol | Bydd y cyllid yn gwella nifer o safleoedd yn cynnwys gwella llwybrau troed, sicrhau gwell mynediad, gwella llwybrau beicio a darparu pwyntiau gwefru i gerbydau trydan. Cyllidir y gost drwy'r gronfa i gyllido'r prosiectau sy'n lleihau ôl-troed carbon y Cyngor. | 200 |
| Atgyweirio Melin Llynnon | Er mai unigolyn preifat sy'n rheoli'r felin erbyn hyn, ni ellir ymrwymo i brydles tymor hir hyd nes y bydd y gwaith atgyweirio wedi'i gwblhau er mwyn i'r felin fod yn weithredol. Mae gan y Cyngor gronfa wedi'i chlustnodi ar gyfer y gwaith, ond bydd angen cyllid pellach o gronfa wrth gefn y Gwasanaeth Addysg a thrwy fenthyca digefnogaeth. Bydd yr incwm ychwanegol a gynhyrchir drwy'r brydles yn cyllido costau cyllido cyfalaf blynyddol y benthyca digefnogaeth. | 103 |
| Rhaglen Barhaus Uwchraddio Offer Ailgylchu | Mae angen offer newydd yng nghanolfan ailgylchu'r Cyngor a chyllidir y gost drwy gronfa ailgylchu benodol. | 380 |
| Offer Ffitrwydd yng Nghanolfan Hamdden David Hughes | Rhoddodd y Cyngor brosiect ar waith i ddiweddaru'r offer ffitrwydd yn ei 4 Canolfan Hamdden a dyma'r uwchraddiad terfynol. Fel yn achos yr uwchraddiadau blaenorol, cyllidir y gost drwy fenthyca digefnogaeth, a chyllidir ac y costau cyllido cyfalaf drwy'r incwm ychwanegol a gynhyrchir. Mae profiad y 3 canolfan hamdden arall yn dangos bod hwn yn opsiwn cyllido dichonadwy. | 100 |
| **CYFANSWM BIDIAU NEWYDD AM GYLLID CYFALAF YN 2022/23 I'W GYLLIDO O GRONFEYDD WRTH GEFN A BENTHYCA DIGEFNOGAETH** | | **783** |

## 6. YSGOLION YR 21ain GANRIF

**6.1.** O ganlyniad i'r cyllid sylweddol y bydd y cynlluniau'n ei ddenu gan Lywodraeth Cymru a'r angen i foderneiddio'r ystad ysgolion bresennol, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gyllido'r cynlluniau hyn drwy'r defnydd o fenthyca digefnogaeth a'r derbyniadau cyfalaf yn sgil gwerthu hen safleoedd ysgolion. Mae Rhaglen Gyfalaf 2022/23 yn golygu y gellir cwblhau prosiectau Band A (ysgol newydd Ysgol Corn Hir) a chychwyn prosiectau Band B (estyniad i Ysgol y Graig).

**6.2.** Amcangyfrifir mai cost y rhaglen yn 2022/23 yw £8.598m (yn net o unrhyw dderbyniadau cyfalaf), a fydd yn cael ei gyllido drwy grant o £2.169m gan Lywodraeth Cymru, £1.1.68m o fenthyca â chefnogaeth a £5.261m o fenthyca digefnogaeth.

## 7. CYFRIF REFENIW TAI

**7.1.** Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn gyfrif wedi'i glustnodi o ran gwariant refeniw a chyfalaf. Bydd y rhaglen arfaethedig ar gyfer 2022/23 yn parhau i fuddsoddi yn y stoc bresennol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â safonau SATC, gyda £9.555m yn cael ei fuddsoddi. Bydd £9.229m pellach yn cael ei wario ar ddatblygu eiddo newydd ac mewn prynu eiddo hawl i brynu yn ôl.

**7.2.** Bydd y rhaglen yn cael ei gyllido drwy: Arian Wrth Gefn y CRT (£3.080m), gwarged y refeniw a grëwyd yn 2022/23 (£7.019m), grantiau Llywodraeth Cymru (£2.685m) a benthyca digefnogaeth newydd (£6.000m).

**7.3.** Nodir manylion y rhaglen buddsoddiadau tymor hir, a'r modd y caiff ei gyllido dros y 30 mlynedd nesaf, yng nghynllun busnes y Cyfrif Refeniw Tai a gyflwynir i'r Pwyllgor Gwaith maes o law.

## 8. CRYNODEB O'R RHAGLEN GYFALAF A ARGYMHELLIR 2022/23

**8.1.** Ceir crynodeb o'r rhaglen gyfalaf a argymhellir ar gyfer 2022/23 yn Nhabl 6 isod a cheir dadansoddiad manylach yn Atodiad 2.

**Tabl 6**

**Crynodeb o'r Rhaglen Cyfalaf a Argymhellir 2022/23**

| | **Cyf** | **£'000** |
|---|---|---|
| Cynlluniau 2021/22 a Ddygwyd Ymlaen | Para 4.1 a Thabl 2 | 1,322 |
| Adnewyddu/Amnewid Asedau | Para 4.2. | 5,042 |
| Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd | Para 5.2 a Thabl 3 | 1,432 |
| Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (I'w cyllido drwy Gronfeydd Wrth Gefn a Benthyca Digymorth) | Para 5.3 a Thabl 4 | 783 |
| Ysgolion y 21ain Ganrif | Para 6 | 8,598 |
| Cyfrif Refeniw Tai | Para 7 | 18,784 |
| **Cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf a Argymhellir 2022/23** | | **35,961** |
| **Cyllidir drwy:** | | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | | 1,486 |
| Benthyca â Chymorth Cyffredinol | | 2,157 |
| Balansau Cyffredinol | | 1,681 |
| Benthyca â Chymorth Ysgolion yr 21ain Ganrif | | 1,168 |
| Benthyca Digymorth Ysgolion yr 21ain Ganrif | | 5,261 |
| Arian HRA Wrth Gefn a'r Gwarged yn ystod y flwyddyn | | 10,099 |
| Benthyca Digymorth HRA | | 6,000 |
| Derbynebau Cyfalaf | | 600 |
| Grantiau Allanol | | 4,854 |
| Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi | | 1,195 |
| Benthyca Digymorth Cronfa Gyffredinol | | 138 |
| Cyllid 2021/22 a Ddygwyd Ymlaen | | 1,322 |
| **2022/23 Cyfanswm Cyllid Cyfalaf** | | **35,961** |

**ATODIAD 2**

## CYLLIDEB CYFALAF ARFAETHEDIG 2022/23

| Cynllun | Cyllideb £'000 | Grantiau Allanol £'000 | Grant Cyfalaf Cyffredinol £'000 | Benthyca â Chefnogaeth £'000 | Benthyca Digefnogaeth £'000 | Arian Wrth Gefn CRT £'000 | Arian Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £'000 | Arian Wrth Gefn Glustnodedig £'000 | Balansau Cyffredinol £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynlluniau 2021/22 a Ddygwyd Ymlaen** | | | | | | | | | |
| Penrhos Cyfnod 2 | 493 | 493 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Porth Llangefni – Menter ar y Cyd | 119 | 119 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Porth Twristiaeth | 170 | 170 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Partneriaeth Tirwedd Caergybi | 190 | 190 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Adfywio Caergybi (Cyfnod II FTT) | 350 | 350 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cynlluniau 2021/22 a Ddygwyd Ymlaen** | **1,322** | **1,322** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | |
| **Adnewyddu/Amnewid Asedau Presennol** | | | | | | | | | |
| Grant Cyfleusterau i'r Anabl | 750 | 0 | 750 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Ysgolion | 1,000 | 0 | 0 | 1,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Adeiladau Heblaw Ysgolion | 700 | 0 | 450 | 0 | 0 | 0 | 0 | 250 | 0 |
| Ail-wynebu Priffyrdd | 2,000 | 0 | 14 | 876 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,110 |
| Cerbydau | 300 | 0 | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 | 200 | 0 |
| Asedau T.G. | 292 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 292 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Adnewyddu/Amnewid Asedau Presennol** | **5,042** | **0** | **1,314** | **1,876** | **0** | **0** | **292** | **450** | **1,110** |
| | | | | | | | | | |
| **Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd** | | | | | | | | | |
| Cynlluniau Atal Llifogydd | 281 | 0 | 0 | 281 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Datblygu Economaidd – Arian Cyfatebol | 100 | 0 | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Uwchraddio Toiledau Cyhoeddus | 480 | 0 | 72 | 0 | 0 | 0 | 308 | 100 | 0 |
| Canopïau allanol mewn 3 Ysgol Uwchradd | 371 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 371 |
| Seilwaith Morwrol | 200 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 200 |
| **Cyfanswm Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd** | **1,432** | **0** | **172** | **281** | **0** | **0** | **308** | **100** | **571** |

| Cynllun | Cyllideb £'000 | Grantiau Allanol £'000 | Grant Cyfalaf Cyffredinol £'000 | Benthyca â Chefnogaeth £'000 | Benthyca Digefnogaeth £'000 | Arian Wrth Gefn CRT £'000 | Arian Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £'000 | Arian Wrth Gefn Glustnodedig £'000 | Balansau Cyffredinol £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Prosiectau Cyfalaf Untro Eraill (Ariennir gan Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig, Cronfeydd Wrth Gefn Gwasanaethau & Benthyca Digefnogaeth)** | | | | | | | | | |
| Seilwaith Arfordirol | 200 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 200 | 0 |
| Atgyweirio Melin Llynnon | 103 | 0 | 0 | 0 | 38 | 0 | 0 | 65 | 0 |
| Uwchraddio Offer Ailgylchu Gwastraff | 380 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 380 | 0 |
| Offer Ffitrwydd – Canolfan David Hughes | 100 | 0 | 0 | 0 | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Prosiectau Cyfalaf Untro Eraill** | **783** | **0** | **0** | **0** | **138** | **0** | **0** | **645** | **0** |
| | | | | | | | | | |
| **Ysgolion yr 21ain Ganrif** | | | | | | | | | |
| Band A | 3,768 | 0 | 0 | 0 | 3,768 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Band B | 4,830 | 2,169 | 0 | 1,168 | 1,493 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Ysgolion yr 21ain Ganrif** | **8,598** | **2,169** | **0** | **1,168** | **5,261** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM GRONFA CYFFREDINOL** | **17,177** | **3,491** | **1,486** | **3,325** | **5,399** | **0** | **600** | **1,195** | **1,681** |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfrif Refeniw Tai** | | | | | | | | | |
| Rhaglen Cynnal a Chadw Cynlluniedig SATC | 9,555 | 2,685 | 0 | 0 | 0 | 6,870 | 0 | 0 | 0 |
| Datblygiadau Newydd ac Ail-Brynu Eiddo Hawl i Brynu | 9,229 | 0 | 0 | 0 | 6,000 | 3,229 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM CYFRIF REFENIW TAI** | **18,784** | **2,685** | **0** | **0** | **6,000** | **10,099** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM RHAGLEN CYFALAF 2022/23** | **35,961** | **6,176** | **1,486** | **3,325** | **11,399** | **10,099** | **600** | **1,195** | **1,681** |

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**<u>Templed Adroddiad Sgriwtini</u>** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **28 Chwefror, 2022** |
| **Pwnc:** | **Cynllun Tuag at Sero-Net** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Rhoi trefniadau mewn lle ar gyfer sefydlu a mabwysiadu 'Cynllun Tuag at Carbon Sero Net Cyngor Sir Ynys Môn 2022-2025'** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cynghorydd Aled Morris Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Arweinydd Newid Hinsawdd)** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dylan Williams, Dirprwy Brif Weithredwr** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Rhys Alun Williams – Rheolwr Newid Hinsawdd**<br><br>**Rhyswilliams3@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini.** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol argymell y Cynllun Sero-Net i'r Pwyllgor Gwaith i'w gymeradwyo a'i fabwysiadu gan y Cyngor Llawn ar 10 Mawrth, 2022 |

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Maer Cynllun Sero-Net yn gysylltiedig ag amcan 3 yng nghynllun y Cyngor 2017-22 :

- *Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol.*

Mae Cynllun Sero-Net hefyd yn alinio ag amcan A ac C yng nghynllun y Trosiannol y Cyngor 2022-23 :

i. *Amcan A - Adfywio'r economi leol ac ymgorffori newidiadau economaidd positif*
ii. *Amcan C - Cynnal a moderneiddio gwasanaethau cymunedol critigol megis Gofal ac Addysg ledled yr Ynys*

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

i. I ba raddau mae'r cynllun sero-net yn gosod cyfeiriad strategol pendant a chadarn i'r Cyngor Sir gyflawni ei ymrwymiad erbyn 2030?

ii. Pa heriau a risgiau sy'n wynebu'r Cyngor wrth weithio i fod yn sefydliad sero-net ?

iii. A oes bylchau amlwg yn y cynllun neu feysydd sydd angen sylw pellach?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**1. Cefndir**

1.1. Cyhoeddodd Cyngor Sir Ynys Môn argyfwng hinsawdd yn Medi 2020 gan ymrwymo'r Cyngor i fod yn sefydliad Carbon Niwtral erbyn 2030.

1.2. Ymhellach cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ar Fawrth 22, 2021. Bu'r adroddiad amlygu'r angen i ymateb i newid hinsawdd wrth gydgysylltu a rhaglennu ei'n ymdrechion fel sefydliad er mwyn cyrraedd ein nod yn 2030.

1.3. Yno, bu'r Pwyllgor Gwaith cymeradwyo'r argymhellion i ddatblygu Rhaglen Newid Hinsawdd gorfforaethol, i recriwtio Rheolwr Newid Hinsawdd a phenodi 'Hyrwyddwr Newid Hinsawdd' ar y Pwyllgor Gwaith.

1.4. Targed y sector gyhoeddus Gymreig yw cyrraedd carbon sero-net erbyn 2030 h.y. sicrhau bod holl allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi ei leihau gymaint â phosib. Mi fydd yr allyriadau yn weddill wedi eu gwrth bwyso gan gamau i dynnu carbon allan o'r atmosffer.

1.5. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i roi arweinyddiaeth leol ar yr Ynys, ac i weithredu'n gorfforaethol i gyflawni newidiadau pendant fel bod modd pontio'n effeithiol i fod yn sefydliad sero-net. Er bod rhai penderfyniadau a chamau gweithredu o fewn rheolaeth yr awdurdod, bydd angen cymorth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer rhai eraill ac adnoddau ychwanegol i'w cydlynu, eu datblygu a'u cyflawni.

1.6. Er mwyn gwireddu'r amcan mae'n hanfodol cael cynllun clir, dull corfforaethol, gwaelodlin gynhwysfawr, trefniadau monitro cadarn a rolau a chyfrifoldebau diffiniedig

i geisio manteisio i'r eithaf ac atgyfnerthu gwaith cyfredol i drawsnewid i fod yn sero net carbon erbyn 2030.

**2. Llwyddiant hyd at heddiw.**

2.1. Fel nodwyd yn y Cynllun Tuag at Sero Net (atodiad A) mae'r Cyngor yn ddiweddar wedi llwyddo i gyflawni sawl elfen a newid positif yn barod:

- Strategaeth Effeithlonrwydd ynni 2017-22 wedi cyflawni lleihad 18% mewn defnydd ynni'r Cyngor
- Cynllun ReFit wedi gweld buddsoddiad mwyaf y Cyngor (£2.4M) i leihau defnydd ynni drwy osod paneli solar, goleuadau LED ac uwchraddio systemau gwresogi yn ein hasedau
- Cyngor wedi cychwyn trosi fflyd i gerbydau trydanol
- Newid goleuadau stryd wedi eu haddasu i ddefnyddio lampau LED ac wedi lleihau defnydd ynni ar draws rhwydwaith ffordd yr Ynys.
- Pencampwr Newid Hinsawdd wedi ei benodi o fewn y Pwyllgor Gwaith
- Rheolwr Newid Hinsawdd wedi ei benodi

**3. Cynllun Tuag at Sero Net**

3.1. Mae'r Cynllun arfaethedig yn cynrychioli'r cam gyntaf yn y siwrne i draws newid y Cyngor i sefydliad carbon sero net. Ynghyd ag adeiladu ar lwyddiannau diweddar a chydlynu cynlluniau eisoes ar waith, mi fydd y Cynllun yn gweithredu prosiectau o'r newydd fydd yn arwain at leihad yn ein hallyriadau carbon.

3.2. Mae'r prosiectau ag ymyraethau'r Cynllun wedi ei dosbarthu o fewn 5 brif raglen gweithredu.

- Lleihau Defnydd Ynni ac Effeithlonrwydd Ynni - Lleihau defnydd ynni ag effeithlonrwydd ynni ar draws portffolio ein portffolio asedau
- Trafnidiaeth - Lleihau allyriadau'r Cyngor drwy ddatblygu opsiynau trafnidiaeth garbon isel ar draws Ynys Môn
- Defnydd Tir & Bioamrywiaeth - Lleihau allyriadau carbon drwy brosiectau carbon positif
- Addasiadau Sefydliadol – Lleihau allyriadau'r Cyngor wrth addasu a newid y ffordd mae'n gweithio
- Llywodraethiant, Data, Monitro ag Adrodd - Sicrhau bod trefniadau llywodraethant, rheolaeth a chasglu data ag atebolrwydd mewn lle i gefnogi llwyddiant y cynllun.

3.3. Er mwyn cyflawni'r cynllun, mi fydd cynllun cyflawni blynyddol, targedau, a fframwaith monitro ac adrodd yn cael ei fabwysiadu. Y cam nesaf fydd sefydlu gwaelodlin manwl a chyflawn, gyda systemau rheolaeth data

3.4. Mi fydd gofynion adnoddau ariannol a phersonél i gyflawni'r newidiadau yn sylweddol dros y cyfnod i ddod. Bydd angen i'r Cyngor fanteisio ar gyfleoedd cyllido (grantiau a benthyciadau) fydd ar gael er mwyn bwrw ymlaen gyda chynlluniau a rhaglenni dros y blynyddoedd i ddod.

| 6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg] |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |

| |
|---|
| Ble'n briodol, bydd asesiad effaith manwl ar grwpiau a warchodir yn cael ei gynnal fel rhan annatod o'r gwaith paratoi gweithredu rhaglenni'r Cynllun. |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Ble'n briodol, bydd asesiad effaith manwl yn cael ei gynnal fel rhan annatod o'r gwaith paratoi gweithredu rhaglenni'r Cynllun. |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Ble'n briodol, bydd asesiad effaith manwl yn cael ei gynnal fel rhan annatod o'r gwaith paratoi gweithredu rhaglenni'r Cynllun. |
| |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Bydd ystyriaeth fanwl i unrhyw oblygiadau ariannol wrth gynllunio, paratoi prosiectau a chynlluniau unigol o fewn meysydd Rhaglen y Cynllun. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Atodiad A – Drafft Cynllun Tuag at Sero-Net 2022-25 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| |

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Cynllun Tuag at Sero Net
# 2022 – 2025

# Rhagair

Arweinydd y Cyngor – Y Cynghorydd Llinos Medi Huws

Pencampwr Newid Hinsawdd – Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas

DRAFT

## Pam mae angen y Cynllun Sero Net?

Her fyd-eang fwyaf ein hoes ac i genedlaethau'r dyfodol yw newid hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys Ynys Môn, ei phreswylwyr, ei hymwelwyr a'i chymunedau.

Mae newid hinsawdd yn effeithio ar bob un ohonom – mae'n mynd y tu hwnt i wahaniaethau gwleidyddol a ffiniau cymdeithasol. Rydyn ni eisoes yn gweld ei effaith ar y bobl fwyaf bregus mewn cymunedau ar draws Cymru ac ym mhedwar ban byd.

Mae allyriadau carbon sydd wedi cael eu rhyddhau i'r atmosffer eisoes wedi arwain at godi tymheredd byd-eang. Os na fyddwn yn lleihau allyriadau carbon, bydd tymheredd y Ddaear yn dal i godi'n sylweddol. Bydd hyn yn golygu bod hinsawdd a thywydd yn newid ar draws y byd – gan gynnwys yma ar Ynys Môn (e.e. llifogydd a stormydd trychinebus ).

I ymateb i'r her Newid Hinsawdd, penderfynodd Cyngor Sir Ynys Môn ('y Cyngor') yn unfrydol ar 8 Medi 2020, gyhoeddi argyfwng hinsawdd.

Yn dilyn hyn, ymrwymodd yr awdurdod i fod yn garbon-niwtral erbyn 2030. I sicrhau ein bod yn cyrraedd yr amcan yma, bydd angen gwneud penderfyniadau, cyfaddawdau a dewisiadau anodd

Bydd Cynllun Sero Net 2022-2025 yn amlinellu'r camau bydd y Cyngor yn eu cymryd ar frys wrth iddo barhau i drawsnewid i fod yn Sero Net.

Bydd angen i'r Cyngor foderneiddio'n sylweddol a chyflwyno newidiadau trawsnewidiol, er enghraifft:

- sut rydyn ni'n gweithio
- sut rydyn ni'n dewis pa nwyddau a gwasanaethau i'w prynu
- sut rydyn ni'n defnyddio ein tir, ein hadeiladau, ein hasedau a'n technoleg
- sut rydyn ni'n defnyddio ein trafnidiaeth
- sut rydyn ni'n darparu gwasanaethau i'n preswylwyr.

Bydd y Cynllun Sero Net yn un o brif gynlluniau strategol y Cyngor. Bydd yn cyd-fynd â Chynllun y Cyngor a strategaethau, cynlluniau a dogfennau eraill y Cyngor.

DRAFT

## Nod ac Amcanion

**Nod y Cynllun Sero Net yw:**

**"Moderneiddio ac addasu i fod yn Gyngor Sero Net erbyn 2030"**

**Byddwn yn cyrraedd y nod hwn drwy gyflawni'r amcanion canlynol:**

1. **Lleihau faint o ynni sy'n cael ei ddefnyddio gan adeiladau ac asedau'r Cyngor a datgarboneiddio'r ynni hwnnw**
2. **Parhau i ddarparu gwasanaethau'r Cyngor wrth leihau allyriadau carbon o'n cerbydau a'n harferion gweithio**
3. **Gwella bioamrywiaeth a faint o goed sydd ar dir ac asedau'r Cyngor**
4. **Hwyluso datblygu prosiectau ynni carbon isel newydd**
5. **Addasu polisïau, prosesau, diwylliant, gwerthoedd ac ymddygiad (staff ac aelodau etholedig y Cyngor)**
6. **Deall cyfanswm ôl-troed carbon y Cyngor a sefydlu trefniadau monitro ac adrodd effeithiol ac effeithlon.**

Mae'r Cynllun hwn yn canolbwyntio ar leihau allyriadau'r Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod ei rôl bwysig fel arweinydd lleol drwy gydweithredu â chyrff eraill ynghyd â busnesau, cymunedau a phreswylwyr ar draws yr Ynys. Wrth i ddeddfau a pholisïau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol gael eu diweddaru i ymateb i'r argyfwng hinsawdd, bydd y Cyngor yn ystyried ac yn addasu ei ffordd o weithio. Gallai hyn fod drwy wneud newidiadau angenrheidiol i'r broses cynllunio defnydd tir, gwasanaethau trafnidiaeth, addysg a gofal, casgliadau ailgylchu, neu feysydd gwasanaeth eraill.

## Y Cyd-destun

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud Cymru'n garbon-niwtral erbyn 2050, a'r sector cyhoeddus (gan gynnwys awdurdodau lleol) erbyn 2030.

Gyda'i gilydd, mae:

- Deddf Newid Hinsawdd y DU (2008)
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

yn rhoi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gweithredu ar newid hinsawdd a rheoli adnoddau naturiol Cymru'n gynaliadwy. Mae strategaethau a fframweithiau ar gael i ategu pob un.

Ym mis Gorffennaf 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Statws carbon sero net erbyn 2030 – trywydd ar gyfer datgarboneiddio ar draws sector cyhoeddus Cymru'.

Yn ôl gweledigaeth y ddogfen *'erbyn 2030, bydd dewisiadau di-garbon yn rhan o'r drefn arferol...wedi ymwreiddio yn ein diwylliant ac yn cael eu hunan-reoleiddio ar draws sector cyhoeddus Cymru'.* Bydd dull gweithredu, blaenoriaethau a thaith trawsnewid y cyngor yn cael eu siapio a'u dylanwadu gan hyn.

Mae Cynllun Sero Net Cyllideb Carbon 2 (2021-2025), Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi nifer o ymrwymiadau pwysig i awdurdodau lleol ar gyfer adeiladau, caffael, defnydd tir, symudedd a thrafnidiaeth. Maen nhw'n cynnwys:

Formatted: Highlight

- ✓ Mae gan bob awdurdod lleol gynlluniau gweithredu datgarboneiddio byw ar waith, a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd gan rannu gwersi i'w dysgu ac arferion gorau drwy raglen gymorth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Caiff yr adolygiad cyntaf ei gwblhau erbyn diwedd 2021
- ✓ O 2021 ymlaen, caiff allyriadau eu monitro'n flynyddol, gan ddefnyddio data llinell sylfaen.
- ✓ Bydd adolygiadau blynyddol yn adrodd ar gynnydd ac yn ysgogi gwelliannau.

Formatted: Font: (Default) Arial, Welsh


Formatted: Font: (Default) Arial, Welsh

Un o brif flaenoriaethau'r Cyngor (sy'n cael ei gydnabod yng Nghynllun y Cyngor 2017-2022) yw *"Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau a gwarchod ein hamgylchedd naturiol ar yr un pryd".*

Rydym wedi symud ymlaen ar hyn drwy *"ddod yn fwy ynni-effeithlon a lleihau ein hallyriadau carbon drwy ganolbwyntio ar ganolfannau hamdden, ysgolion a goleuadau stryd".*

Er bod llawer iawn wedi cael ei gyflawni hyd yma, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fabwysiadu dull corfforaethol uchelgeisiol o weithio dros gyfnod 2022-2027 y Cyngor. Bydd gwaelodlin ôl-troed carbon y Cyngor yn dylanwadu ac yn cyfrannu at hyn.

Bydd y Cyngor yn mabwysiadu Cynllun newydd yn ystod hydref 2022 (ar ôl etholiadau llywodraeth leol mis Mai 2022).




Wrth i Gynllun 2017-2022 ddirwyn i ben, mae Cynllun Pontio 2022-2023 wedi cael ei fabwysiadu. Bydd hwn yn rhoi cyfeiriad ar unwaith i'r Cyngor wrth i ni adfer o bandemig Covid-19.

Mae Ffigur 1 yn amlinellu fframwaith strategol a chynllunio ariannol y Cyngor. Daw'r Cynllun hwn o dan yr adran 'Cynlluniau Strategol' sy'n dylanwadu ar ac yn cyfrannu at yr holl benderfyniadau a gweithgareddau eraill.



DRAFT

DRAFT

## Y Daith Trawsnewid

Gan ddilyn yr arweiniad o drywydd 'Taith tuag at sero net' Llywodraeth Cymru – byddwn yn cyflawni statws carbon-niwtral drwy ddarparu'r tri chynllun sy'n cael eu hamlinellu isod yn Ffigur 2.




*Ffigur 1 - Ein taith sero net*

Erbyn 2030, bydd y Cyngor wedi cyrraedd ei nod o gyflawni statws carbon sero net. Bydd hyn yn golygu ein bod wedi lleihau'r holl nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu hallyrru i'r lefel isaf bosib, a dim ond yr allyriadau gweddilliol 'anochel' fydd ar ôl. Bydd y carbon a fydd yn cael ei dynnu o'r amgylchedd yn gwneud iawn am unrhyw allyriadau gweddilliol sy'n cael eu rhyddhau.

Mewn termau ymarferol, bydd angen i'r Cyngor:

- ✓ Gwneud cyrraedd sero net yn rhan arferol o waith ei weithwyr a'i aelodau etholedig o ddydd i ddydd.
- ✓ Parhau i wella a moderneiddio gwasanaethau wrth gyflawni allyriadau carbon isel / di-garbon.
- ✓ Gwreiddio ystyriaeth am yr hinsawdd yn holl benderfyniadau a gwaith y Cyngor o ddydd i ddydd.
- ✓ Lleihau effaith garbon y nwyddau a'r gwasanaethau mae'r Cyngor yn eu caffael.
- ✓ Sicrhau bod tai ac adeiladau newydd sy'n cael eu codi gan y Cyngor yn cyrraedd safon carbon-niwtral (o leiaf).
- ✓ Lleihau maint ein portffolio asedau gan foderneiddio i wella perfformiad a lleihau ei effaith garbon.
- ✓ Uwchraddio'r fflyd cerbydau a chreu rhwydwaith o bwyntiau gwefru cerbydau trydan.
- ✓ Defnyddio gweithio hybrid (gweithio yn y cartref a'r swyddfa) a thechnoleg newydd i leihau teithio .

- ✓ Sicrhau bod swyddfeydd a lleoliadau gwaith mor ynni-effeithlon â phosib, ac wedi eu pweru gan drydan sy'n cael ei gynhyrchu ar y safle neu sy'n dod o ffynonellau gwyrdd a chynaliadwy.
- ✓ Parhau i fuddsoddi yn effeithlonrwydd ynni tai'r Cyngor a'i eiddo sy'n cael ei ddal gan denantiaid.
- ✓ Defnyddio mesurau gwahanol i ddal ac i storio carbon i wneud iawn am allyriadau anochel.
- ✓ Defnyddio tir nad yw'n cael ei ddefnyddio i wella bioamrywiaeth, cynyddu nifer y coed, a dal a storio carbon er mwyn dod yn garbon-bositif.
- ✓ Ceisio sicrhau y bydd buddsoddiadau ynni strategol ehangach yn creu swyddi lleol yn ogystal â chreu manteision economaidd a chymunedol.

DRAFT

## Llwyddiannau Lleihau Carbon hyd yma

Bydd y Cynllun yn adeiladu ar lwyddiant ein Strategaethau a phrosiectau sydd eisoes wedi cyfrannu at leihau ôl-troed carbon y Cygnor, er enghraifft:

Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni 2017-2022

- Amcan y Strategaeth oedd sicrhau bod y Cyngor yn defnyddio 15% yn llai o ynni erbyn 2022.
- Roedd y Strategaeth wedi llwyddo i sicrhau bod y Cyngor yn defnyddio 18% yn llai o ynni. Cafodd hyn ei wneud drwy gyfuniad o osod mesurau effeithlonrwydd ynni, adeiladwaith gwell, effeithiau pandemig Covid-19, a lleihau faint o asedau sydd gan y Cyngor yn gyffredinol.

Cynllun Re:Fit

- Dyma'r buddsoddiad mwyaf gan y Cyngor i leihau faint o ynni sy'n cael ei ddefnyddio ac allyriadau carbon.
- Buddsoddwyd dros £2.4m ar brosiectau fel; gosod paneli solar newydd, goleuadau LED ac uwchraddio neu osod systemau gwresogi ac awyru newydd yn ein canolfannau hamdden.
- Disgwylir i'r cynllun arwain at ddefnyddio 3,875,107kwH yn llai o ynni, a rhyddhau 958.18tco2e yn llai o allyriadau carbon. (Dalier sylw: Disgwylir gweld y lleihad hwn erbyn diwedd 2022).

Llwyddiannau eraill:

- Ysgolion a thai cymdeithasol newydd gyda pherfformiad ynni gwell.

- Addasu goleuadau ffordd i ddefnyddio goleuadau LED ar draws Ynys Môn. Ar ôl newid y rhwydwaith bron yn llwyr i oleuadau LED, mae'r allyriadau carbon ar draws y rhwydwaith goleuadau ffyrdd ar Ynys Môn wedi lleihau 81% rhwng 2014/15 a 2020/21.

- Newid cerbydau'r Cyngor i fod yn gerbydau trydan.

Mae'r prosiectau hyn wedi golygu bod allyriadau carbon y Cyngor wedi disgyn 2,180 tCO2e rhwng 2017 a 2021.

## Mesur ein Hallyriadau Carbon

Mae hi'n hanfodol ein bod yn deall ôl-troed carbon y Cyngor. Bydd gwaelodlin gynhwysfawr yn sicrhau bod ein taith i fod yn sero net yn seiliedig ar dystiolaeth a bydd hyn yn cyfrannu at sut rydym yn blaenoriaethu ein camau gweithredu.

Ar ôl i ni gael gwaelodlin gadarn, fframwaith monitro corfforaethol effeithiol, dangosfwrdd ynghyd â dealltwriaeth lawn o ble y daw ein hallyriadau, byddwn yn gallu gosod targedau a chytuno ar gynllun i leihau allyriadau carbon.


Byddwn yn cyfrifo gwaelodlin allyriadau y Cyngor ar sail Protocol Nwyon Tŷ Gwydr (GHG) Sefydliad Adnoddau'r Byd (WRI) sy'n rhannu ffynonellau allyriadau yn dri sgôp.

Sgôp 1 – Allyriadau nwyon tŷ gwydr uniongyrchol o ddefnyddio tanwydd ar gyfer gweithgareddau'r Cyngor, e.e. adeiladau a fflyd weithredol.

Sgôp 2 – Allyriadau nwyon tŷ gwydr anuniongyrchol o ddefnyddio gwres, trydan neu stêm a brynir.

Sgôp 3 - Allyriadau anuniongyrchol eraill fel y nwyddau a'r gwasanaethau rydym yn eu prynu, trafnidiaeth, buddsoddiadau, asedau ar brydles ac eraill.

Mae Ffigur 3 isod gan Sefydliad Adnoddau'r Byd yn disgrifio'r sgopiau nwyon tŷ gwydr a beth allai gael ei gynnwys.




*Ffigur 2 - Sefydliad Adnoddau'r Byd – Dadansoddiad o Waelodlin Nwyon Tŷ Gwydr*

Bydd y gwaith o wella'r broses o ddadansoddi a chasglu data ar draws yr Awdurdod yn cael ei arwain gan y maes rhaglen rheoli data. Bydd yn cynorthwyo gwasanaethau i wneud penderfyniadau gan ddangos effaith lleihau allyriadau carbon ar waelodlin y Cyngor.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau casglu data gwaelodlin gan bob Cyngor yng Nghymru. Bydd y cynnydd yn cael ei fonitro i sicrhau bod y Cyngor ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed sero net erbyn 2030.

Mae'r Cyngor eisoes yn casglu data sy'n rhoi gwybod faint o ynni mae'n ei ddefnyddio ar draws ei bortffolio asedau. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i fonitro'r defnydd a, lle bo angen, mesur effeithiolrwydd y prosiectau lleihau ynni. Defnyddir data o ddefnydd adeiladau, ynni a fflyd i gyfrifo'r allyriadau ar gyfer Sgôp 1 a 2 gwaelodlin y Cyngor.

Daw allyriadau Sgôp 3 o amrywiaeth o ffynonellau a amlinellir yn Ffigur 3 e.e. data cyflwr stoc tai cymdeithasol, cymudo gweithwyr, teithio busnes, nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu prynu. Lle bo angen, bydd y Cyngor yn defnyddio 'Canllaw sector cyhoeddus ar gyfer adrodd Carbon Sero Net' Llywodraeth Cymru i ddefnyddio dull ar sail gwariant i amcangyfrif allyriadau'r gadwyn gyflenwi.

DRAFT

## Y Rhaglen Ynys Ynni

Yn ogystal ag ymrwymiad y Cyngor i sero net fel sefydliad, bydd y Rhaglen Ynys Ynni hefyd yn cael cryn effaith, yn lleol a'r tu hwnt. Menter gydweithredol yw'r Rhaglen Ynys Ynni i roi Ynys Môn ar flaen y chwyldro mewn ymchwil, datblygu a chynhyrchu ynni carbon-isel.

Y weledigaeth yw:

*"i Ynys Môn fod yn esiampl i eraill wrth bontio at economi carbon-isel ffyniannus a gwydn sy'n creu cyfleoedd ar gyfer gwaith, addysg a swyddi cadwyn gyflenwi o ansawdd uchel, gan hefyd warchod a gwella'r amgylchedd naturiol a chynorthwyo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant i ffynnu mewn cymunedau llawn asbri."*

Nod y Cyngor yw sicrhau y gellir ennill y budd mwyaf o'r holl brosiectau cynhyrchu ynni arfaethedig ar draws yr Ynys er mwyn:

**1: 'Annog twf technoleg, ymchwil a datblygiadau newydd, ac mewn arloesi'**
**2: 'Creu swyddi lleol, gwella sgiliau, busnesau ffyniannus'**
**3: 'Cefnogi cymunedau gwydn a chydlynus'**
**4: 'Sicrhau gweithredu hinsawdd cyfrifol, arloesol ac amserol'**
**5: 'Sicrhau amgylchedd cytbwys'**

Drwy gynorthwyo i drawsnewid at ynni carbon-isel ar draws yr Ynys, ac achub ar bob cyfle i greu swyddi, buddion a chyfleon i'r gadwyn gyflenwi leol, bydd y Rhaglen yn:

- ❖ Dylanwadu ar raddfa a lleoliad unrhyw ddatblygiadau ynni posib.
- ❖ Cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau cydsynio statudol yn effeithiol.
- ❖ Dangos bod Ynys Môn ar flaen y gad gyda datblygiadau carbon-isel.
- ❖ Hwyluso rhannu gwybodaeth rhwng busnesau, academyddion a phartneriaid allweddol eraill.
- ❖ Prosiectau i arloesi technolegau ynni newydd i fynd i'r afael â'r 'trilema' ynni.
- ❖ Sicrhau bod camau datblygu, adeiladu a gweithredu prosiectau ynni'n cyfrannu at les yr Ynys a'i chymunedau.

Efallai na fydd darparu'r Rhaglen Ynys Ynni'n cael effaith uniongyrchol ar allyriadau carbon y Cyngor ond dylai ei chanlyniadau gynorthwyo ymdrechion y Cyngor i drawsnewid i fod yn sefydliad sero net.

## Meysydd Rhaglen

Bydd y Cynllun Sero Net hwn yn cael ei rannu'n feysydd rhaglen penodol i gyflwyno prosiectau ac ymyriadau:




Bydd dod yn Gyngor Sero Net erbyn 2030 yn dibynnu ar:

- arweinyddiaeth bendant
- blaenoriaethu
- gwneud penderfyniadau anodd
- gallu ac adnoddau (e.e. cyllid, amser swyddogion a chapasiti sefydliadol)

Drwy ddilyn arferion rheoli rhaglenni a phrosiectau, byddwn yn sicrhau bod camau gweithredu'r Cynllun yma yn cael eu cyflawni.

Mae cyfleoedd cyllido allanol sylweddol (grantiau a benthyciadau) eisoes ar gael i weithredu ac i gyflawni cynlluniau sy'n ymateb i newid hinsawdd ac yn galluogi datgarboneiddio.

Rhaid i'r Cyngor fod yn uchelgeisiol, yn ddyfeisgar ac yn rhagweithiol ar lefel gorfforaethol ac ar lefel gwasanaethau i fanteisio'n llawn ar bob cyfle sydd ar gael i sicrhau adnoddau ychwanegol.

DRAFT

## Lleihau Defnydd Ynni ac Effeithlonrwydd ynni

Pam mae hyn yn bwysig

Mae gan y Cyngor Sir bortffolio eang ac amrywiol o adeiladau ac asedau sy'n cynnwys:

- swyddfeydd
- depos
- ysgolion
- canolfannau hamdden
- unedau busnes
- tai cymdeithasol ar draws yr Ynys.

Mae'r portffolio'n amrywio o adeiladau newydd ac ynni-effeithlon i adeiladau hen ac aneffeithlon, gydag allyriadau carbon sylweddol yn gysylltiedig â'u rhedeg, yn enwedig eu gwresogi.

Ynni yw un o'r allyriadau mwyaf y gall y Cyngor eu rheoli ac mae nifer o gyfleoedd i wneud arbedion. Gall defnyddio llai o ynni, a bod yn fwy effeithlon wrth ei ddefnyddio, leihau allyriadau carbon (sgôp 1 a 2) gan arwain at arbedion ariannol a darparu gwasanaethau'n gynaliadwy.

Bydd y maes rhaglen hwn yn cyflawni gwelliannau ychwanegol ar berfformiad ynni adeiladau ac asedau'r Cyngor (o ran defnyddio llai o ynni a'i ddefnyddio'n fwy effeithlon) i sicrhau y defnyddir llai o ynni a bod yr ynni wedi'i ddatgarboneiddio.

Mae'r Cyngor yn wynebu her mynd i'r afael ag effeithlonrwydd ynni ei stoc tai cymdeithasol sy'n cael ei gyfrif dan Sgôp 3 – allyriadau asedau ar brydles.

Fel landlord, nid yw'r Cyngor yn gallu rheoli faint o ynni a gwres mae ei denantiaid yn eu defnyddio. Fodd bynnag, mae gennym ddyletswydd i sicrhau bod ein tai mor ynni-effeithlon â phosib.

Bydd ôl-osod mesurau ynni yn ein stoc tai cymdeithasol i'w gwneud yn fwy ynni-effeithlon yn arwain at leihau allyriadau carbon a gwella canlyniadau ariannol, iechyd a lles i'n tenantiaid.

Yn ogystal â gwneud ein hasedau'n fwy ynni-effeithlon, bydd pob datblygiad newydd hefyd yn cael ei adeiladu i safonau carbon-niwtral o leiaf.

Beth rydym am ei wneud

- ❖ Sicrhau bod effaith portffolio asedau'r Cyngor ar yr hinsawdd yn cael ei deall yn llawn.
- ❖ Datblygu cynlluniau i ddatgarboneiddio'r ystâd adeiledig i fod yn garbon-niwtral.
- ❖ Sicrhau bod holl adeiladau newydd y Cyngor yn cyrraedd safonau carbon-niwtral (o leiaf).
- ❖ Datblygu gwaelodlin gynhwysfawr ar gyfer stoc tai'r Cyngor i sicrhau bod gennym ddata allyriadau cynhwysfawr i gefnogi penderfyniadau yn y dyfodol.
- ❖ Cyflawni cynlluniau ôl-osod i wella effeithlonrwydd ynni ac i ddatgarboneiddio ein stoc tai.

Beth fydd yr effaith ar ein hallyriadau carbon?

Drwy sicrhau bod ein portffolio asedau'n defnyddio llai o ynni ac yn ei ddefnyddio'n fwy ynni-effeithlon, byddwn yn lleihau allyriadau carbon ymhellach.



DRAFT

Wrth gysylltu gyda'r waelodlin, bydd camau gweithredu o fewn y maes rhaglen yma'n cael effaith gadarnhaol ar leihau cyfanswm allyriadau'r Cyngor ac wedi ei gynnwys o fewn fframwaith monitro y Cynllun Sero Net.

DRAFT

## Trafnidiaeth

Pam mae hyn yn bwysig

Mae gan y Cyngor 190 o gerbydau fflyd. Mae'r rhain yn amrywio o geir bach i faniau mawr a bysiau mini – mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n dal i redeg ar danwyddau ffosil fel disel ac LPG (ac eithrio 13 o gerbydau trydan).

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan, lle bo hynny'n ymarferol bosib, bod angen i'r holl geir a cherbydau nwyddau ysgafn newydd sy'n cael eu defnyddio gan y sector cyhoeddus fod yn garbon-niwtral o 2025 ymlaen, a'r holl gerbydau nwyddau trwm o 2030 ymlaen.

Mae allyriadau o gerbydau yn perthyn i sgôp 1, felly mae lleihau'r allyriadau cyffredinol yn sylweddol yn flaenoriaeth. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy fuddsoddi i drawsnewid yr fflyd o gerbydau tanwyddau ffosil i fod yn gerbydau carbon isel iawn (e.e. hydrogen neu drydan).

Wrth i'r Cyngor a'r cyhoedd ddefnyddio cerbydau trydan yn amlach, bydd buddsoddi yn y seilwaith gwefru'n dod yn hollbwysig i sicrhau bod defnyddio'r cerbydau hyn yn gynaliadwy.

Daw allyriadau carbon o drafnidiaeth hefyd oddi wrth staff yn cymudo a thrafnidiaeth gymunedol (sy'n cael ei gyfrif dan sgôp 3) ac mae hi'n gallu bod yn anodd lleihau'r rhain. Mae ymateb i bandemig Covid-19 wedi dangos bod modd defnyddio trefniadau gweithio amgen, fel gweithio gartref neu weithio hybrid, i helpu i leihau allyriadau carbon.

Bydd datblygu atebion teithio llesol a buddsoddi i hyrwyddo'r atebion hyn yng nghanol ein trefi ac yn ein cymunedau'n allweddol i ddatblygu teithio cynaliadwy ar draws Ynys Môn.

Fel un a fabwysiadodd dechnoleg newydd i leihau ei allyriadau carbon, mae gan y Cyngor hefyd rôl arweiniol i ddangos i'r gymuned sut gall gwasanaethau newid i fod yn garbon isel / di-garbon.

Beth rydym am ei wneud

- Lleihau'r angen i deithio'n gyffredinol drwy gofleidio model gweithio rhithiol a hybrid (lle gallwn).
- Cefnogi datblygiad ffyrdd amgen ac arloesol o weithio a theithio (e.e. datblygu atebion EV cymunedol a thrafnidiaeth gyhoeddus a'u gwneud yn fwy hygyrch).
- Hyrwyddo mwy o deithio llesol ar draws cymunedau'r Ynys i leihau allyriadau sy'n deillio o gymudo a theithio.
- Buddsoddi mewn canol trefi i hwyluso pob math o deithio cynaliadwy er mwyn tynnu allyriadau o gymudo a theithio.
- Gweithredu cynlluniau i drawsnewid ein fflyd ymhellach o rai tanwydd ffosil i rai carbon isel / di-garbon.
- Cefnogi'r trawsnewid at gerbydau trydan drwy ddatblygu seilwaith gwefru newydd ar draws yr Ynys.

Beth fydd yr effaith ar ein hallyriadau carbon?

Bydd lleihau teithio ac allyriadau o gerbydau'r Cyngor yn lleihau ein hallyriadau sy'n cael eu cyfrif dan sgôp 1 (bydd hyn yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor).

Gan gysylltu i'r waelodlin, bydd y camau gweithredu a nodir o dan y maes rhaglen hwn yn effeithio ar allyriadau cyffredinol y Cyngor ac yn cael eu cynnwys yn y fframwaith monitro sy'n ategu'r Cynllun Sero Net.



DRAFT

### Defnydd Tir a Bioamrywiaeth

Pam mae hyn yn bwysig

Mae gan y Cyngor bortffolio tir amrywiol, gan gynnwys:

- tyddynnod amaethyddol
- tomenni sbwriel
- tir pori
- llecynnau bach o dir (o gwmpas swyddfeydd, adeiladau ac ysgolion).

Bydd sut caiff tir ei ddefnyddio yn penderfynu a yw'n cyfrannu at ddatgarboneiddio neu'n cynyddu ein hallyriadau.

Bydd datblygu ein defnydd o dir, cynllun rheoli a'n polisïau ar gyfer dal a storio mwy o garbon i gyd yn allweddol i gefnogi'r nod o gyflawni statws carbon-niwtral.

Nod y Cynllun fydd cefnogi Cynllun Bioamrywiaeth y Cyngor i sicrhau ein bod yn gwneud popeth gallwn ni i wella bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol ar draws Ynys Môn. Bydd hefyd yn lliniaru effeithiau newid hinsawdd dros y tymor hir.

Mae'r Cynllun hefyd yn ceisio cynyddu nifer o goed sydd ar draws yr Ynys i gynyddu potensial y tir fel sinc carbon. Mi fydd yn bwysig sicrhau bod cynlluniau coetiroedd a phlannu coed yn cael eu darparu'n gynaliadwy fel eu bod yn addas i'r cynefin lleol.

Amcan hir dymor y maes rhaglen hwn yn tynnu allyriadau o'r atmosffer drwy 'gloi' carbon drwy ddulliau dal a storio carbon.

Bydd y Cyngor hefyd yn cefnogi cymunedau ar draws yr Ynys i ymateb i'r argyfwng hinsawdd (e.e. drwy'r agenda 'llunio lle' a seilwaith gwyrdd).

Lle bo angen, bydd y Cyngor yn gweithio i ddarparu prosiectau wedi'u targedu i liniaru effeithiau newid hinsawdd drwy wella mesurau amddiffyn rhag llifogydd ar draws Ynys Môn.

Beth rydym am ei wneud

- Gwella amrywiaeth bioamrywiaeth ar dir y Cyngor
- Datblygu a chyflwyno cynllun i wella ac i gynyddu faint o goed sydd ar dir y Cyngor
- Mabwysiadu a gweithredu cynllun rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol newydd a fydd yn cyd-fynd â nod ac amcanion sero net y Cyngor.
- Mabwysiadu a gweithredu Cynllun Rheoli Cyrchfannau newydd sy'n cyd-fynd â'r ymddygiad a'r seilwaith a amlinellir yn nod ac amcanion sero net y Cyngor.
- Cefnogi datblygu seilwaith cyhoeddus gwyrdd newydd yng nghanol trefi ac mewn trefi a phentrefi arfordirol poblogaidd.
- Annog ein cymunedau i ymateb i'r argyfwng hinsawdd drwy'r agenda 'llunio lle'.
- Datblygu a gweithredu prosiectau i wella mesurau amddiffyn rhag llifogydd.

Beth fydd yr effaith ar ein hallyriadau carbon

Bydd darparu'r rhaglen defnydd tir a bioamrywiaeth yn lleihau allyriadau cyffredinol y Cyngor drwy brosiectau carbon-bositif (e.e. gwella bioamrywiaeth a chynyddu nifer y coed).

## Addasiadau Sefydliadol

Pam mae hyn yn bwysig

Ni fydd lleihau allyriadau carbon y Cyngor o'i adeiladau a'i fflyd yn unig yn ddigon i gyflawni statws carbon sero-net.

Bydd angen i'r Cyngor addasu a newid sut mae'n gweithio os yw am leihau gymaint o'i allyriadau carbon â phosib. Rhaid gwneud hyn heb effeithio'n negyddol ar ei weithgareddau nac ar ei wasanaethau.

Rhaid i'r Cyngor weld moderneiddio a newid fel cyfle gan hefyd weithio'n gydweithredol ar draws y Cyngor a gyda chymunedau lleol, partneriaid rhanbarthol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru.

Bydd Addasiadau Sefydliadol yn canolbwyntio ar newid diwylliant, gwerthoedd ac arferion gweithio. Bydd yn broses hirdymor a fydd yn gofyn am arweinyddiaeth, ymrwymiad ac ymdrech.

Bydd rhai newidiadau efallai'n digwydd yn sydyn, er enghraifft:

- gwreiddio blaenoriaethau carbon isel yn y broses gaffael.
- ymgysylltu â chyflenwyr a phartneriaid i'w helpu i ddechrau trawsnewid at sero net.

Mae ymateb ac addasu'n ddi-oed i bandemig Covid-19 wedi dangos bod newid yn bosib. Bydd y Cynllun Sero Net yn ceisio defnyddio'r gwersi sydd wedi cael eu dysgu o'r ymateb hwnnw i'n cynorthwyo i gyflwyno'r newid sefydliadol sydd ei angen.

Beth rydym am ei wneud

- ❖ Darparu cynllun cyfathrebu i ddylanwadu a chodi ymwybyddiaeth yn y Cyngor ynghylch pam a sut gall newidiadau bach gael effaith fawr.
- ❖ Darparu rhaglen llythrennedd carbon a hyfforddiant cysylltiedig.
- ❖ Gweithio gydag ysgolion i hwyluso addysg ac ymwybyddiaeth o newid hinsawdd gan hybu gweithredu lle bo'n bosib.
- ❖ Gwreiddio gweithio'n rhithiol ac yn hybrid yn niwylliant y sefydliad mewn ffordd effeithiol.
- ❖ Hyrwyddo, dathlu a chydnabod cynnydd, llwyddiannau ac arferion da.
- ❖ Cydweithredu gyda, a dysgu oddi wrth bartneriaid a rhanddeiliaid.
- ❖ Adolygu a diweddaru polisïau, prosesau ac arferion mewnol ffurfiol i sicrhau bod newidiadau a phenderfyniadau ar bob lefel yn ystyried eu heffaith ar nod y Cyngor i fod yn sero net.
- ❖ Adolygu a diweddaru polisïau a phrosesau caffael (gan gynnwys y trefniadau monitro ac adrodd).

Beth fydd yr effaith ar ein hallyriadau carbon?

Bydd addasiadau sefydliadol yn cyfrannu'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol at leihau allyriadau carbon cyffredinol y Cyngor. Bydd rhai camau'n cael effaith anuniongyrchol ar allyriadau drwy hwyluso neu hybu gweithredu ar newid hinsawdd (e.e. cyfathrebu, codi ymwybyddiaeth, polisi ac integreiddio sero net yn ein gwaith o ddydd i ddydd).

Bydd camau eraill yn gallu cael effaith gadarnhaol drwy leihau allyriadau anuniongyrchol ac allyriadau ein cadwyn gyflenwi, er enghraifft;

- hyfforddiant llythrennedd carbon.
- datblygu gweithio hybrid.
- deall yn well sut mae'r ffordd rydym yn caffael nwyddau a gwasanaethau yn gallu cael effaith gadarnhaol.

Bydd effaith y camau gweithredu dan y maes rhaglen hwn yn cael ei fesur yn erbyn allyriadau cyffredinol y Cyngor ac yn cael ei gynnwys yn y fframwaith monitro sy'n ategu'r Cynllun Sero Net.

DRAFT

## Llywodraethiant, Data, Monitro ac Adrodd

Pam mae hyn yn bwysig

Rhaid i holl swyddogion y Cyngor a'i aelodau etholedig ymdrechu ar y cyd er mwyn llwyddo i gyflawni'r Cynllun Sero Net.

Bydd yn rhaid cael trefniadau effeithiol i reoli rhaglenni a phrosiectau er mwyn llwyddo i gyflawni'r Cynllun Sero Net. Bydd hyn yn sicrhau bod yr ymyriadau a nodir dan bob maes rhaglen yn cael eu cyflawni o fewn y cerrig milltir perthnasol a'r adnoddau sydd ar gael.

Bydd cyrraedd y nod o fod yn Gyngor sero net erbyn 2030 hefyd yn dibynnu ar:

- rheoli data'n effeithiol ac yn effeithlon.
- monitro data ac adrodd ar ddata (i ddangos cynnydd a chanfod meysydd i'w datblygu ymhellach).

Bydd sicrhau bod gennym system effeithiol a thrylwyr i reoli data yn helpu'r Cyngor i adnabod pa allyriadau mae angen eu blaenoriaethu ac ar beth mae angen gwario adnoddau i gael yr effaith fwyaf.

Bydd datblygu systemau rheoli data'n gwella cywirdeb a chadernid gwaelodlin allyriadau carbon y Cyngor ac yn helpu i fonitro'r gostyngiad mewn allyriadau o ganlyniad i'r Cynllun hwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau gofyn am ddata gwaelodlin gan holl Gynghorau Cymru er mwyn llunio gwaelodlin flynyddol ar gyfer y sector cyhoeddus. Mae'r data sy'n cael ei gasglu ar hyn o bryd ar gyfer Llywodraeth Cymru'n cynnwys allyriadau 2019/20 a 2020/21.

Bydd allyriadau sgôp 1 a 2 yn cael eu cyfrif fel data defnydd tir a gweithredol, gyda sgôp 3 o allyriadau'r gadwyn gyflenwi. Felly mae'n hollbwysig bod gwelliant mewn systemau rheolaeth data wedi ei gyflawni.

Hefyd, bydd angen trefniadau cadarn i adrodd ar gynnydd yn y meysydd rhaglen i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli a bod cyfleoedd i ychwanegu gwerth yn cael eu canfod a'u defnyddio.

Bydd pob maes rhaglen yn cael ei arwain gan uwch-berchennog cyfrifol; bydd y prosiectau a'r ymyriadau ym mhob ffrwd waith yn cyfrannu at ein nod cyffredinol o fod yn Gyngor sero net.

Bydd Bwrdd Rhaglen yn cael ei sefydlu i gefnogi ac i oruchwylio'r Cynllun Sero Net yn strategol, fel y nodir isod.

Beth rydym am ei wneud

- ❖ Sicrhau bod y Cynllun yn cael ei wreiddio yn y trefniadau sydd eisoes ar waith o ran darparu, rheoli, perfformiad ac adrodd a hynny'n gorfforaethol ac o ran gwasanaethau.
- ❖ Sefydlu Bwrdd Rhaglen.
- ❖ Integreiddio'r camau gweithredu yn y gwahanol Gynlluniau Darparu Gwasanaeth.
- ❖ Sicrhau bod swyddogion ac aelodau etholedig yn gallu cael gafael ar ddata amser-real ar gynnydd a newid.
- ❖ Creu gwaelodlin fanwl a thrylwyr ar allyriadau carbon, a'i diweddaru bob chwarter.
- ❖ Datblygu systemau rheoli data er mwyn gallu monitro ac adrodd.
- ❖ Sefydlu targedau blynyddol gyda systemau adrodd a dangosfyrddau data awtomataidd.

- Datblygu gwaelodlin fanwl o allyriadau carbon ar gyfer asedau ar brydles (e.e. tai cymdeithasol a thyddynnod).
- Sicrhau bod holl wasanaethau'r Cyngor yn ymwybodol o'u sefyllfa allyriadau carbon ac yn ystyried sut mae gwella hynny fel rhan o brosesau rheoli rheolaidd.

<u>Beth fydd yr effaith ar ein hallyriadau carbon?</u>

Ni fydd rheoli data'n well yn cael effaith uniongyrchol ar y waelodlin allyriadau carbon. Fodd bynnag, bydd yn gwella ein dealltwriaeth o allyriadau cyffredinol y Cyngor er mwyn gallu blaenoriaethu a gwneud penderfyniadau effeithiol. Bydd hefyd yn ei gwneud hi'n haws adrodd a monitro am y cynnydd yn rheolaidd.

DRAFT

## Agwedd Ariannol Newid Hinsawdd

Bydd gweithredu'r strategaeth newid hinsawdd yn effeithio ar gyllideb refeniw a chyllideb gyfalaf y Cyngor.

Ar hyn o bryd mae'r gyllideb refeniw'n cynnwys darpariaeth i dalu am gyflogi'r Rheolwr Newid Hinsawdd ac yn cynnwys swm o £50k i dalu am gostau refeniw eraill sy'n gysylltiedig â gweithredu'r strategaeth. Wrth i'r strategaeth gael ei gweithredu, mae'n annhebygol y bydd £50k yn ddigon a bydd angen mwy o arian refeniw.

Fodd bynnag, y prif wariant fydd prosiectau cyfalaf. Ar hyn o bryd mae'r arian cyfalaf a gafwyd gan Lywodraeth Cymru drwy'r setliad Llywodraeth Leol yn £3.6m yn 2022/23 ond nid yw hyn yn ddigon i fuddsoddi i gynnal asedau presennol y Cyngor, heb sôn am fuddsoddi i weithredu'r strategaeth newid hinsawdd. Mae rhywfaint o sgôp i fenthyca'n allanol i ariannu prosiectau ond rhaid gwneud hyn yn unol â gofynion y Cod Materion Ariannol ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol, sy'n gofyn bod y Cyngor yn sicrhau bod unrhyw arian a fenthycir yn fforddiadwy ac na fydd yn straen ariannol afresymol mewn blynyddoedd i ddod. Gallai prosiectau sy'n creu arbedion cost refeniw, neu'n golygu y gallai'r Cyngor osgoi costau yn y dyfodol, gael eu hariannu drwy fenthyciadau allanol.

Yng nghyllideb gyfalaf 2022/23, cafodd £200k ei neilltuo ar gyfer prosiectau 'gwyrdd' mewn ardaloedd arfordirol, wedi'i ariannu o gronfa wedi'i chlustnodi. Ar ôl y buddsoddiad hwn, dim ond £300k sydd ar ôl yn y gronfa wedi'i chlustnodi.

Er mwyn gweithredu prosiectau cyfalaf ar y raddfa angenrheidiol, bydd angen arian grant gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a rhaid aros i weld a fydd y rhain yn grantiau 100% neu a fydd angen elfen o arian cyfatebol gan y Cyngor. Beth bynnag fydd lefel y cyllid a dderbyniwn, bydd angen i'r Cyngor fod yn barod gyda phrosiectau hyfyw wedi eu costio i fanteisio ar unrhyw grantiau. Mae'n debyg y bydd yr holl arian grant neu rywfaint ohono'n cael ei ddyfarnu ar sail gystadleuol, gyda'r ddwy Lywodraeth yn ceisio ariannu prosiectau sy'n cyfrannu gymaint â phosib at eu hamcanion newid hinsawdd. I sicrhau bod gennym brosiectau hyfyw, bydd angen arian refeniw ychwanegol i greu'r capasiti sy'n ofynnol.

Bydd datgarboneiddio stoc tai'r Cyngor hefyd yn chwarae rôl bwysig mewn cyflawni amcanion y strategaeth newid hinsawdd. Amcangyfrifir y bydd ôl-osod mesurau mewn 3,800 o dai i leihau eu hôl-troed carbon yn costio £60m. Bydd Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai y Cyngor yn cael ei ddiweddaru i ystyried y buddsoddiad ychwanegol angenrheidiol hwn sydd i'w ariannu o adnoddau'r Cyfrif Refeniw Tai ei hun a thrwy fenthyciadau allanol. Bydd buddsoddi mewn eiddo newydd yn ystyried gofynion y strategaeth hon wrth ddylunio unrhyw ddatblygiadau tai ond eto daw hyn gyda chost ychwanegol fydd yn rhaid ei hariannu gan y Cyfrif Refeniw Tai.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 28/2/2022 |
| **Pwnc:** | Cynllun Gwefru Cerbydau Trydan Ynys Môn |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Nodi cynllun hirdymor y Cyngor i ddatblygu ac ariannu seilwaith gwefru cerbydau trydan ar draws yr ynys. |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Aled Morris Jones |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Cyng. Bob Parry |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Huw Percy |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | Dylan Llewelyn Jones<br>01248 751 805<br>DylanLlewelynJones@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Pob aelod |

25

| 1 – Argymhelliad/ion |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** Cymeradwyo Crynodeb Cynllun Gwefru Cerbydau Trydan Ynys Môn (mae'r ddogfen dechnegol fanylach, Cynllun Gwefru Cerbydau Trydan Ynys Môn ar gael ar gais).<br><br>**A2** Cefnogi datblygu a cyflwyno ceisiadau am gyllid allanol er mwyn gwireddu y cynllun.<br><br>**A3** Cefnogi ystyriaeth o ofynion seilwaith pwyntiau gwefru cerbydau trydan yn Strategaeth Gyfalaf newydd y Cyngor (i'w datblygu) ac ar sail achos wrth achos pan fydd prosiectau seilwaith cyfalaf yn cael eu datblygu a'u gweithredu (gan gynnwys tai, unedau busnes, moderneiddio ysgolion, darpariaeth gofal ychwanegol, adfywio canol trefi a seilwaith arfordirol / twristiaeth ac ati.) |

| 2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall |
|---|
| Mae'r cynllun yn cefnogi uchelgais allweddol y Cyngor fel y'i nodir yng Nghynllun y Cyngor 2017-22:<br><br>"Byddwn yn gweithio tuag at Ynys Môn fydd yn iach, yn ffynnu ac yn llewyrchus"<br><br>Mae 2022 yn flwyddyn o newid ar gyfer Cynllun y Cyngor, gyda chynllun pum mlynedd newydd yn cael ei ddatblygu yn 2022. Mae'r Cynllun Gwefru Cerbydau Trydan yn cyfranu at ymateb i heriau'r dyfodol drwy fynd i'r afael â datganiad y Cyngor o Argyfwng Hinsawdd. Mae'n cefnogi amcan y Cyngor i ddod yn sefydliad carbon net sero erbyn 2030. Mae'r cynllun hwn yn nodi ein dull o ddatblygu |

rhwydwaith cynaliadwy o bwyntiau gwefru cerbydau trydan ar draws yr ynys a fydd yn cefnogi'r Cyngor i gyflawni'r amcanion a nodir yn y Cynllun Net Sero newydd sydd yn y broses o gael ei gymeradwyo ar hyn o bryd.

**3 - Egwyddorion fel Canllaw ar gyfer Aelodau Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 – Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. Mae gwireddu y cynllun yn ddibynnol ar sicrhau cefnogaeth cyllid grant allanol, pe na bai'r ffynonellau cyllid hyn ar gael, sut byddai hyn yn effeithio ar y cynllun?
2. Sut mae'r cynllun hwn yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei ymrwymiad i fod yn sero net erbyn 2030?
3. A yw'r cynllun hwn yn cefnogi a galluogi y Cyngor i newid ei fflyd ei hun o gerbydau i gerbydau trydan?
4. Pa risgiau sydd wedi'u hadnabod a allai effeithio ar gyflawni'r cynllun hwn?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

Bydd y Cynllun yn datblygu seilwaith pwyntiau gwefru cerbydau trydan modern newydd ar draws yr ynys a fydd ar gael i staff y Cyngor, drigolion ac ymwelwyr ei

ddefnyddio. Bydd y cynllun yn helpu i drawsnewid i ddatgarboneiddio’r sector trafnidiaeth yn unol â Strategaeth drafnidiaeth newydd Llywodraeth Cymru, Llwybr Newydd a Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan i Gymru.

Trwy fabwysiadu’r Cynllun Cerbydau Trydan bydd yn rhoi sylfaen i’r Cyngor wneud ceisiadau cryf yn seiliedig ar dystiolaeth am gyllid allanol a byddai'n caniatáu ar gyfer dull gweithredu cyson.

Mae cyflawni’r Cynllun Gweithredu Cerbydau Trydan yn dibynnu ar sicrhau swm sylweddol o gyllid allanol, ni fyddai’n ymarferol ariannu drwy gyllideb gyfalaf cyfyngedig y Cyngor yn unig (oherwydd maint y cynllun a blaenoriaethau eraill).

**6 - Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb** **[gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

**6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

Bydd y cynllun pwyntiau gwefru cerbydau trydan yn cael ei roi ar waith gan roi ystyriaeth lawn i Ddeddf Cydraddoldeb 2010, bydd gosod a hygyrchedd pwyntiau gwefru yn cael eu hystyried yn llawn yn unol â gofynion Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur)(Cymru) 2000.

Ni ddisgwylir y bydd gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan yn cael unrhyw effaith sylweddol ar grwpiau gwarchodedig.

**6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)**

Bydd gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan a lleoliad gosodiadau yn cael eu dosbarthu ar draws yr ynys, gan sicrhau mynediad i bob cymuned ar draws yr ynys. Bydd y rhaglen osod yn seiliedig ar fatrics blaenoriaethu sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd yn erbyn meini prawf penodol.

Mae mynediad i fannau gwefru cerbydau trydan yn dibynnu ar drigolion yn cael mynediad at gerbyd trydanol, sydd y tu allan i reolaeth y Cyngor.

**6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg**

Bydd pob un o’r pwyntiau gwefru cerbydau trydan yn cael eu gosod yn unol â gofynion y Gymraeg.

**7 – Goblygiadau Ariannol**

Mae cyflawni’r Cynllun Gweithredu Cerbydau Trydan yn ddibynnol ar sicrhau cyllid allanol, felly dim ond ar yr amod bod cyllid allanol yn cael ei sicrhau y gellir cyflawni'r Cynllun Gweithredu Cerbydau Trydan yn llawn. Pe bai hyn yn digwydd, o ran gosod

| |
|---|
| y seilwaith ni fyddai unrhyw oblygiadau ariannol i CSYM ac eithrio amser swyddogion i gyflawni fel y cytunwyd mewn unrhyw gais am gyllid. |

| **8 – Atodiadau:** |
|---|
| Crynodeb o Gynllun Gweithredu Gwefru Cerbydau Trydan Ynys Môn a Blaenoriaethu'r Camau Nesaf |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Mae Cynllun Gweithredu technegol ar gael ar gais. |

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

## Gwasanaeth Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff

# Crynodeb o Gynllun Gweithredu Gwefru Cerbydau Trydan Ynys Môn a Blaenoriaethu'r Camau Nesaf

## Chwefror, 2022

**Awdur:**
**Dylan Ll. Jones**
**Fersiwn Terfynol**

## 1.0 Pwrpas

1.1 Darparu trosolwg o Gynllun Gweithredu Gwefru Cerbydau Trydan Ynys Môn (2022-2030). Mae'r cynllun yn nodi cynlluniau uchelgeisiol Ynys Môn i gwrdd ag anghenion gwefru preswylwyr ac ymwelwyr yr Ynys. Bydd hyn yn gwneud y Cyngor y cyntaf yng Nghymru i weithredu ar raddfa fawr mewn ymateb i Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan Llywodraeth Cymru[1], gan 'arwain y cyrch' drwy ddull cynaliadwy a chyfannol.

1.2 Rhoi briff a derbyn cefnogaeth wleidyddol gan Bwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) ynghylch:

a) Y Cynllun Gweithredu Gwefru Cerbydau Trydan (mae'r adroddiad hwn yn darparu'r grynodeb, mae cynllun gweithredu technegol manylach ar gael ar gais);
b) Blaengynllun fel sail i geisiadau am gyllid ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 a thu hwnt

1.3 Er eglurder, crynodeb o'r Cynllun Gweithredu Gwefru Cerbydau Trydan yn unig yw hwn, ac mae Cynllun Trawsnewid Fflyd ar wahân i esbonio a dangos sut bydd CSYM yn datgarboneiddio ei gerbydau fflyd ei hun.

## 2.0 Cyd-destun

2.1 Yn dilyn datgan argyfwng hinsawdd ym mis Medi 2020, mae CSYM wedi bod yn edrych ar sut y gall leihau ei effaith amgylcheddol a chwrdd â thargedau LlC drwy ymrwymo i drosglwyddo i sector cyhoeddus carbon niwtral. Un o'r ffyrdd y gallwn wneud hyn yw drwy ddefnyddio cerbydau allyriadau isel iawn, megis cerbydau trydan neu hydrogen.

2.2 Mae darpariaeth gwefru Cerbydau Trydan yn elfen hanfodol o'n cynlluniau i leihau ein Ôl-Troed Carbon fel sefydliad, a chefnogi'r newid tuag at sero-net ar gyfer yr Ynys o dan ein Rhaglen Newid Hinsawdd. Mae hefyd yn ymateb i'r cynnydd cyflym yn y nifer o gerbydau trydan sydd ar y ffordd, a'r gwaharddiad ar werthu ceir a faniau petrol a disel newydd erbyn 2030.

2.3 Mae gwefru cerbydau trydan yn elfen hanfodol o ddatgarboneiddio trafnidiaeth. Mae Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth Cymru yn gosod fframwaith ar gyfer datgarboneiddio'r sector drafnidiaeth yng Nghymru gyfan. O dan y strategaeth hon, gall y Cyngor wneud cais am gyllid gan Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn Llywodraeth Cymru (ULEV). Gall y Cyngor hefyd

[1] Strategaeth gwefru cerbydau trydan ar gyfer Cymru | LLYW.CYMRU

geisio am gyllid gan Swyddfa'r DU ar gyfer Cerbydau Allyriadau Sero (OZEV) i ariannu cyfleusterau gwefru yn y gweithle ar gyfer staff.

2.4 Mae CSYM yn y broses o ddatblygu Cynllun Newid Hinsawdd Lleol 2022-2025 a fydd yn ddogfen trosfwaol. Bydd y Cynllun Gweithredu Cerbydau Trydan yn ffurfio un o elfennau allweddol y Cynllun Newid Hinsawdd a bydd aliniad clir rhwng y ddwy ddogfen.

2.5 Ochr yn ochr â hyn, mae Cynllun Trawsnewid Fflyd CSYM yn cael ei baratoi i gwrdd â Pholisi 80 Cyllideb Carbon Sero Net 2021-2025 sy’n nodi y dylai holl geir sector cyhoeddus newydd a cherbydau nwyddau ysgafn fod yn allyriadau sero/isel iawn erbyn 2025 a cherbydau nwyddau trwm erbyn 2030. Bydd y Cynllun Trawsnewid Fflyd hefyd yn darparu mwy o wybodaeth ynghylch y polisi arfaethedig a’r broses wefru cerbydau trydan yn asedau CSYM ar gyfer defnydd fflyd (ac ystyried Gwefru Cerbydau Trydan yng nghartrefi staff sy’n cadw cerbydau dros nos). Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried hyn fel blaenoriaeth ar ôl cyflwyno cynigion i sicrhau fod yr holl gerbydau newydd yn fflydoedd y sector cyhoeddus yn gerbydau allyriadau isel iawn erbyn 2030.

## 3.0 Cynllun Gweithredu Cerbydau Trydan CSYM - Crynodeb

3.1 Mae’r papur hwn yn nodi trosolwg lefel uchel o’r Cynllun Gweithredu Gwefru Cerbydau Trydan (Mae Cynllun Gweithredu Cerbydau Trydan technegol llawn ar gael ar gais). Nodir mai dechrau’r daith yn unig yw hyn o ran gosod seilwaith Cerbydau Trydan mewn lleoliadau allweddol. Bydd angen cyfranogaeth sefydliadau partner, rhanddeiliaid a’r sector breifat dros y 10 mlynedd nesaf i gyflawni targedau Llywodraeth Cymru o ran creu rhwydwaith gadarn o bwyntiau gwefru Cerbydau Trydan i roi hyder i’r cyhoedd bod modd iddynt gael mynediad at seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan pryd a ble mae nhw ei angen.


3.2 Wrth ddarparu ystod o gyfleusterau gwefru, bydd y Cyngor yn gweithredu yn unol â’r egwyddorion canlynol;

- Yn arwain drwy ddarparu pwyntiau gwefru ar draws asedau CSYM ym Meysydd Parcio’r Cyngor Sir, Gwasanaethau CSYM a ellir cael eu defnyddio gan ymwelwyr, ac ym Mhrif Swyddfeydd y Cyngor ar gyfer staff.
- Cefnogi preswylwyr o ran y newid o gerbydau petrol/disel i gerbydau trydan (lle bod angen cerbydau preifat o hyd);
- Helpu ymwelwyr i fod yn hyderus y bydd eu hanghenion gwefru yn cael eu cwrdd;
- Cynorthwyo’r fflyd a busnesau lleol i newid i gerbydau trydan;
- Cefnogi ac integreiddio teithio llesol, rhannu ceir, tacsis a thrafnidiaeth gyhoeddus i leihau traffig a gwella llesiant;

- Bod yn gynhwysol o ystod o ddefnyddwyr, gan gynnwys y rhai ag anghenion hygyrchedd;
- Gwella ansawdd aer lleol er iechyd a lles;
- Chwarae ein rhan o ran cyflawni Cymru sero net

3.3 Bydd ystod o wahanol gyfleusterau gwefru eu hangen i gwrdd ag anghenion y boblogaeth gyffredinol ac i gydymffurfio â Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan Cymru. Bydd y math o seilwaith gwefru yn amrywio ar draws leoliadau gwahanol ac yn ddibynnol ar ymddygiad gwefru (faint o amser bydd pobl yn parcio) ac fe'i crynhoir yn Ffigwr 1.

**Ffigwr 1 – Lleoliadau a chyflymder/gradd y seilwaith gwefru**




(ffynhonnell: Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan ar gyfer Cymru LlC, 2021)

3.3 The Council will lead, facilitate and act to provide a range of charging to serve a variety of user-centric requirements.

***Arwain***

3.4 Fel Cyngor, byddwn yn arwain trwy esiampl yn y sector cyhoeddus drwy sicrhau fod ein fflyd cerbydau yn garbon niwtral erbyn 2030, a darparu cyfleusterau gwefru ar gyfer staff. Ynghyd a'r Cynllun Gwefru Cerbydau Trydan, rydym yn paratoi cynllun ar gyfer trawsnewid ein fflyd sector cyhoeddus i allyriadau isel iawn erbyn 2030.

3.5 Byddwn yn darparu cyfleusterau gwefru cyhoeddus ar gyfer y cyhoedd yng ngwasanaethau'r cyngor. Mae'r Cynllun yn nodi uchelgais i 10% o leoedd parcio yng ngwasanaethau'r cyngor fod a chyfleusterau gwefru erbyn 2025, ac 20% o leoedd parcio erbyn 2030. Mae hyn yn cynnwys mannau hygyrch.

3.6 Byddwn yn gwneud cais am gyllid ar gyfer darpariaeth gwefru yn y gweithle yn y safleoedd gwaith lle mae'r cyngor yn berchen ar y brydles.

*Hwyluso*

3.6 Byddwn yn darparu gwybodaeth gyhoeddus am y rhwydwaith gwefru, a byddwn yn helpu preswylwyr i ddeall sut y gallant gael mynediad at gymorth ariannol y DU i osod cyfleusterau gwefru gartref. Yn ein swyddogaethau cynllunio byddwn yn hyrwyddo gwefru yn y gweithle mewn canolfannau cyflogaeth allweddol sy'n eiddo i'r sector preifat.

3.7 Bydd hyn yn cael ei hyrwyddo drwy greu tudalen bwrpasol ar wefan CSYM gyda gwybodaeth am gyfleusterau gwefru ar yr Ynys a sut i ddefnyddio cyfarpar o'r fath. Yn ogystal, gellir ymgymryd â chysylltiadau cyhoeddus cadarnhaol i hyrwyddo cyfleusterau gwefru cerbydau trydan ar yr Ynys (maes o law).

3.8 Yn y blynyddoedd cynnar, bydd CSYM hefyd yn adnabod cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau partner lle mae cyfleoedd o'r fath yn bosibl.

*Cyflawni*

3.9 Mae CSYM wedi dechrau darparu Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan yn barod, gyda seilwaith o'r fath ar gael yng Nghanolfan Busnes Ynys Môn a Chanolfan Byron. Mae yna hefyd Bwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan ar gyfer nifer cyfyngedig o gerbydau fflyd ym mhrif Swyddfeydd y Cyngor yn Llangefni.

3.10 Mae gwaith datblygu wedi dechrau yn barod i osod darpariaeth gwefru chwim cyhoeddus yn Amlwch, Llangefni, Caergybi a Phorthaethwy yn 2022 drwy Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn Llywodraeth Cymru.

3.11 Bydd cyfuniad o gyfleusterau gwefru chwim a chyflym yn y safle parcio a theithio/ rhannu St Tysilio, Llanfairpwll, yn amodol ar sicrhau cyllid cyfalaf. Bydd gwaith archwilio yn digwydd mewn lleoliadau parcio a theithio/rhannu posibl eraill a/neu feysydd parcio cymunedol.

3.12 Mae'r Cynllun yn cyflwyno ein bwriad i osod gwefru cyflym mewn meysydd parcio sy'n cael eu rhedeg gan y cyngor ar draws yr Ynys, fesul cam, i gwrdd â'r cynnydd a ragwelir yn y galw am wefru dros y degawd nesaf. Byddai hyn yn darparu hyd at ddeg pwynt gwefru cyflym fesul maes parcio erbyn 2025, a hyd at 35 erbyn 2030. Mae'r raddfa hon o ddarpariaeth yn cwrdd â hyd at 50% o gyfanswm y galw am wefru cyflym ar yr Ynys a ragwelwyd yn Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan i Gymru. Disgwylir i'r balans gael ei gyflawni gan y sector preifat.

3.13 Gan weithio tuag at 2030 rydym yn bwriadu treialu datrysiadau ynni arloesol ac adnewyddadwy mewn lleoliadau sy'n anodd eu cysylltu â'r grid, tra'n cefnogi opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy megis parcio a rhannu a chynlluniau rhannu ceir trydan cymunedol.

## 4.0 Camau Nesaf yn ystod 2021/22

4.1 Mae £125k ar gael o gyfanswm o £150k gan Lywodraeth Cymru i'w ddyrannu i'w wario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon (2021/22). Mae'r cynnig ar gyfer gwariant wedi'i amlinellu yn Nhabl 1.

**Tabl – Gweithgareddau Gwaith a Gwariant arfaethedig hyd at ddiwedd mis Mawrth 2022**

| Gweithgaredd | Disgrifiad | Cyllideb |
|---|---|---|
| 1. Astudiaeth Dichonoldeb ar draws holl feysydd parcio'r Cyngor. | • Cynnal asesiadau dichonoldeb ar draws meysydd parcio'r cyngor, i adnabod y pum safle cyntaf ar gyfer gosod gwefru cyflym (allan o gyfanswm o 62 o leoliadau posibl).<br>• Un canlyniad allweddol i'r asesiadau dichonoldeb fydd drwy ymgysylltu â Scottish Power Energy Networks (SPEN) i sefydlu gofynion a chostau cysylltu â'r grid, er mwyn llywio ceisiadau am arian.<br>• Yn amodol ar gyllid, bydd y pum safle cyntaf yn cael eu dylunio a'u datblygu ymhellach yn gynnar yn y flwyddyn ariannol nesaf i'w hadeiladu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. | **£55k** |
| 2. Astudiaeth Dichonoldeb ar draws holl wasanaethau'r Cyngor | • Cynnal asesiadau dichonoldeb i osod gwefru cyflym ar gyfer ymwelwyr â gwasanaethau a redir gan y cyngor.<br>• Bydd hyn yn adnabod y pum lleoliad allweddol megis Oriel Môn a Chanolfannau Hamdden (yn amodol ar ymarferoldeb - mae 19 lleoliad allweddol wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredu Ffigur 9). Un o ganlyniadau allweddol yr asesiadau dichonoldeb fydd ymgysylltu â Scottish Power Energy Networks (SPEN) i sefydlu gofynion a chostau cysylltu â'r grid, er mwyn llywio ceisiadau am arian.<br>• Yn amodol ar gyllid, bydd y safleoedd hyn yn cael eu dylunio a'u datblygu ymhellach yn gynnar yn y flwyddyn ariannol nesaf i'w hadeiladu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. | **£25k** |
| 3. Gosod Gwefru Chwim / Cyflym ym Maes Parcio Neuadd y Dref, Llangefni | • Gosod 1 Pwynt Gwefru Trydan Chwim/Cyflym deuol ym Maes Parcio Neuadd y Dref (cefn – arhosiad hir).<br>• Mae dyfynbrisiau eisoes wedi eu derbyn gan SPEN ar gyfer y safle hwn ac mae'r cysylltiad trydanol yn ffafriol o ran capasiti. | **£25k** |

| | | |
|---|---|---|
| | • Ymgynghorwyr ar gael i wneud gwaith dylunio a gwaith cysylltiedig.<br>• Prif Gontractwr Priffyrdd CSYM ar gael i wneud gwaith sifil.<br>• Gellir cynnal proses dendro ar gyfer prynu seilwaith ym mis Ionawr 2022.<br>• Nid yw'n bosibl lleoli lleoliadau eraill gyda'r gwariant erbyn diwedd y flwyddyn ariannol oherwydd 14 wythnos o amser paratoi i wneud cais am ddyfynbrisiau a threfnu'r tîm ar y safle | |
| 4. Gweithgareddau Lefel Rhaglen Cerbydau Trydan | • Sefydlu swyddogaeth y rhaglen i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r ffrydiau gwaith lluosog dan sylw.<br>• Mae hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth â LlC a SPEN ar brosiectau arloesol / peilot, sefydlu llwybrau caffael, trefniadau cyflawni a rheoli (fel modelau busnes / mae angen ystyried cyfnodau cynlluniau rheoli hirdymor), ymgysylltu â'r rhaglen a chydgysylltu rhanddeiliaid.<br>• Bydd ein gofynion o ran cyflenwyr yn cael eu pennu, gan gynnwys darpariaeth Gymraeg.<br>• Y bwriad yw gweithio gyda'r Rhaglen Ynys Ynni i ddatblygu brandio a negeseuon priodol ar gyfer ein rôl hwyluso a chyflawni, i'w gweld ar-lein ac ar osodiadau seilwaith ffisegol. | **£20k** |
| **Cyflwyno Ceisiadau Cyllid ar gyfer 2022/23** | Paratoi ceisiadau am gyllid (i Lywodraeth Cymru a'r Swyddfa Cerbydau Allyriadau Isel) ar gyfer gosodiadau safle a ffrydiau gwaith eraill yn y Flwyddyn Ariannol 2022/2023 a nodir yn y Matrics Blaenoriaethu a'r Rhaglen/ Blaen Raglen sy'n cyd-fynd â'r rhain. | **£0k** |

4.2 Yn annibynnol ar yr uchod - Nodir y bydd cyfleusterau gwefru cyflym (x1) yn cael eu gosod yn Amlwch, Llangefni, Caergybi a Phorthaethwy trwy'r Gronfa Cerbydau Trydan Isel Iawn sydd eisoes wedi'i sicrhau ar gyfer 2021/22. (Cyfeiriwch at Baragraff 3.8).

4.3 Mae'r Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo wedi gwneud cais am gymorth refeniw ychwanegol i gynorthwyo gyda'r broses o gyflawni'r Cynllun Gweithredu Cerbydau Trydan.

## 5. Blaenoriaethu gweithgareddau ar gyfer y dyfodol

5.1 Mae'r Cynllun Gwefru Cerbydau Trydan yn defnyddio dull cyfannol o fapio'r gofynion gwefru amrywiol ar gyfer defnyddwyr mewn gwahanol leoliadau, gan amrywio cyflymderau gwefru, ac amrywiaeth o fodelau ariannu a darparu. Mae hyn wedi arwain at nodi deg ffrwd gwaith i gyflawni nodau'r Cynllun.

5.2 Yn dilyn dadansoddiad, mae'r pedair prif ffrwd waith wedi'u nodi fel;

a) darparu gwefru yng ngwasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan y cyngor;
b) gwefru cyrchfan yn y maes parcio a theithio/rhannu Parcio a Rhannu Sant Tysilio, Llanfairpwll;
c) Gwefru ym meysydd parcio'r cyngor; (Gyda'i gilydd mae'r mesurau hyn yn creu dosbarthiad cytbwys o leoliadau a mathau o wefru ar draws yr Ynys);
d) Cyfeirio pobl at wybodaeth am wefru preswyl (canlyniadau cyflym).

5.4 Blaenoriaethau dilynol fyddai:

e) Gwefru ar safleoedd cyflogaeth lle mae'r cyngor yn berchen ar y brydles, a;
f) Gwefru ar gyfer maes parcio staff yn swyddfeydd y Cyngor.

5.5 Gall y Cyngor ddefnyddio ei swyddogaethau cynllunio i annog darpariaeth ar safleoedd cyflogaeth dan berchnogaeth breifat, er nad yw hyn yn flaenoriaeth ar o ran gweithredu sydd angen cyllid. Mae hybiau gwefru cymunedol a gwefru ar y stryd ger y pafin yn uchelgeisiau mwy hirdymor ac nid ydynt yn flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

**6. Goblygiadau Ariannol**

6.1 Mae cyflawni'r Cynllun Gweithredu Cerbydau Trydan yn dibynnu ar sicrhau cyllid allanol, felly fe nodir y gall y Cynllun Gweithredu Gwefru ond gael ei ddarparu yn llawn ar yr amod fod cyllid allanol yn cael ei sicrhau. Pe bai hyn yn digwydd, o ran gosod y seilwaith ni fyddai unrhyw oblygiadau ariannol i CSYM ac eithrio amser swyddogion i gyflawni fel y cytunwyd yn y cais am gyllid.

6.2 Gellir ymgymryd â bidiau cyllid cyfalaf mewnol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu Cerbydau Trydan os ystyrir yn flaenoriaeth uchel. Byddai hyn yn golygu goblygiadau ariannol i'r Awdurdod Lleol ar gyfer gweithredu prosiectau o'r fath.

6.2 O ran cam gweithredu rheoli'r seilwaith cerbydau trydan, bydd angen gwneud rhagor o waith i adnabod y modelau busnes / cynlluniau rheoli hirdymor mwyaf ymarferol a chost-effeithiol. Bydd Gweithgaredd 4 yn Nhabl 1 yn canolbwyntio ar hyn yn fanylach er mwyn deall yn well:

a) Gofynion refeniw disgwyliedig ar gyfer cynnal y gorsafoedd gwefru
b) Adnabod model incwm y pwyntiau gwefru (neu gost-niwtral)
c) Costau gweithredu a chynnal a chadw ar yr Awdurdod Lleol
d) Cost gosod am ddim (gan y cyflenwr) i'r Awdurdod Lleol ond yr holl incwm i'w gymryd gan y cyflenwr (yr unig fudd fyddai'r gwasanaeth i'r Awdurdod Lleol)

**7. Monitro**

7.1 Bydd y gweithrediad blynyddol yn cael ei gynllunio yn erbyn y Matrics Blaenoriaethu a bydd mecanweithiau i adrodd a monitro cyflawniad yn cael eu cwblhau yn unol â Chynllun Newid Hinsawdd CSYM. Gellir adrodd ar y cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu Cerbydau Trydan i'r Grŵp Newid Hinsawdd (i'w gadarnhau) / UDA / Pwyllgor Gwaith amlder i'w gytuno.

7.2 Oherwydd natur esblygol a chyflym y sector cerbydau trydan, mae wedi'i amlinellu yng Nghynllun Gweithredu Cerbydau Trydan CSYM i gynnwys adolygiad tymor canolig o'r cynllun i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion ac yn ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau ac yn parhau i fod yn addas i bwrpas.

This page is intentionally left blank

F7 [16/10/17]



| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **28 Chwefror, 2022** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2021/22** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Aled Morris Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Rhys Hughes, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro Dros Dro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2021/22<br>**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â'r blaenoriaethau corfforaethol sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022 a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor. |

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**1. Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith

ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

**2. Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny
- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2017/2022 a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu

2.4 **Effaith yr Argyfwng presennol ar Raglen Waith y Pwyllgor**

Mae'r cyfnod presennol (**rheoli ymateb argyfwng i'r Pandemig, yr Adfer ac yn raddol dychwelyd i'r Normal Newydd**) yn eithriadol o heriol i'r Cyngor a bob sefydliad cyhoeddus arall drwy Gymru wrth i ni barhau i wynebu heriau'r argyfwng Covid-19, ac mae'n anorfod bod hyn yn cael effaith ar raglen waith y Pwyllgor. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi newid ei ffordd o weithio o ganlyniad i'r argyfwng iechyd byd-eang. Yn ystod cyfnod o argyfwng fel hyn, mae llywodraethu ac atebolrwydd yn allweddol bwysig.

Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn cynnig model sgriwtini penodol yn sgil y pandemig, sydd ar y cyd â Strategaeth Bwyllgorau'r Cyngor yn gymorth i lywio rhaglen waith y Pwyllgor, gweler amlinelliad ohono isod:

i. Ffocws ar nifer llai o faterion allweddol sy'n canolbwyntio ar agweddau sylfaenol bywyd pobl leol ("*life and limb*")
ii. Cynnal briff gwylio dros wasanaethau'r Cyngor, perfformiad a materion ariannol
iii. **Elfennau penodol y Model Craffu:**
   - Trosolwg o ymateb y Cyngor i Covid-19
   - Trosolwg penodol ar faterion sylfaenol bywyd (deddfwriaeth gofal; diogelu plant ac oedolion; iechyd cyhoeddus)
   - Cynnal trosolwg ar faterion cyllidol y Cyngor
   - Gweithredu fel cyfrwng ar gyfer profiadau cymunedol.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2021/22

| |
|---|
| ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3] <br><br> 3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod: <br>• Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022) <br>• Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini). |

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| |
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2021/22 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 24 Ionawr, 2022

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI MAI, 2021→ Ebrill, 2022**
**[Fersiwn ddyddiedig 16/02/22]**

**Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd**
Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â'r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Mehefin, 2021 (07/06/21)** | **Mehefin, 2021 (15/06/21)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2020/21 | Diweddariad gan Brif Weithredwr BIPBC |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg 2020/21 |
| Data Digartrefedd y Gwasanaeth Tai (Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, 08/03/2021) | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | |
| | |
| **Gorffennaf, 2021 (08/07/21)** | **Mehefin, 2021 (28/06/2021)** |
| Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020/21 | Adroddiad Blynyddol 2020-21 Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2020/21 |
| | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9)- 2020/21 |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Medi, 2021 (13/09/21)** | **Medi, 2021 (20/09/21)** |
| Monitro Perfformiad Ch1: 2021/22 | Adroddiad Cynnydd Chwarter 1 2021-22 Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Cynnydd Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion |
| Monitro Cynnydd: Cynllun Datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol / Adroddiad Cynnydd Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Hydref, 2021 (18/10/21)** | **Hydref, 2021 (19/10/21) - gohirio** |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2020/21 | |
| Enwebu Aelod o’r Pwyllgor Sgriwtini ar y Grŵp Llywio Gwastraff gyda WRAP Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | |
| | |
| **Tachwedd, 2021 (01/11/21)- Cyllideb 2022/23 - gohirio** | **Tachwedd, 2021 (09/11/21)** |
| | Y Gymraeg:<br>• Strategaeth Iaith: 2021/26 – adolygiad<br>• Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg |
| | Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd: Adroddiad Adolygu |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | Diweddariad – Er Gwybodaeth:<br>• Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus- Trefniadau Llywodraethu<br>• Adroddiad Cynnydd Ch2: 2021/22 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| **Tachwedd, 2021 (16/11/21)- Ch.2** | |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2021/22 | |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| Cynllun Trosiannol | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | |
| | |
| **Ionawr, 2022 (24/01/22)** | **Ionawr, 2022 (18/01/22)** |
| Strategaeth Tai Lleol 2022/27 | Adroddiad Blynyddol – Partneriaeth Diogelwch Cymunedol |
| Sefydlu Cyllideb 2022/23 (cyllideb refeniw) -cynigion drafft cychwynnol | Diogelu Corfforaethol |
| Sefydlu Cyllideb 2022/23 (cyllideb gyfalaf) – cynigion drafft cychwynnol | |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Chwefror, 2022 (28/02/22)** | **Chwefror, 2022 (08/02/22) - gohirio** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2022/23 – refeniw a chyfalaf | |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| Tai Gofal Ychwanegol | |
| Cynllun Net Sero | |
| Isadeiledd Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | |
| | |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| **Mawrth, 2022 (07/03/22) - Ch3** | **Mawrth, 2022 (08/03/22)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2021/22 | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb; 2020/21 |
| Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2022/23 | Adroddiad Cynnydd Ch3: 2021/22 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Strategaeth Digartrefedd a Grant Cymorth Tai | Asesiad Anghenion y Boblogaeth: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant |
| | Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol |
| | |

This page is intentionally left blank